
Adolygiad o'r Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol

Ymgynghoriad

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 19 Rhagfyr 2018

Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn Ymatebion: 27 Chwefror 2019

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Cefndir	8
3. Newidiadau yn y maes cynhyrchu ar gyfer teledu	16
4. Gwerthuso'r drefn a'r Canllawiau presennol	31
5. Cynigion yr Adolygiad	49

1. Trosolwg

Mae Ofcom yn adolygu'r Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau Rhanbarthol a Rhaglenni ('Y Canllawiau')¹ a'r drefn gysylltiedig wrth adrodd yn ôl a chydymffurfio i sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio yn effeithiol mewn maes cynhyrchu sy'n esblygu'n sydyn.

Mae cynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau'n rhan hanfodol o sector cynhyrchu teledu'r DU, ac roedd yn cyfrif am bron i hanner oriau rhaglenni cymwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus² yn 2017. Mae cynhyrchu y tu allan i Lundain yn helpu i wasgaru ac ysgogi buddsoddiad a chyfleoedd swyddi drwy'r DU i gyd. Mae hyn wedi arwain at gyflogi amrywiaeth eang o dalent gydag amrywiaeth o safbwyntiau golygyddol, i greu amrywiaeth eang o raglenni i'w mwynhau gan wylwyr yn y DU. Hefyd, gall hyn helpu i gryfhau canolfannau cynhyrchu rhanbarthol ar gyfer y tymor hir a chefnogi economïau creadigol a diwylliannol ehangach ar draws y DU.

I helpu i hyrwyddo cynyrchiadau teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, mae Ofcom wedi gosod cwotâu ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus³ i sicrhau bod cyfran addas o'u rhaglenni rhwydwaith yn cael eu gwneud yn y DU y tu allan i'r M25 ('cynyrchiadau rhanbarthol'). Mae gan y BBC a gwasanaethau Channel 3 gwotâu hefyd i ddarlledu rhaglenni lleol, gan gynnwys newyddion rhanbarthol, ar draws gwahanol rannau o'r DU ('rhaglenni rhanbarthol'), a dylai cyfran briodol o'r rhain gael eu gwneud yn yr ardal leol.

Er mwyn helpu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i fodloni'r dyletswyddau hyn, rydym ni wedi cyhoeddi Canllawiau. Mae hyn yn cynnwys ein diffiniadau o gynyrchiadau rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol, ac yn egluro sut rydym ni'n disgwyl i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gydymffurfio â'r cwotâu, sut dylai cynyrchiadau gael eu neilltuo i ardaloedd daearyddol penodol, a sut rydym yn monitro cydymffurfiad â'r dyletswyddau.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno prif ganfyddiadau ein hadolygiad o'r Canllawiau a'r drefn gysylltiedig, ac mae'n nodi'r newidiadau rydym yn eu cynnig at ddiben ymgynghoriad.

Yr hyn mae ein tystiolaeth yn ei awgrymu

- **Mae cynyrchiadau teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn cael eu sbarduno'n bennaf gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.** Mae'r sector cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau wedi cynyddu cyfran gwariant rhaglenni gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dros y degawd diwethaf. Mae twf newydd yn y sector annibynnol, ac mae mwy o gwmnïau cynhyrchu lleol gweithredol yn y gwledydd yn gwneud rhaglenni rhwydwaith ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.⁴ Mae Llundain yn parhau i chwarae rôl allweddol yng nghynyrchiadau'r gwledydd a'r rhanbarthau, gan fod pencadlysoedd llawer o'r cwmnïau cynhyrchu yn y ddinas ac mae'n dal i fod yn ffynhonnell adnoddau a thalent sylweddol.

¹ Diffiniadau o *raglenni rhanbarthol a chynhyrchu rhanbarthol*: Canllawiau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, 2010.

² Cyfeirio at raglenni rhwydwaith sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn unig ac nid yw'n cynnwys newyddion.

³ Y BBC, gwasanaethau Channel 3, Channel 4 a Channel 5.

⁴ [Oliver & Ohlbaum – Regionality trends within the UK production sector.](#)

- **Mae cefnogaeth gyffredinol yn y diwydiant i ddefnyddio canllawiau i ddiffinio cynhyrchiad rhanbarthol a chynnwys cyffredinol y tri maen prawf diffiniol yn y Canllawiau.** Nid oedd llawer o alw yn yr ymatebion i'n cais am dystiolaeth am fabwysiadu dull gwahanol.
- **Fodd bynnag, mae pobl wedi codi pryderon am sut mae'r Canllawiau'n cael eu rhoi ar waith yn ogystal â chydymffurfio â nhw.** Mae'r ymatebion yn awgrymu efallai nad yw rhai cynhyrchwyr yn dilyn y Canllawiau'n gywir bob tro, ac mai hyn a hyn mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei wneud i oruchwyllo'r ffordd mae'r Canllawiau'n cael eu defnyddio. Awgrymodd rhanddeiliaid hefyd fod angen gwella prosesau cwyno a chydymffurfio Ofcom, a phrosesau adrodd yn ôl y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae llawer sy'n defnyddio'r Canllawiau am i'r ddogfen fod yn fwy eglur i helpu i sicrhau cysondeb wrth ei dehongli a'i defnyddio.
- **Does dim angen newidiadau mawr i'r adran rhaglenni rhanbarthol yn y Canllawiau,** yn seiliedig ar ymatebion y rhanddeiliaid.

Yr hyn rydym ni'n ei gynnig

Newidiadau i'r Canllawiau

- **Rydym ni'n cynnig ychwanegu geiriad newydd i'r Canllawiau i sicrhau bod amcan polisi cyffredinol y drefn ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn glir - i gefnogi a chryfhau cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau - i atgoffa defnyddwyr y dylai'r Canllawiau gael eu defnyddio gan ddilyn y meddylfryd hwn.**
- **Rydym ni'n cynnig cryfhau dau o'r meini prawf sy'n diffinio cynhyrchiad rhanbarthol, i egluro sut y dylid eu bodloni, ac i wella sut mae bwriad y polisi yn cael ei gyflawni.** Mae hyn yn cynnwys ychwanegu gofyniad y dylai canolfan sylweddol⁵ fod yn weithredol cyn i'r comisiynu ddigwydd, i atal swyddfeydd dros dro rhag bod yn gymwys ar gyfer y maen prawf hwn, a newid pellach sy'n dweud yn glir pa gostau dylid eu heithrio o'r gyllideb cynhyrchu.
- **Rydym ni'n cynnig na fydd cynnwys sy'n hunan-hyrwyddo yn cyfrif at y cwotâu cynhyrchu rhanbarthol.**
- **Rydym ni'n cynnig ychwanegu adran nodiadau esboniadol newydd i'r Canllawiau.** Byddai hyn yn rhoi rhagor o wybodaeth am nodau pob un o'r tri maen prawf ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol⁶ i helpu'r diwydiant i roi'r Canllawiau ar waith.
- **Rydym ni'n cynnig gwneud newidiadau i'r broses o sut mae cynyrchiadau'n cael eu neilltuo at ddibenion cwota, i wahanol rannau o'r DU, er mwyn adlewyrchu'n well lle mae cynyrchiadau yn cael eu gwneud.⁷**

⁵ Diffiniad presennol y Canllawiau o ganolfan sylweddol: mae'n rhaid i'r cwmni cynhyrchu gael canolfan gynhyrchu a busnes sylweddol yn y DU y tu allan i'r M25. Bydd canolfan yn cael ei hystyried yn un sylweddol os mai dyma yw man gwaith arferol y swyddogion gweithredol sy'n rheoli'r busnes rhanbarthol, staff uwch sy'n ymwneud â'r cynhyrchiad dan sylw, a staff personél uwch sy'n ymwneud â'r gwaith o chwilio am raglenni i'w comisiynu.

⁶ Edrychwch ar baragraff 2.13.

⁷ Mae'r Canllawiau'n mynnu bod pob cynhyrchiad rhanbarthol yn cael eu neilltuo i naill ai Gymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, i un o'r tri isranbarth yn Lloegr, neu fel 'sawl-gwlad/rhanbarth'. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i fonitro'r ystod o ganolfannau cynhyrchu mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu defnyddio ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol, ac yn achos y BBC a Channel 4, i asesu cydymffurfiaid â'u dyletswyddau cynhyrchu ar gyfer gwledydd.

- Rydym ni'n cynnig gwneud newidiadau gweinyddol bach i'r Canllawiau er mwyn ei ddiweddarau.

Newidiadau o ran cydymffurfio

- Byddwn ni'n mynnu bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu mwy o ddata i ddangos sut mae cynrychiadau'n diwallu'r meini prawf.
- Byddwn ni'n cyflwyno archwiliadau yn y fan a'r lle ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i fonitro sut mae'r Canllawiau'n cael eu rhoi ar waith gan ddefnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth.
- Byddwn ni'n taflu goleuni ar sut mae cynrychiadau rhanbarthol yn cydymffurfio â'r Canllawiau drwy gyhoeddi mwy o ddata ac ehangu a gwella ein cyhoeddiadau er mwyn sicrhau mwy o dryloywder.
- Byddwn ni'n manylu ynghylch ein proses gwyno yn y Canllawiau. Bydd proses newydd hefyd i rannu canlyniadau cwynion â rhanddeiliaid.

Monitro'r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus

- Byddwn ni'n cynnal arolwg o gynhyrchwyr a'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i feincnodi'r gymysgedd o dalent ac adnoddau o Lundain a'r gwledydd a rhanbarthau sy'n cael eu defnyddio mewn cynrychiadau rhanbarthol ac yn y gwaith o'u comisiynu.
- Byddwn ni'n parhau i adolygu sut mae pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrannu at ddatblygu canolfannau cynhyrchu rhanbarthol ymhellach.

Crynodeb syml lefel uchel yw hwn yn unig. Mae rhagor o fanylion yn y ddogfen lawn.

Yr adolygiad hwn

Rydym ni'n adolygu'r Canllawiau i sicrhau ei fod yn effeithiol mewn maes sy'n esblygu'n sydyn.

Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar sut mae'r Canllawiau a'r trefniadau cysylltiedig ar gyfer cydymffurfio ac adrodd yn ôl yn gweithio'n ymarferol, yn hytrach nag adolygiad llawn o'r holl sector cynhyrchu yn y DU. Nid yw lefelau cwtâu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a sut mae'r gwledydd a'r rhanbarthau yn cael eu cynrychioli a'u portreadu ar y teledu yn rhan o gwmpas yr adolygiad.

Cynhyrchu ar gyfer y teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau

Mae ein dadansoddiad yn dangos y canlynol:

Mae cynrychiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn cael eu sbarduno'n bennaf gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Roedden nhw wedi gwario tua £1.1bn yn 2017 ar gomisiynu rhaglenni rhanbarthol a rhwydwaith wedi'u gwneud y tu allan i'r M25, gan ddarparu 6,453 awr o gynnwys rhwydwaith newydd. Roedd hyn yn cyfrif am bron i hanner (49%) o holl gyfanswm oriau rhwydwaith cymwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Mae'r sector cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau wedi cynyddu ei gyfran o wariant gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dros y degawd diwethaf o 39% yn 2008 i 43% yn 2017. Mae

cyfanswm gwariant mewn termau real ar gynyrchiadau rhanbarthol gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi gostwng mewn gwirionedd dros y blynnyddoedd diwethaf (gostyngiad o 8.8%), ond roedd gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynyrchiadau rhwydwaith wedi gostwng yn gyflymach yn gyffredinol (i lawr 9.9%) dros yr un cyfnod.

Mae twf newydd yn y sector annibynnol, ac mae mwy o gwmnïau cynhyrchu lleol gweithredol yn gwneud rhaglenni ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y gwledydd. Mae Cymru a'r Alban wedi gweld twf penodol, sydd wedi cael ei sbarduno gan y targedau gwariant ac oriau newydd y tu allan i Loegr ar gyfer y BBC a'r cwotâu ar gyfer Channel 4, a gyflwynwyd yn 2008 a 2010 yn y drefn honno. Mae'r twf yng Nghymru a'r Alban yn debygol o fod wedi bod yn ffactor pwysig yn y gostyngiad yn nifer y cwmnïau cynhyrchu gweithredol yn rhai o ranbarthau Lloegr.

Mae Llundain yn parhau i chwarae rôl allweddol yng nghynyrchiadau'r gwledydd a'r rhanbarthau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio talent ac adnoddau cynhyrchu sydd yn Llundain megis canolfannau ôl-gynhyrchu, a hefyd nifer y cynyrchiadau sy'n cael eu comisiynu gan gwmnïau sydd â chanolfan sylweddol yn y gwledydd neu'r rhanbarthau, ac sydd â'u pencadlys yn Llundain.

Effeithiolrwydd y rheoliadau presennol

Mae'r adborth i'n Cais am Dystiolaeth ac yn ystod sesiynau trafod y diwydiant yn awgrymu'r canlynol:

Mae cefnogaeth gyffredinol i ddefnyddio'r Canllawiau i reoleiddio. Mae'r ymatebion yn dangos bod y rhan fwyaf o'r diwydiant yn cefnogi defnyddio'r Canllawiau a'r egwyddorion sy'n sail i'r tri maen prawf sy'n diffinio cynyrchiadau rhanbarthol.

Fodd bynnag, mae pobl wedi codi pryderon am sut mae'r meini prawf yn cael eu diwallu. Mae ymatebion yn awgrymu bod arferion cynhyrchu mewn rhai achosion yn gallu arwain at sefyllfa lle nad yw'r meini prawf neu elfennau eraill o'r Canllawiau yn cael eu defnyddio'n gywir. Mewn achosion eraill, efallai fod cynyrchiadau'n cydymffurfio â rhwymedigaethau trwydded a'r Canllawiau presennol, ond eu bod yn cael eu gweld fel cynyrchiadau sy'n methu â darparu'r nod gyffredinol o gefnogi cynyrchiadau rhanbarthol ar draws y DU.

Mae llawer sy'n defnyddio'r Canllawiau am i'r ddogfen fod yn fwy eglur i helpu i sicrhau cysondeb wrth ei dehongli a'i defnyddio. Roedd y syniadau i gyflawni hyn, a gyflwynwyd mewn ymateb i'n Cais am Dystiolaeth, yn cynnwys gwneud newidiadau i'r meini prawf; ychwanegu rhagor o fanylion esboniadol yn y Canllawiau; a nodi sut rydym yn disgwyl i hyn gael ei roi ar waith.

Mae'n ymddangos mai hyn a hyn mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei wneud i oruchwylio bod rhaglenni'n bodloni'r diffiniad o gynhyrchiad rhanbarthol. Mae adborth gan y diwydiant a'n profiadau eu hunain yn awgrymu efallai bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn rhy ddibynnol ar gynhyrchwyr i'r perwyl hwn mewn rhai achosion, ac nad ydynt wedi gofyn am y data angenrheidiol i ddangos sut mae'r cynhyrchiad wedi bodloni'r diffiniad ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol. Rydym ni'n nodi fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi mynd ati ar y cyd, yn ddiweddar, i gyhoeddi cyngor arferion gorau i helpu cynhyrchwyr i ddarparu cynyrchiadau yn unol â Chanllawiau Ofcom.

Mae angen gwella'r prosesau adrodd yn ôl a chydymffurfio. Awgrymodd rhanddeiliaid amrywiaeth o fesurau i sicrhau cydymffurfio mwy effeithiol yn y maes hwn. Mae'r rhain yn amrywio: o'r gwaith

rhagweithiol o fonitro'r cynyrchiadau sy'n cael eu cynnwys yn y cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol; cynyddu faint o ddata sy'n cael eu cyhoeddi; i gyflwyno proses gwyno dryloyw.

Rhaglenni rhanbarthol

Does dim angen newidiadau mawr i'r adran rhaglenni rhanbarthol yn y Canllawiau. Yn seiliedig ar yr ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth, nid ydym ni'n credu bod materion o bwys sydd angen sylw yn yr adran hon o'r Canllawiau. Fodd bynnag, rydym ni'n cydnabod y bydd unrhyw newidiadau rydym ni'n bwriadu eu gwneud i'r meini prawf ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn cael rhywfaint o effaith ar raglenni rhanbarthol hefyd.

Ein cynigion

Canllawiau Gwell

Rydym ni'n cynnig ychwanegu geiriad newydd i'r Canllawiau i sicrhau bod amcan polisi cyffredinol y drefn ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn glir, sef i gefnogi a chryfhau cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Nod hyn fydd atgoffa defnyddwyr y dylai'r Canllawiau gael eu defnyddio gan ddilyn y meddylfryd hwn.

Rydym ni'n cynnig cryfhau dau o'r meini prawf sy'n diffinio cynhyrchiad rhanbarthol, i egluro sut y dylid eu bodloni, ac i wella sut mae bwriad y polisi yn cael ei gyflawni. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu gofyniad y dylai canolfan sylweddol fod yn weithredol cyn i'r comisiynu ddigwydd, i atal swyddfeydd dros dro rhag bod yn gymwys ar gyfer y maen prawf hwn, a nodi'n glir pa gostau dylid eu cynnwys neu eu heithrio fel rhan o'r gyllideb cynhyrchu.

Rydym ni'n cynnig na fydd cynnwys sy'n hunan-hyrwyddo yn cyfrif at y cwotâu cynhyrchu rhanbarthol. Ychydig iawn o werth sydd i'r deunydd hwn o ran datblygu amcan polisi ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol.

Rydym ni'n cynnig ychwanegu adran nodiadau esboniadol newydd i'r Canllawiau. Rydym ni'n bwriadu darparu rhywfaint o ddeunydd ategol i helpu rhanddeiliaid i ddehongli'r meini prawf a'u rhoi ar waith.

Rydym ni'n cynnig gwneud newidiadau i'r broses o sut mae cynyrchiadau'n cael eu neilltuo at ddibenion cwota, i wahanol rannau o'r DU, er mwyn adlewyrchu'n well lle mae cynyrchiadau yn cael eu gwneud. Dylai hyn wneud y broses adrodd yn ôl yn fwy tryloyw. Byddai hyn hefyd yn diweddarau'r Canllawiau er mwyn ystyried dyletswyddau newydd i'r gwledydd, ac yn galluogi'r BBC a Channel 4 i gynnwys mwy o'u cynyrchiadau rhanbarthol yn y cwotâu hyn ar gyfer ardaloedd gwahanol yn y DU na'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Rydym ni'n cynnig gwneud newidiadau gweinyddol bach i'r Canllawiau er mwyn ei ddiweddarau. Er enghraifft, mae angen i ni adlewyrchu'r drefn reoleiddio newydd ar gyfer y BBC, a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2017.

Trefn gydymffurfio gadarn

Byddwn ni'n mynnu bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu mwy o ddata i ddangos sut mae cynyrchiadau wedi bodloni'r meini prawf. Dylai hyn helpu i sicrhau bod y darlledwyr

gwasanaeth cyhoeddus yn gwella'r ffordd maent yn goruchwyllo'r gwaith o ddarparu cynyrchiadau a oedd wedi cael eu gwneud yn unol â'r Canllawiau, a bod cwmnïau cynhyrchu yn rhoi hyn ar waith yn fwy cadarn.

Byddwn ni'n cyflwyno archwiliadau yn y fan a'r lle ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i fonitro sut mae'r Canllawiau'n cael eu rhoi ar waith gan ddefnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth. Ar y cyd â'r gofynion ychwanegol i adrodd yn ôl, dylai defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth fel hyn annog rhagor o atebolrwydd gan y rheini yn y gadwyn cynhyrchu o ran rhoi'r meini prawf ar waith a darparu teitlau yn unol â bwriad y Canllawiau.

Byddwn ni'n taflu goleuni ar sut mae cynyrchiadau rhanbarthol yn cydymffurfio â'r Canllawiau drwy gyhoeddi mwy o ddata, ehangu a gwella ein cyhoeddiadau er mwyn sicrhau mwy o dryloywder. Byddwn ni'n cynyddu faint o wybodaeth byddwn ni'n ei chynnwys yn y Gofrestr flynyddol o Deitlau rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain. Byddwn ni hefyd yn cyhoeddi hyn mewn fformat mwy rhyngweithiol, i helpu pobl i ddod o hyd i'r data sydd fwyaf perthnasol iddyn nhw.

Byddwn ni'n manylu ynghylch y broses gwyno yn y Canllawiau. Bydd hyn yn rhoi llwybr clir i randdeiliaid godi materion gydag Ofcom am deitlau cynyrchiadau rhanbarthol. Bydd proses newydd hefyd i rannu canlyniadau cwynion â rhanddeiliaid. Os ydym ni o'r farn bod achos o dorri rhwymedigaeth trwydded wedi digwydd, byddwn ni'n ystyried camau gorfodi priodol.

Monitro'r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus

Byddwn ni'n cynnal arolwg o gynhyrchwyr a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i feincnodi'r gymysgedd o dalent ac adnoddau o Lundain a'r gwledydd a rhanbarthau sy'n cael eu cyflogi mewn cynyrchiadau rhanbarthol ac yn y gwaith o'u comisiynu, wrth i ni ystyried er bod nifer o ddatblygiadau cadarnhaol wedi bod mewn cynyrchiadau rhanbarthol, mae angen gwneud rhagor o gynnydd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ecolegau annibynnol sy'n cynhyrchu o'r dechrau i'r diwedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

Byddwn ni'n parhau i adolygu sut mae pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrannu at ddatblygu canolfannau cynhyrchu rhanbarthol ymhellach. Rydym ni'n credu mai dyma'r amser i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus adolygu eu strategaethau cynyrchiadau rhanbarthol i ystyried sut mae modd iddyn nhw fanteisio orau ar gyfleoedd newydd sy'n deillio o gyhoeddiad *4 All the UK* gan Channel 4 a lansiad sianel BBC Scotland sydd ar y gweill a chynlluniau sectorau eraill sydd ar fin datblygu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, i ddefnyddio talentau ac adnoddau rhanbarthol yn well. Byddwn ni'n monitro eu cynnydd yn y maes hwn.

Crynodeb o'r cynigion

Ffigur 1: Newidiadau arfaethedig i'r drefn ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol

Gofynion trwydded	Canllawiau	Cydymlfurio	Gorfodi	Meincnodi
Cwotâu cynrychiadau rhanbarthol ynghylch isafswm % oriau a gwariant	Rhaid i gynrychiadau rhanbarthol gwrdd ag o leiaf ddau o'r tri maen prawf	Adrodd yn ôl – Rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyflwyno data i Ofcom er mwyn adrodd yn ôl yn flynyddol ynghylch a ydynt wedi cyflawni eu cwotâu ai peidio, a'r cynrychiadau maent wedi'u cynnwys yn eu cwotâu	Delio â chwynion fesul achos. Os na fydd un o ddyletswyddau trwydded yn cael ei chyflawni, byddwn yn cymryd camau gorfodi priodol	Cynnal arolwg yn y diwydiant o gynrychiadau rhanbarthol er mwyn meincnodi'r defnydd cymharol o adnoddau yn y gwledydd a'r rhanbarth o'u cymharu ag adnoddau yn Llundain
Sofyniad ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol (gyda'i gilydd) i ddarparu ystod addas o raglenni a defnyddio ystod addas o ganolfannau cynhyrchu	Rhaid i gynrychiadau rhanbarthol gael eu neilltuo i wlad, un o'r tri isranbarth yn Lloegr, neu fel sawl rhanbarth	Adrodd yn ôl – Y ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflwyno data blynyddol ychwanegol	Proses newydd i gyfleu i randdeiliaid beth yw canlyniadau cwynion	
Cwotâu rhaglenni rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau Channel 3 a'r BBC	Dylai rhaglenni rhanbarthol ddilyn y diffiniadau perthnasol	Cyhoeddiadau – Pecyn data blynyddol y ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus: yn cynnwys manylion am gyflawni cwota'r ddarlledwr ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol. Cofrestr flynyddol o deitlau rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain: rhestru manylion y cynrychiadau sydd wedi'u cynnwys yn y cwota		
Ystyried unrhyw ganllawiau sy'n cael eu cyhoeddi gan Ofcom	Geiriad ychwanegol newydd sy'n pwysleisio amcan polis'r dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol	Cyhoeddiadau – Cynyddu amrywiaeth a lefel y data y mae Ofcom yn ei gyhoeddi. Creu un cyhoeddiad digidol rhyngweithiol sy'n cynnwys yr holl ddata perthnasol		
Dyletswydd i adrodd yn ôl er mwyn cyflwyno gwybodaeth fanwl ar gais o dan ein pwerau casglu gwybodaeth	Rhaid i'r ganolfan sylweddol fod yn weithredol cyn y pwynt comisiynu	Monitro – Cyflwyno proses i fonitro'r ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar hap		
	Ffi cynhyrchu wedi'i heithrio o'r maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu			
	Newidiadau esboniadol ychwanegol i'r maen prawf			
	Rhaglenni sy'n hunan-hyrrwyddo wedi'u heithrio o'r cwotâu			
	Atodiad newydd sy'n cynnwys nodiadau esboniadol			
	Cyfeiriadau newydd at y broses gwyno			
	Dau gategori newydd ar gyfer dyrannu data: sawl rhanbarth yn Lloegr a sawl gwlad y tu allan i Loegr			
	Newidiadau esboniadol i'r categorïau dyrannu			

Excellence collaboration agility EMPOWERMENT

Ffynhonnell: Ofcom. Mae testun piws yn dangos y drefn reoleiddio bresennol. Mae testun gwyrdd yn dangos y newidiadau arfaethedig.

Ymateb i'r ymgynghoriad

Y dyddiad olaf ar gyfer ymateb yw 27 Chwefror 2019. Rydym ni'n bwriadu cyhoeddi datganiad sy'n nodi canlyniadau terfynol yr adolygiad yn ystod gwanwyn 2019.

2. Cefndir

Y cyd-destun deddfwriaethol

- 2.1 O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y 'Ddeddf') a Siarter a Chytundeb y BBC, rhaid i Ofcom sicrhau bod cyfran addas o'r cynrychiadau y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu comisiynu ar gyfer eu darlledu ar y teledu ledled y DU⁸ ('rhaglenni rhwydwaith') yn cael eu gwneud yn y DU y tu allan i'r M25, a hefyd ar gyfer y BBC, yn y gwledydd ('cynrychiadau rhanbarthol').^{9,10}
- 2.2 Rhaid i Ofcom sicrhau hefyd:
- a) fod arlwy addas ac eang o raglenni (wrth ystyried y cyfan);
 - b) bod cyfran briodol o wariant pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y DU yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i'r M25 (ac ym mhob un o'r gwledydd ar gyfer y BBC); a
 - c) bod y canolfannau hyn yn cynrychioli amrywiaeth briodol o ganolfannau cynhyrchu o'r fath.
- 2.3 Hefyd, mae'n rhaid i Ofcom sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi i raglenni, sy'n cael eu darlledu mewn ardaloedd mwy lleol ar wasanaethau'r BBC a Channel 3, ac sydd o ddiddordeb i bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny ('rhaglenni rhanbarthol').¹¹
- 2.4 Fel sydd wedi'i nodi ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth ar Gyfathrebu yn 2000, bwriad deddfwriaethol y dyletswyddau statudol ar raglenni rhanbarthol a chynhyrchu rhanbarthol oedd creu "canolfannau cynhyrchu rhaglenni rhanbarthol cadarn", sy'n gallu "creu swyddi, cyfleoedd hyfforddiant a phyrth i'r diwydiannau creadigol ar lefel genedlaethol" a bod dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol yn benodol yn gallu "helpu i fynd i'r afael ag anghydbwysedd daearyddol yn y diwydiant cynhyrchu cenedlaethol ar gyfer y teledu".¹²

Ein dull rheoleiddio

- 2.5 Mae'r diagram canlynol yn crynhoi'r gwahanol ffyrdd y mae Ofcom yn eu defnyddio i gyflawni ei ddyletswyddau yn y maes hwn. Mae rhagor o fanylion isod.

⁸ Neu, yn achos Channel 3, eu darlledu mewn mwy nag un rhanbarth.


⁹ Adrannau 286 a 288 o [Ddeddf Cyfathrebiadau 2003](#) (Channel 3, Channel 4 a Channel 5) Ac Atodlen 2, paragraff 7 o [Gytundeb y BBC](#).

¹⁰ Mae'r term 'cynrychiadau rhanbarthol' yn cael ei nodi yn Neddf Cyfathrebiadau 2003. Pan fyddwn ni'n defnyddio'r term hwn, rydym ni'n cyfeirio at raglenni rhwydwaith a weir yn y DU y tu allan i'r M25, gan gynnwys yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

¹¹ Adran 287 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (Channel 3) ac Atodlen 2, paragraff 6 yng Nghytundeb y BBC.

¹² A New Future for Communications 2000, paragraffau 4.46 a 5.7.1-5.7.2.

Ffigur 2: Dull rheoleiddio presennol ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol



Ffynhonnell: Ofcom

Gofynion trwydded

Cynyrchiadau rhanbarthol

- 2.6 Mae Ofcom wedi gosod cwotâu ar y gyfran sylfaenol o wariant ac oriau y mae'n rhaid eu neilltuo i gynyrchiadau rhanbarthol. Mae lefel y cwotâu yn amrywio yn ôl darlledwr, ac mae wedi'i nodi yn nhrwydded pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. Mae gan y BBC gwotâu hefyd ar gyfer cynhyrchu ym mhob gwlad, ac mae gan Channel 4 gwota cynhyrchu 'y tu allan i Loegr'.

Ffigur 3: Y cwotâu presennol ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol

		BBC	ITV	Channel 4	Channel 5
Cynyrchiadau yn y DU y tu allan i'r M25	% oriau o raglenni rhwydwaith	50%	35%	35%	10%
	% gwariant cynyrchiadau	50%	35%	35%	10%
Cynyrchiadau yn y Gwledydd y tu allan i Loegr	% oriau o raglenni rhwydwaith	Lloegr y tu allan i'r M25: 30% Yr Alban: 8% Cymru: 4% (5% o 2020 ymlaen) Gogledd Iwerddon: 2% (3% o 2020 ymlaen)	Amherthnasol	3% (9% o 2020 ymlaen)	Amherthnasol
	% gwariant cynyrchiadau	Lloegr y tu allan i'r M25: 28% (30% o 2020 ymlaen) Yr Alban: 8% Cymru: 5% Gogledd Iwerddon: 3%	Amherthnasol	3% (9% o 2020 ymlaen)	Amherthnasol

Ffynhonnell: Trwyddedau Ofcom ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Nodyn: Mae cwotâu'r BBC yn berthnasol i wasanaethau teledu'r BBC yn gyffredinol, ond mae cwotâu ITV, Channel 4 a Channel 5 yn berthnasol i'r brif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn unig.

- 2.7 Mae Ofcom wedi gosod amodau trwydded ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob un ohonyn nhw sicrhau bod eu cynrychiadau rhanbarthol (gyda'i gilydd) yn cynrychioli ystod briodol o raglenni, a bod eu gwariant ar gynrychiadau rhanbarthol yn cynrychioli ystod briodol o ganolfannau cynhyrchu y tu allan i'r M25.
- 2.8 Mae trwyddedau'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys gofyniad sy'n mynnu eu bod yn ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Ofcom.

Rhaglenni rhanbarthol

- 2.9 Mae Ofcom wedi gosod cwotâu ar gyfer rhaglenni rhanbarthol i BBC One a BBC Two^{13,14}, a gwasanaethau Channel 3. Mae'r rhain yn mynnu bod y cynnwys o ddiddordeb arbennig i'r bobl sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol sy'n cael y gwasanaeth. Hefyd, dylai bod cyfran briodol o'r rhaglenni hyn yn cael eu gwneud yn yr ardal lle sy'n cael y gwasanaeth.
- 2.10 Fel sy'n wir am unrhyw gynhyrchiad rhanbarthol, mae trwyddedau'r BBC a Channel 3 yn cynnwys gofyniad sy'n mynnu eu bod yn ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Ofcom.

Canllawiau

- 2.11 Mae Ofcom wedi cyhoeddi *Diffiniadau o raglenni rhanbarthol a chynhyrchu rhanbarthol: Canllawiau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus* ('y Canllawiau').¹⁵ Mae'r Canllawiau'n egluro sut rydym wedi dehongli'r dyletswyddau statudol, i gyflawni bwriad Senedd y DU. Mae'n cynnwys ein diffiniadau o gynrychiadau rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol, ac yn egluro sut rydym ni'n disgwyl i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gydymffurfio â'r cwotâu, sut dylai cynrychiadau gael eu neilltuo i ardaloedd daearyddol penodol, a sut rydym yn monitro cydymffurfiaid â'r dyletswyddau. Gyda'i gilydd, dylai hyn helpu i sicrhau bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni eu cwotâu mewn ffordd gyson.

Cynrychiadau rhanbarthol

- 2.12 Ymyriadau polisi diwydiannol yw'r gofynion ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol yn bennaf, sy'n ceisio cefnogi a chryfhau'r sector cynhyrchu teledu a'r economïau creadigol yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU. O'r herwydd, mae'r Canllawiau'n diffinio cynrychiadau

¹³ Mae'r amodau hyn ar gyfer BBC One a BBC Two gyda'i gilydd. Mae gan y BBC ddyletswydd hefyd i ddarparu rhaglenni newyddion sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol ar BBC One.

¹⁴ Fel rhan o'i gynlluniau ar gyfer Sianel newydd BBC Scotland, mae'r BBC wedi cynnig bod rhaglenni penodol lleol ar BBC Two Scotland yn dirwyn i ben ac yn cael eu darlledu ar y sianel newydd yn lle hynny. Mae Ofcom wrthi'n amrywio Trwydded Weithredu'r BBC gan ystyried y cynlluniau hyn: [Sianel BBC Scotland newydd :Amrywiadau arfaethedig i Drwydded Weithredu Ofcom ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y BBC](#).

¹⁵ [Diffiniadau o raglenni rhanbarthol a chynhyrchu rhanbarthol:Canllawiau i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, 2010.](#)

rhanbarthol o ran mewnbwn yn hytrach na phennu allbynnau penodol, er enghraifft pynciau'r cynyrchiadau rhanbarthol.

- 2.13 Mae'r Canllawiau yn nodi, er mwyn cyfrannu at y cwota cynhyrchu rhanbarthol fesul awr, bod yn rhaid i deitlau fodloni dau o'r tri maen prawf canlynol:¹⁶
1. *"mae'n rhaid i'r cwmni cynhyrchu gael canolfan gynhyrchu a busnes sylweddol yn y DU y tu allan i'r M25. Bydd canolfan yn cael ei hystyried yn un sylweddol os mai dyma yw man gwaith arferol y swyddogion gweithredol sy'n rheoli'r busnes rhanbarthol, staff uwch sy'n ymwneud â'r cynhyrchiad dan sylw, a staff uwch sy'n ymwneud â'r gwaith o chwilio am raglenni i'w comisiynu;*
 2. mae'n rhaid gwario o leiaf 70% o'r gyllideb cynhyrchu (gan eithrio costau talentau ar y sgrin, deunydd o'r archif, hawliau chwaraeon, arian a roddir fel gwobrau mewn cystadlaethau a chostau hawlfraint) yn y DU y tu allan i'r M25; ac
 3. *mae'n rhaid mai yn y DU, y tu allan i'r M25, y mae man gwaith arferol o leiaf 50% o'r talentau cynhyrchu (h.y. nid talentau ar y sgrin) o ran costau. Bydd gweithwyr llawrydd sydd heb fan gwaith arferol y tu allan i'r M25 yn cael eu cynnwys at y diben hwn os ydyn nhw'n byw y tu allan i'r M25."*¹⁷
- 2.14 Mae'r un meini prawf yn cael eu defnyddio hefyd i benderfynu a yw rhaglen yn cael ei chynnwys yn y cwota gwariant. Yn yr achos hwnnw, byddai holl gost y cynhyrchiad (ac eithrio arian trydydd parti) yn cael ei gynnwys yn y cwota.¹⁸
- 2.15 Mae'r meini prawf yn seiliedig ar dair elfen graidd wahanol unrhyw gynhyrchiad; y cynhyrchydd (ac yn benodol eu lleoliad); cyllideb y cynhyrchiad; a'r talentau oddi ar y sgrin sy'n gweithio ar y cynhyrchiad. Mae rhychwant y tri maen prawf a'r gofynion sydd ym mhob un yn ceisio sicrhau bod cynhyrchiad wedi'i wreiddio yn y gwledydd neu'r rhanbarthau. Os byddan nhw'n cael eu bodloni ar wahân, dylen nhw helpu i gyfrannu at y cynhyrchiad rhanbarthol, ond os byddan nhw'n cael eu rhoi ar waith gyda'i gilydd, dylen nhw greu cynhyrchiad gwirioneddol ranbarthol wedi'i wneud yn unol â bwriad y polisi.
- 2.16 Cafodd y meini prawf eu llunio'n fwriadol i fod yn ddigon hyblyg i fodloni natur unigryw pob cynhyrchiad ac ystod lawn genres rhaglenni. Hefyd, maent yn rhoi cyfle i gwmnïau cynhyrchu allanol neu fewnol ddarparu cynyrchiadau rhanbarthol, o'r gwledydd a'r rhanbarthau ac o Lundain. Dylai hyn ddwyn buddion economaidd a chyfleoedd swyddi yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ni waeth pwy yw'r cwmni cynhyrchu. Dylai hyn hefyd roi cyfle i raglenni gael eu gwneud ar draws y DU ni waeth a yw'r arbenigedd, yr offer neu'r cyfleusterau ar gael yn lleol neu beidio. Mae'n ceisio sicrhau tegwch hefyd i bob cyflenwr, i annog darlledwyr i gomisiynu cymaint ag y bo modd o raglenni sydd wedi'u gwneud yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

¹⁶ Dim ond rhaglenni a ddarlledir am y tro cyntaf sy'n gallu cael eu cynnwys yn y cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol. Mae rhaglenni newyddion wedi'u heithrio o'r cyfrifiad hefyd.

¹⁷ Y Canllawiau, paragraff 5.

¹⁸ Y Canllawiau, paragraff 6.

- 2.17 Pan wnaethom gyhoeddi'r Canllawiau yn 2004, fe wnaethom nodi yn y ddogfen hefyd ein rhesymau dros brif elfennau ein ffordd o weithio. Roedd yr esboniadau hyn yn cynnwys:
- ei gwneud yn ofynnol i gynyrchiadau perthnasol gydymffurfio â dau o'r tri maen prawf er mwyn cynnig hyblygrwydd i gynhyrchwyr ddefnyddio rhywfaint o adnoddau o Lundain, heb rwystro amcan polisi'r statud, sef cynnal a chryfhau cynyrchiadau rhanbarthol yn y DU. Byddwn yn monitro'r cydbwysedd rhwng cynyrchiadau rhanbarthol sydd wedi'u creu gan gynhyrchwyr rhanbarthol a chynhyrchwyr yn Llundain, ac os daw i'r amlwg bod cynhyrchwyr yn Llundain yn dominyddu cynyrchiadau rhanbarthol, byddwn yn ystyried newidiadau pellach;
 - wrth beidio cynnwys talentau ar y sgrin yn y cyfrifiadau, mae hyn yn sicrhau bod y cwotâu'n dal yn canolbwyntio ar arbenigedd cynhyrchu yn y rhanbarthau yn hytrach nag ar dalentau ar y sgrin sy'n gallu symud o un lle i'r llall ac, yn bwysicach fyth, sicrhau nad yw'r cwotâu'n cael eu sgiwio gan gost sylweddol talentau ar y sgrin mewn rhai cynyrchiadau (gan gynnwys cynyrchiadau drama, ond heb eu cyfyngu i'r rhain].
 - mae cwota 50% cychwynnol ar gyfer talentau cynhyrchu yn ystyried y ffaith bod cyfran sylweddol o'r talentau cynhyrchu profiadol wedi'u lleoli o fewn yr M25, ac y gallai gymryd amser i addasu'r sefyllfa honno. "
- 2.18 Mae'r Canllawiau'n esbonio mai dim ond rhaglenni a ddarlledir am y tro cyntaf sy'n gallu cael eu cynnwys yn y cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol. Mae'n nodi hefyd nad yw rhaglenni newyddion yn cael eu cynnwys yn y cyfrifiad ar gyfer cwotâu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gan ein bod yn derbyn nad yw hi'n ymarferol disgwyl i weithgareddau newyddion rhwydwaith gael eu lleoli y tu allan i Lundain.

Rhaglenni rhanbarthol

- 2.19 Mae ein Canllawiau'n nodi mai'r hyn sy'n gwneud rhaglenni unigol yn wahanol i wasanaethau rhanbarthau eraill a'r rhwydweithiau fydd un o'r prif ystyriaethau wrth benderfynu ar hyn sy'n gwneud rhaglenni'n rhanbarthol. Yn benodol, dylai rhaglenni rhanbarthol:
- a) "ddelio â materion sydd o ddiddordeb penodol i'r rhanbarth, ac sydd o lai o ddiddordeb mewn llefydd eraill (e.e. buddiannau, pryderon a digwyddiadau rhanbarthol); ac*
 - b) fod wedi'u lleoli yn amlwg yn y rhanbarth a/neu gynnwys pobl sy'n gyfarwydd i drigolion y rhanbarth neu sydd â chysylltiadau agos â'r rhanbarth."*¹⁹
- 2.20 Mae'r gofynion hyn hefyd yn ceisio helpu i gryfhau'r sector cynhyrchu teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ond mae elfen allbwn cynnwys iddyn nhw hefyd, gan fod yn rhaid iddyn nhw sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu gweld rhaglenni sy'n berthnasol iddyn nhw ac i'w cymunedau lleol.

¹⁹ Y Canllawiau, paragraff 14.

Cydymffurfio

Adrodd yn ôl a chyhoeddiadau

- 2.21 Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflwyno data i Ofcom bob blwyddyn i ddweud sut maen nhw wedi perfformio o ran bodloni eu dyletswyddau rhaglenni rhanbarthol a chynrychiadau rhanbarthol. Ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol, rydym ni'n gofyn i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyflwyno gwybodaeth sy'n ymwneud ag oriau, gwariant, teitl rhaglenni, cynhyrchwyr, a pha rai o'r tri maen prawf gafodd eu bodloni. Bydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflwyno rhagor o ddata am genre'r rhaglen, nifer y penodau, ac amser darlledu at ddibenion monitro ehangach Ofcom.
- 2.22 Bob blwyddyn, byddwn yn cyhoeddi data²⁰ sy'n dangos sut mae'r darlledwyr yn dweud eu bod wedi perfformio o ran cyflawni eu cwotâu i gyd. Ar ben hynny, ers 2010, rydym ni hefyd wedi cyhoeddi'r 'Gofrestr o deitlau rhaglenni sydd wedi'u gwneud y tu allan i Lundain' ('y Gofrestr').²¹ Mae hyn yn rhestru'r holl raglenni rhwydwaith y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dweud eu bod wedi'u gwneud y tu allan i Lundain mewn blwyddyn benodol, ac a gafodd eu cynnwys yn eu cwotâu ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol. Mae'n cynnwys y meini prawf mae'r cynrychiadau wedi'u bodloni, y cynhyrchydd, a'r wlad neu'r isranbarth mae'r cynrychiadau wedi cael eu neilltuo iddyn nhw.

Gorfodi

- 2.23 Nid yw prosesau Ofcom ar gyfer delio â chwynion am gynrychiadau rhanbarthol wedi'u cynnwys yn y Canllawiau ar hyn o bryd. Ond, pe byddem ni'n gweld bod deiliad trwydded wedi torri amodau ei drwydded sy'n ymwneud â chynrychiadau rhanbarthol a/neu (os yw'n berthnasol) rhaglenni rhanbarthol, gallai Ofcom ystyried gosod sancsiynau arno, gan gynnwys rhoi cosb ariannol.

Yr adolygiad

- 2.24 Fe wnaethom gyhoeddi ein bwriad i adolygu'r Canllawiau yn ein hymgyngoriad ar Drwydded Weithredu'r BBC ym mis Mawrth 2017.²²
- 2.25 Yn wreiddiol, fe wnaethom ni osod cwmpas yr adolygiad hwn yn ein Cais am Dystiolaeth a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018. Bydd yn canolbwyntio ar ba mor effeithiol yw'r Canllawiau, a'r trefniadau cydymffurfio ac adrodd cysylltiedig. Rydym ni wedi edrych ar berfformiad diweddar y sector cynhyrchu rhanbarthol; y broses gynhyrchu; sut mae'r Canllawiau'n cael eu rhoi ar waith yn ymarferol; ac a ydyn nhw'n dal yn briodol i'r sector cynhyrchu ar ei ffurf bresennol ac yn y dyfodol. Nid yw'n adolygiad llawn o'r sector cynhyrchu yn y DU. Nid yw'r adolygiad yn ffordd ychwaith i ni geisio: newid ein sefyllfa fel sydd wedi'i nodi uchod ynghylch rhaglenni a ddarlledir am y tro cyntaf a rhaglenni

²⁰ [Yr Adroddiad Cydymffurfiad Blynnyddol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, Ofcom 2018.](#)

²¹ [Cofrestr Ofcom o deitlau rhaglenni wedi'u gwneud y tu allan i Lundain, 2017.](#)

²² [Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus: Ymgynghoriad, 2017](#), tudalen 41.

newyddion; gwneud newidiadau i lefelau cwtâu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, na delio â materion sy'n ymwneud â sut mae'r gwledydd a'r rhanbarthau'n cael eu cynrychioli a'u portreadu ar y teledu.

- 2.26 Roedd ein Cais am Dystiolaeth yn amlinellu ein rhesymeg dros yr adolygiad hefyd a'r hyn roeddem ni wedi'i glywed yn y cychwyn wrth gysylltu yn gynharach â rhanddeiliaid ledled y DU.²³ Cawsom ni 28 ymateb i'r Cais am Dystiolaeth, ac maen nhw wedi cyfrannu at ein dealltwriaeth ni o ddeinameg y sector cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, a sut mae'r Canllawiau'n cael eu rhoi ar waith yn ymarferol.²⁴
- 2.27 Ar ben hynny, fe wnaethom gomisiynu gwaith ymgynghori i ddeall yn well sut mae'r sector cynhyrchu yn perfformio yn y gwledydd a'r rhanbarthau a sut mae wedi newid dros amser. Rydym wedi cyhoeddi adroddiad yr ymgynghorydd ar ein gwefan.²⁵ Mae'r gwaith hwn, ochr yn ochr â'n dadansoddiad mewnol o ddata blynyddol a gyflwynir i Ofcom, gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, wedi rhoi darlun cyffredinol i ni o'r farchnad ar hyn o bryd. Mae hyn yn cael ei grynhoi yn Adran 3.
- 2.28 Hefyd, rydym ni wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ers i'r Cais am Dystiolaeth ddod i ben ym mis Mai drwy gyfarfodydd ad-hoc, a rhagor o weithdai yn Llundain, Manceinion a Chaeredin gyda chynhyrchwyr, gweithwyr llawrydd, grwpiau diwydiant a darlledwyr. Yn y cyfarfodydd hyn, roeddem ni'n edrych yn fanylach ar rai o'r materion yn ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth.

Yr ymgynghoriad hwn

- 2.29 Rydym ni wedi defnyddio'r wybodaeth gafodd ei chasglu gennym yn ystod cyfnod yr adolygiad hyd yma i lywio ein hasesiad o'r Canllawiau presennol ac i ddatblygu cynigion ar gyfer newidiadau i'r Canllawiau sy'n angenrheidiol yn ein barn ni.
- 2.30 Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion ein cynigion at ddiben ymgynghori. Mae hefyd yn gosod y newidiadau rydym ni'n bwriadu eu gwneud i'n prosesau gorfodi a chydymffurfio. Nid oes yn rhaid i ni ymgynghori ynghylch ein prosesau mewnol ond byddem ni'n dal yn croesawu sylwadau gan rhanddeiliaid am hyn.
- 2.31 Y dyddiad olaf ar gyfer ymateb yw 27 Chwefror 2019. Rydym ni'n bwriadu cyhoeddi Datganiad sy'n nodi ein penderfyniadau yn ystod gwanwyn 2019.

Asesiad o'r effaith

- 2.32 Mae cynnal asesiadau o'r effaith, yn unol â diffiniad 7 o'r Ddeddf, yn ffordd werthfawr o asesu'r opsiynau ar gyfer rheoleiddio a dangos pam mae'r opsiwn arfaethedig yn cael ei

²³ [Cais am Dystiolaeth](#).

²⁴ Mae'r ymatebion wedi'u cyhoeddi ar gael ar wefan Ofcom [yma](#).

²⁵ [Oliver & Ohlbaum – Regionality trends within the UK production sector](#).

ffafrio. Mae Ofcom hefyd wedi cyhoeddi dogfennau am ei ddull o gynnal asesiadau o'r effaith.²⁶

- 2.33 Mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn (gan gynnwys yr atodiadau) yn darparu ein hasesiadau o effaith ein cynigion ar randdeiliaid ac felly'n cael ei ystyried yn asesiad o effaith ein newidiadau arfaethedig ar y Canllawiau a'r drefn yn gyffredinol

Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

- 2.34 Rydym ni'n asesu effaith bosib ein holl swyddogaethau, polisïau, prosiectau ac arferion ar y grwpiau cydraddoldeb canlynol: oed, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol. Gelwir hwn yn asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd yn ein helpu i sicrhau ein bod yn cyflawni ein prif ddyletswydd o hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hunaniaeth.
- 2.35 Nid yw'n amlwg i ni y bydd canlyniad ein hadolygiad o'r Canllawiau yn debygol o gael unrhyw effaith benodol ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Yn fwy cyffredinol, nid ydym yn rhagweld y bydd effaith unrhyw ganlyniad yn niweidio unrhyw grŵp o gymdeithas. Nid ydym ychwaith yn ystyried ei bod yn angenrheidiol cynnal asesiadau effaith ar wahân mewn perthynas â chydraddoldeb y rhywiau neu hil neu gynlluniau cydraddoldeb o dan Gynlluniau Cydraddoldeb Anabledd Gogledd Iwerddon.

²⁶ [Better Policy Making: Ofcom's approach to Impact Assessments, July 2005.](#)

3. Newidiadau yn y maes cynhyrchu ar gyfer teledu

Cyflwyniad

- 3.1 Yn yr adran hon, rydym yn dechrau drwy edrych ar y maes cynhyrchu ar gyfer teledu drwy'r DU gyfan cyn darparu dadansoddiad mwy manwl o gynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gan ganolbwyntio'n benodol ar gynyrchiadau sy'n cyfrif at y cwotâu cynhyrchu rhanbarthol.
- 3.2 Er mwyn bod yn eglur ac yn syml, yn yr adran rydym wedi dewis cyfeirio at "*gynyrchiadau rhanbarthol*" sy'n cyfrannu at y cwotâu cynhyrchu rhanbarthol (gan gynnwys cwotâu gwledydd y BBC a chwotâu Y tu allan i Lundain Channel 4)²⁷, fel cynyrchiadau sydd wedi'u gwneud y tu allan i Lundain (MOL) h.y. "cynyrchiadau MOL", "oriau MOL", "cwotâu MOL". Rydym hefyd yn gwahaniaethu rhwng 'cynhyrchwyr mewnol', sef canghennau cynhyrchu mewnol y BBC, ITV a Channel 5²⁸ a 'cynhyrchwyr allanol', sy'n cynnwys cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n gymwys²⁹ a ddim yn gymwys³⁰.

Y sector cynhyrchu yn y DU ar gyfer teledu

- 3.3 Mae cryn ddatblygiadau wedi bod yn y diwydiant teledu ers lansio'r Canllawiau yn 2004. Roedd y Ddeddf, ac yn arbennig cyflwyno'r codau ymarfer wrth gomisiynu, yn rhoi cyfle i gwmnïau cynhyrchu reoli a manteisio'n well ar eiddo deallusol yn eu rhaglenni. Dros amser, roedd hyn yn gadael i gwmnïau newydd ymuno â'r farchnad ac adeiladu busnesau mwy cynaliadwy nag o'r blaen, gan ddarparu rhaglenni yn y DU ac ar draws y byd yn fwyfwy hefyd. Roedd cynhyrchwyr yn gallu elwa hefyd wrth i Ffenestr Cystadleuaeth Greadigol y BBC gael ei chyflwyno yn 2007³¹ yn ogystal â sefydlu'r drefn rhyddhad treth ar gyfer y diwydiant creadigol yn 2012.
- 3.4 Gyda llwyddiant masnachol a thwf cyflym y sector cynhyrchu yn y DU ers 2003, gwelwyd cwmnïau'n cyfuno a sawl cwmni annibynnol mawr yn cael creu. Ers hynny, mae sawl un o'r rhain wedi cael eu prynu gan gwmnïau cyfryngau mawr byd-eang.
- 3.5 Ar ben hynny, mae'r canlynol wedi effeithio ar gynyrchiadau rhanbarthol hefyd: newidiadau i drefn cwota'r gwledydd a'r rhanbarthau; penderfyniad y BBC i symud sawl

²⁷ Ewch i Ffigur 3 yn Adran 2.

²⁸ Mae statws Channel 4 fel darlledwr sy'n cyhoeddi yn ei rwystro rhag cynhyrchu cynnwys ei hun.

²⁹ Cwmnïau cynhyrchu annibynnol heb fod ynghlwm wrth ddarlledwr yn y DU drwy gydberchnogaeth arwyddocaol. Mae Gorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 1991 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi'r canlynol am gynhyrchydd annibynnol: (i) nid yw wedi'i gyflogi gan ddarlledwr; (ii) nid oes ganddo gyfranddaliad sy'n fwy na 25% mewn darlledwr yn y DU; neu (iii) nid oes gan yr un darlledwr yn y DU gyfranddaliad sy'n fwy na 25% neu fod gan unrhyw ddau neu ragor o ddarlledwyr yn y DU gyfranddaliad o fwy na 50% gyda'i gilydd.

³⁰ Cwmnïau cynhyrchu annibynnol a oedd yn arfer bod yn gymwys lle roedd gan grŵp sy'n berchen ar ddarlledwr yn y DU gyfranddaliad sy'n fwy na 25%.

³¹ A oedd yn gosod 25% o gomisiynau rhaglenni'r BBC o'r neilltu er mwyn i gwmnïau cynhyrchu allanol a changhennau mewnol y BBC gystadlu drostynt.

adran i Salford, a gafodd ei gwblhau yn 2012; a'r datblygiad dilynol yn y Ddinas Cyfryngau yn Salford i gynnig cartref i ITV ymhlith eraill.

- 3.6 Mae rhagor o newidiadau pwysig ar y ffordd. Bydd cyhoeddiad *4 All the UK* Channel 4 y bydd yn agor pencadlys rhanbarthol newydd yn Leeds a dwy ganolfan greadigol arall yn Glasgow ac ym Mryste, penderfyniad UKTV i agor swyddfa ranbarthol newydd yn Leeds, a lansio Sianel BBC Scotland, sydd i fod i ddigwydd yn y 12 mis nesaf, yn arwain at newid yn strwythur y sector cynhyrchu rhanbarthol. Bydd rhagor o gyfleoedd yn cael eu creu hefyd drwy amrywiaeth o gynlluniau eraill, gan gynnwys: Cronfa Cynnwys Darlledu Creative Scotland sy'n gronfa newydd werth £3m i roi hwb i gynhyrchu ar gyfer y teledu yn y wlad, cynllun Canolfan Rhagoriaeth Creative Skillset sydd wedi'i lunio i greu cronfa dalent ar gyfer cynhyrchu y tu allan i Lundain, a chyfleuster ôl-gynhyrchu newydd wedi'i agor yn ddiweddar gan The Farm ym Manceinion, y ganolfan ôl-gynhyrchu rhanbarthol mwyaf yn y DU hyd yma.
- 3.7 Mae'r ymatebion i'n Cais am Dystiolaeth yn dangos hefyd bod rhai'n pryderu am yr effaith ansicr y gallai Brexit ei chael ar y sector.

Maes cynhyrchu ar gyfer teledu yn y DU

- 3.8 Daw gwariant ar gynhyrchu ar gyfer teledu yn y DU o bedair ffynhonnell fel arfer: y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, nifer o sianeli masnachol yn y DU³², darlledwyr rhyngwladol, ac – i raddau llai – gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio³³.
- 3.9 Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yw'r buddsoddwyr mwyaf ym maes cynhyrchu ar gyfer y teledu yn y DU, gan gyfrif am o leiaf ddwy ran o dair o'r gwariant ar gynnwys newydd yn y DU.³⁴ Fodd bynnag, yn 2017, gwelwyd gostyngiad yng ngwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni gwreiddiol sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf yn y DU i £2.7bn mewn termau real, y lefel isaf y degawd hwn (gostyngiad o £699m ers 2008).³⁵ Ar ddrama y gwelwyd y gostyngiad mwyaf o unrhyw genre o ran gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, o un flwyddyn i'r llall, yn 2017. Rhaglenni plant, comedi a chwaraeon yw'r genres eraill a welodd effaith sylweddol yn sgil y gostyngiad yng ngwariant darlledwyr gwasanaethu cyhoeddus.³⁶
- 3.10 Ond, mae gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar rai genres wedi cynyddu. Mae ein dadansoddiad a gafodd ei gomisiynu yn awgrymu bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel pe baent, ar y cyfan, yn canolbwyntio mwy ar raglenni heb sgript gan gynnwys rhaglenni adloniant a ffeithiol.³⁷

³² Mae'r sector sawl sianel yn cynnwys pob sianel deledu, ar wahân i brif sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'u sianeli portffolio, sy'n darlledu i'r DU ac yn cael eu trwyddedu gan Ofcom.

³³ Gwasanaethau fideo ar alw drwy danysgrifio y telir amdanynt fel Netflix ac Amazon Prime Video.

³⁴ [Adroddiad Oliver ac Ohlbaum](#), sleid 8.

³⁵ Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni rhanbarthol heb fod ar y rhwydwaith: [Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2018](#).

³⁶ Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2018.

³⁷ Adroddiad O ac O, sleid 11.

- 3.11 Yn sgil twf cyllid trydydd parti, gan gynnwys trefniadau cyd-gynhyrchu (cynyrchiadau sy'n cael eu hariannu ar y cyd gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darlledwyr neu wasanaethau ffrydio eraill), cyllid diffyg gan gwmnïau cynhyrchu a chredydau treth, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi llwyddo i gynhyrchu cynnwys sy'n costio mwy na'r hyn y byddent wedi gallu ei fforddio fel arall. Mae hyn wedi cydbwysu'n rhannol y dirywiad mewn termau real yn y gwariant cyffredinol ar gynnwys newydd ar gyfer sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn enwedig wrth eithrio digwyddiadau chwaraeon cylchol.³⁸
- 3.12 I'r gwrthwyneb, mae buddsoddwyr llai mewn cynnwys yn y DU wedi cynyddu eu gwariant yn y blynyddoedd diweddar. Yn ôl y sector cynhyrchu annibynnol, mae ei refeniw o gomisiynau gan sawl sianel wedi dyblu'n fras ers 2010³⁹, ac fe lwyddodd prif gomisiynau rhyngwladol i roi refeniw o dros £0.5 biliwn i'r sector am y tro cyntaf yn 2017.⁴⁰ Mae'r comisiynau hyn wedi dod gan ddarlledwyr mawr tramor a gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio yn fyd-eang, fel Amazon a Netflix, er mae darparwyr llai yn comisiynu cynnwys yn y DU erbyn hyn hefyd.⁴¹
- 3.13 Mae Netflix ac Amazon yn dal i fuddsoddi'n sylweddol mewn cynnwys gwreiddiol ar draws y byd⁴² ond ar hyn o bryd dim ond 9% o oriau catalog Netflix ac 8% o oriau Amazon sydd â chynnwys gwreiddiol o'r DU, sy'n cynnwys rhaglenni wedi'u prynu yn y DU.⁴³ Mae'r ddau gwmni wedi creu cyfleoedd ar gyfer partneriaethau cyd-gynhyrchu ar gyfer hawliau darlledu llwyr neu eilaidd yn y DU.⁴⁴ Roedd comisiynau o wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio yn fyd-eang yn £150m o refeniw prif hawliau rhyngwladol yn y DU yn 2017, wedi cynyddu o 125m yn 2016.⁴⁵
- 3.14 Mae'r system rhyddhad treth yn y DU ar gyfer rhaglenni teledu o safon uchel⁴⁶ yn golygu bod cynyrchiadau sgript yn y DU yn fwy atyniadol i gwmnïau rhyngwladol ac wedi denu mwy o fuddsoddiad dramor mewn cynnwys sgript premiwm arall a chynyrchiadau drama yn y DU. Yn 2017, gwelwyd 9% o gynnydd i £938 miliwn yn lefel y gwariant gan ffynonellau rhyngwladol a mewnfuddsoddiadau mewn rhaglenni o safon uchel sy'n gymwys i gael rhyddhad treth, sy'n cynnwys rhai o'r cyd-gynyrchiadau gyda'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.⁴⁷

³⁸ Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2018.

³⁹ [Cyfrifiad 2018 Pact ynghylch Cynyrchiadau Teledu yn y DU gan O and O](#). Mae gwerth y comisiynau gan y sector aml-sianel wedi tyfu o £130 miliwn yn 2010 i £259 miliwn yn 2017.

⁴⁰ Cyfrifiad Pact 2018.

⁴¹ Megis Acorn TV (gweler erthygl [yma](#)).

⁴² Yn 2018 roedd Netflix yn bwriadu gwario £5bn ar gynnwys ar draws y byd, ac mae'r amcangyfrifon yn awgrymu y bydd Amazon Prime Video wedi gwario oddeutu £3bn ar gynnwys (Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2018).

⁴³ Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2018, ffigurau mis Mawrth 2018.

⁴⁴ Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2018. Netflix yw cwsmer mwyaf BBC Worldwide (darllenwch erthygl [yma](#)) a dyma gwsmer mwyaf ITV ar gyfer ei gangen adloniant byd-eang (darllenwch [adroddiad blynyddol ITV 2017](#)).

⁴⁵ Cyfrifiad 2018 Pact.

⁴⁶ Mae rhyddhad treth i raglenni 'safon uchel' ar gyfer prosiectau teledu â sgript sydd â gwariant craidd sylfaenol o £1 miliwn fesul awr darlledu, gall y cwmni cynhyrchu teledu hawlio ad-daliad ariannol taladwy o hyd at 25% ar wariant cymwys yn y DU (mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#)).

⁴⁷ Adroddiad O ac O, sleid 12.

- 3.15 Mae Llundain yn dal i wneud cyfraniad pwysig i'r sector cynhyrchu ar gyfer teledu yn y DU, oddeutu 60% (£2bn) o'r holl wariant ar gynhyrchu ar gyfer teledu yn y DU yn 2017.⁴⁸
- 3.16 Wrth ddadansoddi hyn fesul elfen, mae'n bosib gweld bod bron i 90% o reffeniw cwmnïau cynhyrchu allanol ar gyfer y teledu ar draws y DU yn cael ei greu gan gynhyrchwyr sydd â phencadlys yn Llundain, a bod gan lawer o'r cwmnïau hyn swyddfeydd eraill hefyd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.⁴⁹
- 3.17 Mae cyfanswm reffeniw cwmnïau cynhyrchu allanol y tu allan i Lundain yn tyfu ar y cyfan, ond daw cyfran lai o gwmnïau lleol⁵⁰ y tu allan i Lundain; mae hyn, yn rhannol, yn symptom o'r cyfuno yn y sector o ran grwpiau cynhyrchu mawr a pherchnogaeth darlledwyr sy'n golygu eu bod yn gwmnïau annibynnol anghymwys o ran cwotâu cynhyrchu annibynnol ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Roedd yr Arolwg diweddaraf o Gwmnïau Darlledu Annibynnol yn datgan bod 50% o gwmnïau rhanbarthol yn gynhyrchwyr annibynnol anghymwys erbyn hyn, wedi cynyddu o 0% yn 2014.

Cynhyrchu ar gyfer y teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau

- 3.18 Mae'r ymgynghorwyr cyfryngau, Oliver ac Ohlbaum (O&O) yn amcangyfrif bod oddeutu £1.4bn wedi'i wario ar gynrychiadau ar gyfer y teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn 2017, sydd oddeutu 40% o gyfanswm y gwariant yn y DU.⁵¹
- 3.19 Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n gwneud y cyfraniad ariannol mwyaf i gynrychiadau ar gyfer y teledu yn y gwledydd a'r rhanbarthau (oddeutu £1.1bn yn 2017), gan gomisiynu cynrychiadau MOL ar gyfer teledu rhwydwaith ac yn achos rhaglenni rhanbarthol heb fod ar y rhwydwaith ar gyfer Channel 3 a'r BBC, ac sy'n cael eu cynnwys yn y cwotâu trwydded perthnasol. O ran maint, yn 2017 darlledodd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus 6,453 o oriau o raglenni MOL a gafodd eu dangos am y tro cyntaf (sy'n cyfateb i 49% o'r holl oriau rhwydwaith cymwys ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus), ac roedd y BBC yn cyfrannu at oddeutu hanner o'r oriau hyn. Daw gweddill y comisiynau (£0.3bn) gan sianeli portffolio darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol a darlledwyr eraill yn y DU.⁵²

Oriau a gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni wedi'u gwneud y tu allan i Lundain (MOL)

- 3.24 Mae cyfran gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni MOL wedi cynyddu yn ystod y degawd diwethaf o 39% yn 2008 i 43% yn 2017. Mae cyfanswm gwariant ar gynrychiadau MOL gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi gostwng mewn termau real mewn gwirionedd dros y blynyddoedd diwethaf (gostyngiad o 8.8% ers 2012), ond

⁴⁸ Adroddiad O ac O, sleid 15.

⁴⁹ Adroddiad O ac O, sleid 19.

⁵⁰ Cwmnïau cynhyrchu â phencadlys yn y DU, y tu allan i'r M25.


⁵¹ Adroddiad O ac O, sleid 15.

⁵² Nid yw ein dadansoddiad o'r comisiynau ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn cynnwys gwariant darlledwyr rhyngwladol. Rydym yn ymwybodol bod modd priodoli hyn i'r gwledydd a'r rhanbarthau, fel gwariant ar Game of Thrones HBO, a gafodd ei gynhyrchu'n rhannol yng Ngogledd Iwerddon.

roedd gwariant ar gynrychiadau rhwydwaith wedi gostwng yn gyflymach yn gyffredinol (i lawr 9.9%) dros yr un cyfnod. Mae newidiadau i gwotâu MOL a strategaethau comisiynu'r BBC a Channel 4 wedi dylanwadu ar y darlun hwn hefyd.

- 3.25 BBC yw comisiynydd mwyaf cynrychiadau MOL. Mae ei ddyletswyddau cwota yn fwy na rhai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill ac mae'r rhain yn berthnasol i bob un o'i sianeli teledu, ond mae gan bob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol ddyletswyddau cwota is o ran rhaglenni MOL ar gyfer un gwasanaeth (fel sydd wedi'i nodi yn Ffigur 3 yn gynharach).
- 3.26 Ers 2008 mae'r BBC wedi cynyddu ei allbwn cynhyrchu MOL o 35% ar gyfer gwariant a 34% ar gyfer oriau i 51% a 60%, yn y drefn honno, yn 2017. Mae cyfran oriau a gwariant Channel 4 ar raglenni a gynhyrchir y tu allan i'r M25 hefyd wedi cynyddu, o 32% a 41% yn 2008 i 45% a 57% yn y drefn honno yn 2017 (gweler Ffigur 4).

Ffigur 4: Cwotâu a pherfformiad BBC a Channel 4: 2006 i 2017




Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr

- 3.27 Mae effaith gofynion rheoleiddio yn amlwg o'r patrymau yn lleoliad cynrychiadau MOL gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r BBC a Channel 4 wedi cynyddu faint o raglenni sy'n cael eu cynhyrchu yng ngwledydd y DU. Mae cytundeb gwirfoddol 2008 y lluniodd y BBC ag Ymddiriedolaeth y BBC wedi sbarduno hyn, i gynyddu ei wariant ar rwydwaith y tu allan i Lundain i 50% erbyn 2016 a bod 17% o hyn i ddod o Gymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, gyda tharged dros dro o 12% erbyn 2012. Yr hyn sydd wedi sbarduno'r cynnydd yng nghynrychiadau Channel 4 sydd wedi'u gwneud y tu allan i Lundain yw cyflwyno cwota ar gyfer y tu allan i Lundain, wedi'i osod ar 3% yn 2010, ac yn cynyddu i 9% o 2020

ymlaen.⁵³ Mae'r cwtâu newydd ar gyfer y gwledydd sydd wedi'u gosod yn Nhrwydded Weithredu'r BBC⁵⁴ a chynllun 4 *All the UK* Channel 4 yn golygu ei bod yn fwy tebygol y byddwn yn gweld y duedd hon o fwy o gomisiynau gan y gwledydd yn parhau.

- 3.28 Yn groes i hynny, mae ITV yn gwario llai ar gynrychiadau wedi'u gwneud y tu allan i Lundain nag yr oedden nhw ddegawd yn ôl (gweler Ffigur 5). Mae hyn yn adlewyrchu'r gostyngiad a fu yn 2009 yn ei gwota MOL o 50% i 35%.⁵⁵ Nid yw cwota Channel 5 o 10% wedi newid dim, ond mae ei wariant wedi gostwng yn sylweddol o 35% yn 2008 ac erbyn hyn mae'n nes at ei ofynion cwota sylfaenol. Nid oes gan ITV na Channel 5 gwtâu penodol ar gyfer y gwledydd, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu o ran lle maen nhw'n comisiynu cynrychiadau.

Ffigur 5: Cwtâu a pherfformiad ITV a Channel 5: 2006 i 2017



Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr

- 3.29 Mae tueddiadau yn y genres a gynhyrchir yn y gwledydd a'r rhanbarthau'n adlewyrchu'r tueddiadau a welir ledled y DU, gyda llai o wariant cynrychiadau MOL gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni plant, drama a chwaraeon, a mwy o wariant ar genres ffeithiol heb sgript. Er gwaethaf y gostyngiad, mae drama yn parhau i fod yn o un prif genres sydd wedi'u gwneud y tu allan i Lundain gyda theitlau fel *Doctor Who* (Cymru), a *Poldark* (sawl rhanbarth) yn cael eu cynhyrchu gan y BBC. Yn dilyn hyn wedyn mae

⁵³ Fe wnaethom gyhoeddi y byddem yn cynyddu'r cwota i 9% yn 2014 fel rhan o broses aildrwyddedu Channel 4.

⁵⁴ Daeth i rym ar 1 Ion 2018: [Trwydded Weithredu'r BBC](#).

⁵⁵ Roedd hyn yn deillio o ail adolygiad Ofcom ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r bwriad oedd cadw costau a manteision trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus ITV yn gytbwys.

gwariant ar operâu sebon, sy'n cynnwys cyfresi poblogaidd sy'n dychwelyd fel *Casualty* (BBC, Cymru), *Coronation Street* ac *Emmerdale* (ITV, Gogledd Lloegr). O ran oriau, y genre mwyaf a gynhyrchir y tu allan i'r M25 yw rhaglenni ffeithiol. Mae hyn yn cynnwys *Nightscreen*⁵⁶ (ITV, Canolbarth a Dwyrain Lloegr), a oedd yn fwy na ddwywaith oriau unrhyw gynhyrchiad arall sydd wedi'i wneud y tu allan i Lundain yn 2017, *The Jeremy Kyle Show* (ITV, Gogledd Lloegr) a *Bargain Hunt* (BBC, Cymru), wedyn chwaraeon, sy'n cynnwys *Wimbledon* a *Match Of The Day* (y ddwy gan BBC, Gogledd Lloegr).

- 3.30 O ran meini prawf y Canllawiau y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dewis eu bodloni, fel eu bod yn gynyrchiadau MOL cymwys, mae mwyafrif helaeth y teitlau'n bodloni'r tri maen prawf ar gyfer hyn. Mae'r tabl canlynol yn nodi sut mae modd cyfuno'r meini prawf a chyfraniadau oriau a gwariant y teitlau sy'n gymwys o dan bob cyfuniad ar gyfer cynyrchiadau MOL yn 2017.

Cynyrchiadau a lwyddodd i fodloni	gwariant	oriau
Y tri maen prawf	76%	81%
Cyllideb a chanolfan sylweddol	4%	2%
Talent a chanolfan sylweddol	8%	8%
Cyllideb a thalent	12%	9%


Cwmnïau cynhyrchu gweithredol

- 3.31 Gwelwyd gostyngiad yn nifer y cwmnïau cynhyrchu lleol gweithredol⁵⁷ yn y gwledydd a'r rhanbarthau o 132 yn 2008 i 105 yn 2014, yn bennaf oherwydd cyfuno o fewn y sector. Ers hynny, mae'r niferoedd wedi dechrau cynyddu ac roedd 120 o gwmnïau gweithredol yn cynhyrchu ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn 2017. Mae'r twf wedi bod yn arbennig o amlwg yng Nghymru a'r Alban (gweler Ffigur 6 isod, a'r fersiwn ryngweithiol yn Atodiad 5). Mae'n bur debyg mai gweithgarwch cynyddol y BBC a Channel 4 y tu allan i Loegr sydd wedi sbarduno hyn. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y twf hwn wedi digwydd ar draul rhai ardaloedd, gan gynnwys Canol Canolbarth Lloegr ac Anglia, lle mae nifer y cynhyrchwyr gweithredol wedi gostwng. Mae hyn yn cyd-fynd â gostyngiad sylweddol yn y gwariant ar gynyrchiadau sydd wedi'u gwneud y tu allan i Lundain yng Nghanolbarth a Dwyrain Lloegr yn ystod y degawd diwethaf. Mae'n bosib bod y cyfuno hefyd wedi cyfrannu at leihau nifer y cwmnïau cynhyrchu mewn rhai ardaloedd.

Ffigur 6 – Nifer y cwmnïau cynhyrchu yn ôl ardal

⁵⁶ Mae *Nightscreen* gan ITV yn cael ei darlledu drwy'r nos ac mae'n cynnwys dilyniant o dudalennau wedi'u hanimeiddio sy'n hyrwyddo rhaglenni ITV sydd ar y gweill.

⁵⁷ Mae cynhyrchydd gweithredol yn golygu rhywun sydd wedi cynhyrchu unrhyw gynnwys gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf ar bum prif sianel y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y flwyddyn galendr honno. Mae hyn yn cynnwys cwmnïau sydd wedi cynhyrchu rhaglenni rhanbarthol heb fod ar y rhwydwaith a gomisiynwyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn ogystal â chynyrchiadau rhwydwaith nad oeddent yn gymwys i fod yn gynyrchiadau MOL. Nid yw cynhyrchwyr gweithredol yn cynnwys canghennau cynhyrchu mewnol y BBC, ITV a Channel 5.



Ffynhonnell: O&O / Ofcom

- 3.32 Mae Llundain hefyd yn parhau i chwarae rôl allweddol yng nghynyrchiadau rhanbarthol. Yn 2017, roedd dros hanner yr oriau MOL gan gynhyrchwyr allanol. Mae data O ac O yn dangos mai cwmnïau allanol â phencadlys yn Llundain oedd wedi darparu dros draean o oriau MOL,⁵⁸ a bod 79% o'r oriau gan gwmnïau sydd ag o leiaf un swyddfa arall (ac yn gymwys felly oherwydd bod ganddynt ganolfan sylweddol) yn y gwledydd a'r rhanbarthau, yn bennaf yn Ne Lloegr neu'r Alban. Roedd cyfran lawer llai o'r oriau MOL (8%) wedi'u gwneud gan gynhyrchwyr yn Llundain a oedd heb ganolfan y tu allan i'r M25.

Y sector cynyrchiadau rhanbarthol yn ôl gwlad/isranbarth

- 3.33 Mae'r Canllawiau yn nodi, yn y data a gyflwynir gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i Ofcom, y dylai pob cynhyrchiad rhanbarthol gael ei neilltuo i Gymru, i'r Alban, neu i Ogledd Iwerddon, neu i un o'r tri isranbarth, fel y gwelir yn Ffigur 7 isod.⁵⁹
- 3.34 Mae rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at y ffaith bod y maes cynhyrchu ym mhob gwlad/isranbarth yn amrywio gryn dipyn, er enghraifft mae'r darlun yng Ngogledd Lloegr yn wahanol iawn, yn dibynnu a ydych chi'n edrych ar Ogledd-orllewin neu ar Ogledd-ddwyrain Lloegr. Gan nad oes digon o ddata manwl hyd yma, nid yw'r gwahaniaethau hyn yn amlwg ar hyn o bryd. Dylai ein cynigion ynghylch casglu data helpu i fynd i'r afael â'r bwlch yn y data i ryw raddau (gweler Adran 5).
- 3.35 Mae'n bwysig nodi bod y dadansoddiad isod yn canolbwyntio'n fwrriadol ar effaith dyletswyddau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran cynyrchiadau rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol ar gynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae'r


⁵⁸ Adroddiad O ac O, sleid 57 ac 82.

⁵⁹ Cafodd y chwe ardal y tu allan i Lundain eu mabwysiadu er mwyn i Ofcom allu asesu a yw cyfran briodol o wariant yn cael ei gwario ar gynhyrchu rhaglenni (wedi'u gwneud y tu allan i'r M25) mewn amrywiaeth briodol o ganolfannau cynhyrchu. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn Adran 2. Mae'r isranbarthau'n seiliedig ar ranbarthau swyddfa'r llywodraeth; Yn Lloegr, mae "Gogledd Lloegr" yn cynnwys Swydd Efrog a Humber, Gogledd-orllewin a Gogledd-ddwyrain Lloegr; mae "Canolbarth a Dwyrain Lloegr" yn cynnwys Gorllewin Canolbarth Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr a Dwyrain Lloegr; ac mae "De Lloegr" yn cynnwys De-orllewin a De-ddwyrain Lloegr.

gweithgarwch hwn yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r cynyrchiadau teledu yn rhan fwyaf o ardaloedd y DU, ond nid y cyfan. Er enghraifft, mae Gogledd Iwerddon wedi cael llwyddiant gyda chynyrchiadau rhyngwladol fel Game of Thrones, ac yng Nghymru, mae S4C yn ychwanegol dimensiwn arall i'r sector cynhyrchu yno. Nid yw ein dadansoddiad yn cynnwys cwmnïau cynhyrchu gweithredol sydd wedi'u comisiynu gan S4C. Mewn ymateb i'n Cais am Dystiolaeth, dywedodd Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) fod 31 o gwmnïau comisiwn sydd wedi'u lleoli yng Nghymru wedi darlledu ar S4C yn 2016/17 a 40 yn 2017/2018.

Yr Alban	2008	2013	2017
Gwariant cynhyrchu yn yr Alban			£223 miliwn (£123m Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus MOL, £100m arall)
Rhan o wariant PSB cymwys	2.5%	5.9%	5.6%
Rhan o oriau PSB cymwys	1.6%	8.4%	8.5%
Cyfran o oriau MOL a gynhyrchwyd yn fewnol		15%	11%
PSB gyda'r gyfran mwyaf o oriau MOL		BBC (86%)	BBC (79%)
Nifer o gwmnïau cynhyrchu	8	12	20

Ffigur 7 – isranbarthau'r DU



Yr Alban

- 3.36 Yn ystod y degawd diwethaf, mae sector cynhyrchu'r Alban ar gyfer teledu wedi bod yn un sydd wedi elwa fwyaf o'r cynnydd yng nghwota'r BBC a Channel 4, ac mae wedi tyfu gryn

dipyn o ganlyniad. Gyda'i gilydd, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cynyddu cyfran gwariant ac oriau MOL sy'n cael eu comisiynu yn yr Alban, ac mae nifer gynyddol y cynhyrchwyr gweithredol yno yn adlewyrchu'r duedd hon.⁶⁰ Rhagwelir y bydd twf pellach yn y sector cynhyrchu yn yr Alban hefyd, wedi'i sbarduno gan ymrwymadau gwario diweddar y BBC, Sianel newydd BBC Scotland, cyhoeddiad Channel 4 y bydd un o'i ganolfannau creadigol yn Glasgow a chyhoeddiad diweddar Creative Scotland y bydd cronfa o £3m ar gael ar gyfer cynhyrchu yn yr Alban.

- 3.37 O ran cynyrchiadau wedi'u gwneud y tu allan i Lundain, y BBC hyd yma sydd wedi bod â'r presenoldeb mwyaf yn yr Alban (79% o'r oriau MOL yn 2017), gyda chynyrchiadau ar gyfer Channel 4 yn cymryd bron gweddill yr oriau. Ers 2012, mae Channel 4 wedi dyblu'n fras ei wariant a'i oriau yn yr Alban, i fodloni'r cynnydd yn ei gwotâu ar gyfer cynyrchiadau MOL.
- 3.38 Mae cynyrchiadau MOL yn yr Alban wedi'u comisiynu'n bennaf gan gynhyrchwyr allanol ac yn cynnwys ystod eang o genres. Mae adloniant a chomedi'n gyfran sylweddol o'r oriau (24%) gyda theitlau sy'n dychwelyd fel *Mrs Brown's Boys* (BBC), *Eggheads* (BBC) a *Fifteen to One* (Channel 4); yn ogystal â rhaglenni cyffredinol ffeithiol, gyda *Homes Under the Hammer* (BBC). Mae comisiynau sydd wedi'u neilltuo i'r Alban hefyd yn cynnwys nifer fawr o chwaraeon, wedi'i wneud yn bennaf gan gwmnïau cynhyrchu sydd â phencadlys yn Llundain sydd â chanolfannau yn yr Alban, yn aml yn rhoi sylw i ddigwyddiadau sydd wedi'u cynnal y tu allan i'r Alban. Roedd comisiynau MOL gan gynhyrchwyr â phencadlys lleol yn yr Alban oddeutu 25% o gyfanswm yr oriau MOL ar gyfer yr Alban yn 2017.
- 3.39 Roedd mwyafrif llethol cynyrchiadau MOL y BBC sydd wedi'u neilltuo i'r Alban yn bodloni'r tri maen prawf yn y Canllawiau. Roedd presenoldeb y BBC yno wedi bod o gymorth yn hyn o beth. Roedd oddeutu chwarter cynyrchiadau Channel 4 yn 2017 hefyd yn bodloni'r tri maen prawf. Ond, mae'r darlun wedi amrywio gryn dipyn dros amser gan fod un sioe â nifer fawr yn gallu dylanwadu'n sylweddol ar y ffigurau.

⁶⁰ Daw data ar gyfer pob tabl yn yr adran hon gan O ac O, darlledwyr ac Ofcom. Mae 'gwariant cymwys' yn cyfeirio at wariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni rhwydwaith a ddarlledir am y tro cyntaf, ac nid yw'n cynnwys costau talent ar y sgrin, deunydd o'r archif, hawliau chwaraeon, arian a roddir fel gwobrau mewn cystadlaethau na newyddion. Mae 'oriau cymwys' yn cyfeirio at raglenni rhwydwaith darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ac nid yw'n cynnwys newyddion.

Cymru

3.40 Mae'r sector cynhyrchu yng Nghymru yn unigryw yn y DU, gan fod oddeutu traean o'r gwariant ar raglenni gwreiddiol yng Nghymru ar raglenni yn yr iaith frodorol wedi'u comisiynu gan S4C.⁶¹ Mae cynrychiadau MOL⁶² o Gymru yn gyfran lai na'r Alban o gyfanswm gwariant ac oriau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni MOL, ond mae hyn wedi cynyddu hefyd ers 2008. Mae gostyngiad bach wedi bod yng nghyfran y cyfanswm oriau MOL sydd wedi'u gwneud yng Nghymru ers i hyn gyrraedd uchafbwynt o 2.7% yn 2015. Fel sy'n wir am wledydd eraill, y BBC yw'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus â'r presenoldeb mwyaf yng Nghymru (76% o oriau MOL yn 2017).

3.41 Adloniant ffeithiol yw'r prif genre yng Nghymru, ac yn 34% o oriau MOL yng Nghymru yn 2017, gyda rhaglen *Bargain Hunt* y BBC yn cyfrannu cryn dipyn o oriau sydd wedi'u neilltuo i Gymru, a hynny'n gyson. Symudodd y gwaith o gynhyrchu'r sioe o dde Lloegr i Gymru yn 2015. Mae rhaglenni ffeithiol cyffredinol ac arbenigol gyda'i gilydd yn gyfran sylweddol o oriau MOL yng Nghymru (41%), ac mae dros ddwbl y nifer o raglenni ffeithiol cyffredinol wedi'u gwneud yng Nghymru yn 2017 (72 awr) o'i gymharu â 2016 (31 awr). Mwy o gomisiynau o'r wlad gan Channel 4 sydd wedi sbarduno hyn.

3.42 Operâu sebon a dramâu yw asgwrn cefn y sector cynhyrchu yng Nghymru hefyd gyda phentref drama mewnol y BBC ym Mhorth y Rhath yn gartref i gyfresi sy'n dychwelyd, sef *Casualty*, *Sherlock* a *Doctor Who*. Er bod y ddau genre hyn yn cynrychioli llai nag un rhan o bump o oriau MOL cymwys yng Nghymru, mae eu cost uchel fesul awr yn golygu eu bod yn cyfrannu'n anghymesur i wariant yng Nghymru.

3.43 Mae mwyafrif y cynrychiadau MOL yng Nghymru yn digwydd yn fewnol, ond mae nifer y cwmnïau cynhyrchu allanol gweithredol⁶³ sy'n gwneud rhaglenni tu allan i Lundain yng Nghymru wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar, yn bennaf wrth i Channel 4 gomisiynu mwy o raglenni ffeithiol. Yn 2017 cafodd oddeutu traean o gomisiynau MOL allanol eu gwneud gan gynhyrchwyr lleol, ac roedd y cynrychiadau hynny yn eu tro yn 14% o'r oriau MOL cyffredinol yng Nghymru.

Cymru	2008	2013	2017
Gwariant cynhyrchu yng Nghymru			£174 million (£76m PSB MOL, £98m other)
Rhan o wariant cymwys PSB	1.7%	3.3%	3.4%
Rhan o oriau cymwys PSB	0.9%	1.4%	2.4%
Cyfran o oriau MOL a gynhyrchwyd yn fewnol		56%	60%
PSB gyda'r gyfran fwyaf o oriau MOL		BBC (82%)	BBC (76%)
Nifer o gwmnïau cynhyrchu sy'n weithredol	7	12	13

⁶¹ Adroddiad O ac O, sleid 80.

⁶² Nid yw'n cynnwys cynrychiadau S4C.

⁶³ Nid yw cynhyrchwyr gweithredol (fel sydd wedi'i ddiffinio yn nhroednodyn 57) yng Nghymru yn cynnwys cynhyrchwyr wedi'u comisiynu gan S4C.

- 3.44 Mae presenoldeb mewnol y BBC yng Nghymru yn golygu bod y mwyafrif helaeth o oriau MOL sydd wedi'u neilltuo i Gymru yn bodloni'r tri maen prawf, a dim ond cyfran fechan (oddeutu 5%) oedd ddim yn bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol yn 2017.

Gogledd Iwerddon

- 3.45 Gogledd Iwerddon yw'r lleiaf o blith marchnadoedd cynhyrchu gwledydd y DU. Ers 2010, dim ond unwaith mae ei chyfran MOL wedi bod yn fwy nag 1%. Mae ei chyfran gwariant wedi bod yn isel yn ystod y cyfnod hwn hefyd ond mae wedi bod ychydig dros 1% dros y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi'i sbarduno gan gynrychiadau drama'r BBC fel *Line of Duty* a *The Fall*.

- 3.46 Y BBC sy'n comisiynu ac yn cynhyrchu'r mwyaf o oriau MOL (84% yn 2017) yng Ngogledd Iwerddon, a Channel 4 sy'n gyfrifol am y gweddill bron (14%). Ac eithrio'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, mae *Game of Thrones* gan HBO a'r sector animeiddio (sy'n dibynnu mwy ar gomisiynau rhyngwladol na darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus), wedi bod yn gwneud cyfraniadau sylweddol i'r sector cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon.

Gogledd Iwerddon	2008	2013	2017
Gwariant cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon			£65 million (£26m PSB MOL, £39m other)
Rhan o wariant cymwys PSB	0.3%	1.1%	1.2%
Rhan o oriau cymwys PSB	0.1%	0.9%	0.9%
Cyfran o oriau MOL a gynhyrchwyd yn fewnol		32%	48%
PSB gyda'r gyfran fwyaf o oriau MOL		BBC (85%)	BBC (84%)
Nifer o gwmnïau cynhyrchu sy'n weithredol	5	2	6

- 3.47 Fel sydd i'w weld yn digwydd gyda gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ledled y DU, mae mwy a mwy o gynnwys ffeithiol yn cael ei wneud yng Ngogledd Iwerddon e.e. *Wanted Down Under* gan y BBC. Yn 2017 y genre hwn gyfrannodd fwyaf i oriau MOL yng Ngogledd Iwerddon (67%). Roedd chwaraeon yn arfer bod yn fwy o nodwedd, gyda'r *Moto GP* yn cael ei gynhyrchu gan Century TV nes i'r BBC beidio cael yr hawliau yn 2014. Yn groes i'r tueddiadau ledled y DU, mae gwariant MOL ar raglenni plant wedi cynyddu yng Ngogledd Iwerddon yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

- 3.48 Mae nifer y teitlau MOL sydd wedi'u gwneud yn fewnol ac yn allanol yr un fath bron ar y cyfan, gyda chomisiynu gan Channel 4 yn cydbwysu'r gyfran ychydig yn uwch o gynrychiadau mewnol gan y BBC. Cwmnïau o Lundain gynhyrchodd y dramâu diweddar *Line of Duty* a *The Fall* (y ddwy wedi'i ffilmio yng Ngogledd Iwerddon), sy'n rhaglenni o gryn werth. Sioeau ffeithiol yw mwyafrif yr oriau a gynhyrchir gan gynhyrchwyr lleol Gogledd Iwerddon ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, ac maen nhw'n cynhyrchu sawl teitl adloniant hefyd.⁶⁴

- 3.49 Llwyddodd bron i bob teitl mewnol a gafodd ei neilltuo i Gogledd Iwerddon yn 2017 i fodloni'r tri maen prawf yn y Canllawiau. O ran cynhyrchwyr allanol, mae'r darlun yn wahanol iawn, gyda thros un rhan o dair o'r oriau MOL allanol yn dod gan gynrychiadau

⁶⁴ Adroddiad O ac O, sleid 80.

nad oeddent yn bodloni'r maen prawf canolfan sylweddol – wedi cynyddu o un rhan o bump yn 2016.

Canolbarth a Dwyrain Lloegr

3.50 Canolbarth a Dwyrain Lloegr yw'r ail ardal cynhyrchu leiaf. Mae gwariant MOL wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y degawd diwethaf, ac mae gwariant y BBC yn y rhanbarth wedi gostwng dros hanner ers 2012, pan oedd dramâu poblogaidd fel *Line of Duty* a *Hustle* yn cael eu gwneud yno.

3.51 Mae oriau wedi gostwng hefyd ers 2008. Mae maint y gostyngiad yn cael ei guddio gan *Nightscreen* gan ITV, cynhyrchiad sy'n cynnwys dilyniant o dudalennau wedi'u hanimeiddio sy'n hyrwyddo rhaglenni ITV gan ddefnyddio testun a lluniau llonydd neu waith graffeg rhaglenni. Y teitl hwn sydd wedi cyfrif am y rhan fwyaf o'r oriau yng Nghanolbarth a Dwyrain Lloegr ers sawl blwyddyn. Yn 2017 cyfrannodd at oddeutu 85% o gyfanswm oriau MOL a gynhyrchwyd yn y rhanbarth.

3.52 Mae ystod gyffredinol y genres a gynhyrchir yn y rhanbarth yn fach, wedi'i chyfyngu'n bennaf i raglenni ffeithiol, ychydig bach o chwaraeon, ac un opera sebon sy'n dychwelyd, *Doctors* gan y BBC, sy'n gyfran sylweddol o'r gwariant yn yr ardal.

3.53 Mae nifer y cynhyrchwyr gweithredol yng Nghanolbarth a Dwyrain Lloegr wedi gostwng yn sylweddol ers 2008, o 13 i bedwar. Cynhyrchwyr allanol sy'n gyfrifol am ran helaeth o'r oriau yn y rhanbarth – i bob pwrpas, *Doctors* (BBC) yw'r unig gynhyrchiad mewnol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac nid yw'n bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol. Llwyddodd 82% o oriau MOL cyffredinol sydd wedi'u neilltuo i Ganolbarth a Dwyrain Lloegr i fodloni'r tri maen prawf MOL yn 2017, 92% wrth edrych ar oriau a gynhyrchwyd yn allanol yn unig, er bod maint *Nightscreen* (a oedd yn bodloni'r tri maen prawf) yn ystumio'r ffigurau hyn gryn dipyn.

Gogledd Lloegr	2008	2013	2017
Gwariant cynhyrchu yng Ngogledd Lloegr			£543 million (£437m PSB MOL, £106m other)
Rhan o wariant cymwys PSB	17.4%	19.9%	20.2%
Rhan o oriau cymwys PSB	12.7%	21.1%	19.7%
Cyfran o oriau MOL a gynhyrchwyd yn fewnol		68%	73%
PSB gyda'r gyfran fwyaf o oriau MOL		BBC (50%)	BBC (51%)
Nifer o gwmnïau cynhyrchu sy'n weithredol	22	14	16

Gogledd Lloegr

3.54 Yng Ngogledd Lloegr mae'r gyfran fwyaf o wariant cynhyrchu y tu allan i Lundain, gyda'r BBC, Channel 4 ac ITV yn cyfrannu'n sylweddol. Ers i'r BBC symud i Salford, mae gwariant ac oriau MOL yn y rhanbarth wedi cynyddu, ond maent wedi lefelu mwy yn ddiweddar gan gyrraedd ambell benllanw yn 2014 ac yn 2016 yn sgil digwyddiadau chwaraeon mawr. Mae cyfraniad Channel 5 yn y rhanbarth yn fach, ond mae wedi bod yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall ers 2012.

- 3.55 Cynyrchiadau yn unedau mewnol y BBC ac ITV yn Salford sydd i'w gweld fwyaf, ac mae'r rhain gyda'i gilydd yn 73% o oriau MOL o'r rhanbarth yn 2017. Mae ystod y genres yn eang, a chwaraeon ac operâu sebon yw'r meysydd sydd i'w gweld fwyaf. Mae operâu sebon poblogaidd sy'n dychwelyd fel *Coronation Street* ac *Emmerdale* gan ITV (y ddwy wedi'i chynhyrchu'n fewnol), yn ogystal â rhaglen *Hollyoaks* gan Channel 4 wedi cyfrannu'n fawr at wariant MOL yn y rhanbarth ers blyneddoddd, a rhaglenni *Wimbledon* a *Match of the Day* gan y BBC hefyd (y ddwy wedi'i chynhyrchu'n fewnol).
- 3.56 Ers 2008, mae nifer y cwmnïau cynhyrchu gweithredol yn y rhanbarth wedi gostwng ar y cyfan. Y rheswm yn rhannol dros hyn yw'r gostyngiad sylweddol yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr (chwech yn 2008 i lawr i ddau yn 2017). Er bod llai o gynhyrchwyr allanol i'w gweld yng Ngogledd Lloegr nag mewn ardaloedd eraill, nhw sydd wedi gwneud y rhan fwyaf o gynyrchiadau drama'r rhanbarth ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus ers sawl blwyddyn, gan gynnwys y gyfres bresennol sy'n dychwelyd ar Channel 4, *No Offence*. Roedd comisiynau gan gynhyrchwyr lleol yng Ngogledd Lloegr oddeutu 15% o'r oriau a gafodd eu comisiynu'n allanol yn 2017, ond oherwydd y gyfran uchel o gomisiynau mewnol yn y rhanbarth, dim ond oddeutu 4% yw hyn o gyfanswm oriau MOL o'r rhanbarth.
- 3.57 Mae cynyrchiadau mewnol yn fwy tebygol o fodloni'r tri maen prawf MOL na chynyrchiadau allanol (99% o'i gymharu â 79%). Er enghraifft, mae bron yr holl oriau o chwaraeon ac operâu sebon sydd wedi'u neilltuo i Ogledd Lloegr yn bodloni'r tri maen prawf gan eu bod yn cael eu gwneud yn fewnol i gyd bron gan y BBC ac ITV.

De Lloegr

- 3.58 Yn 2017, roedd gwariant MOL yn Ne Lloegr ychydig yn uwch nag yr oedd yn 2016, ond roedd yn gyfran lai o wariant MOL yn Ne Lloegr nag unrhyw flwyddyn arall ers 2008. Mae'n bur debyg mai'r newidiadau yn strategaeth gomisiynu ITV sydd wedi sbarduno'r gostyngiad yng ngwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y rhanbarth hwn. Yn y blyneddoddd rhwng 2011 a 2015, roedd cyfran gwariant ITV yn y rhanbarth hwn yn fwy na 20% yn gyson, ond gwelwyd gostyngiad i 7.4% yn 2016. Efallai bod y gostyngiad mewn comisiynau chwaraeon o'r rhanbarth ers 2015 i gyfrif am y newid hwn.

- 3.59 Rhaglenni ffeithiol yw'r prif genre yn Ne Lloegr ar hyn o bryd, gyda bron i 60% o oriau MOL sydd wedi'u neilltuo i'r rhanbarth hwn yn rhaglenni ffeithiol arbenigol, cyffredinol ffeithiol, neu'n adloniant ffeithiol. Channel 4 yw un o'r prif gyfranwyr o ran gwariant yn Ne Lloegr, a gwelwyd cynnydd yn y gyfran o oriau a gwariant MOL a gomisiynwyd o Dde Lloegr yn 2017 (o 33% o oriau yn 2016 i 39%). Mae cael *The Great British Bake Off*, a darlledu Fformiwlâ 1 a Phencampwriaethau Pêl-droed Ewrop i Ferched wedi cyfrannu at hyn.

De Lloegr	2008	2013	2017
Gwariant cynhyrchu yn Ne Lloegr			£289 million (£203m PSB MOL, £86m other)
Rhan o wariant cymwys PSB	10.2%	13.6%	9.7%
Rhan o oriau cymwys PSB	11.0%	11.9%	10.4%
Cyfran o oriau MOL a gynhyrchwyd yn fewnol		36%	23%
PSB gyda'r gyfran fwyaf o oriau MOL		BBC (43%)	BBC (41%) C4 (39%)
Nifer o gwmnïau cynhyrchu sy'n weithredol	54	48	40

- 3.60 Daw'r rhan fwyaf o gynyrchiadau MOL yn Ne Lloegr gan gwmnïau cynhyrchu allanol, gyda chynhyrchwyr yn y rhanbarth yn cynnig rhaglenni ffeithiol, drama, adloniant a chomedi. Ar wahân i Lundain, De Lloegr yw'r ardal sydd â'r nifer fwyaf o gwmnïau cynhyrchu gweithredol, er mae hyn wedi gostwng yn y blynyddoedd diweddar.
- 3.61 Yn 2017, daeth 8% o oriau MOL o gynyrchiadau nad oeddent yn bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol – wedi gostwng o 13% yn 2016. Roedd cynhyrchwyr lleol yn Ne Lloegr yn gyfrifol am 13% o oriau MOL y rhanbarth yn 2017. Roedd y ffigur hwn yn debyg i'r hyn a welwyd yn y ddwy flynedd flaenorol.
- 3.62 Mae oriau cynyrchiadau mewnol sydd wedi'u neilltuo i Dde Lloegr yn fwy tebygol o fodloni'r tri maen prawf MOL nag oriau cynyrchiadau allanol (93% o'i gymharu â 55% yn 2017). Nid oedd 22% o'r oriau a gafodd eu neilltuo i Dde Lloegr yn 2017 yn bodloni'r maen prawf ar gyfer gwariant, y gyfran fwyaf o blith unrhyw wlad/isranbarth (roedd y ffigur hwn lawer yn uwch yn 2017 o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol).

Sawl rhanbarth (arall)

- 3.63 Cafodd sawl rhanbarth fel categori neilltuo ei ychwanegu at y Canllawiau yn 2011 fel pennawd ar gyfer categorreiddio cynyrchiadau os oeddent yn bodloni'r meini prawf ar gyfer talent a gwariant yn unig, ond ddim yn gallu cael eu neilltuo i un isranbarth.
- 3.64 Cafodd llai nag 1% o oriau MOL ar y cyfan eu neilltuo i'r categori hwn yn 2017, er ei fod yn cyfrif am 2% o'r gwariant. Mae'n bur debyg mai neilltuo drama costau uwch i'r categori yw'r rheswm dros hyn. Er enghraifft, cafodd *Peaky Blinders* (BBC), ei gynhyrchu gan y cynhyrchydd o Lundain, Tiger Aspect a'i ffilmio mewn amrywiol lefydd y tu allan i'r M25, gan gynnwys Birmingham, Swydd Efrog, Lerpwl a Manceinion. Mae'r genres adloniant a chomedi wedi'u neilltuo gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i'r categori hwn hefyd.

4. Gwerthuso'r drefn a'r Canllawiau presennol

Cyflwyniad

- 4.1 Yn yr Adran hon, rydym yn disgrifio prif ganfyddiadau ein hasesiad o'r Canllawiau presennol a'r drefn yn gyffredinol. Wrth i ni werthuso, rydym wedi ystyried canlyniadau ein dadansoddiad o'r data (Adran 3), barn rhanddeiliaid, a gafwyd drwy'r 28 ymateb i'r Cais am Dystiolaeth a gyhoeddwyd gennym yn gynharach eleni, a drwy gyfres o weithdai diwydiant rydym wedi'u cynnal ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r adborth hwn wedi cynnig gwybodaeth fanwl am sut mae'r drefn bresennol yn gweithio, ynghyd â syniadau ac awgrymiadau am ffyrdd o'i newid a'i gwella.
- 4.2 Rydym wedi ystyried ymatebion yr holl rhanddeiliaid yn fanwl, sydd hefyd wedi cael eu defnyddio i ehangu ein gwybodaeth yn y maes hwn. Gan ein bod wedi cael llawer iawn o wybodaeth a manylion trylwyr iawn mewn nifer o'r ymatebion a gawsom i'r Cais am Dystiolaeth, rydym wedi cyfyngu'r bennod hon i themâu allweddol ac wedi darparu crynodeb cynhwysfawr o'r ymatebion a dadansoddiad o gynigion rhanddeiliaid ar gyfer newidiadau yn Atodiad 6.

Y drefn ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol

- 4.3 Mae'r ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth a'n trafodaethau yn y gweithdy yn dangos nad oes gan y rhan fwyaf o rhanddeiliaid awydd mawr i weld system sy'n gwbl wahanol ar gyfer cyflawni dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol. Rhybuddiodd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a ymatebodd yn erbyn gwneud newidiadau mawr i'r Canllawiau gan ddweud y byddai unrhyw newid yn debygol o gynyddu'r baich rheoleiddiol ac effeithio ar eu gallu i fodloni'r cwtâu.
- 4.4 O blith y rheini a alwodd am ddull arall, awgrymodd Directors UK y gallai Ofcom fabwysiadu system bwyntiau, yn arbennig ar gyfer y maen prawf ar gyfer talent oddi ar y sgrin. Roedd rhai o'r farn bod angen newid sylweddol fel bod y drefn yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd wrth ddarparu cynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Nid oedd fawr o sôn am gwtâu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, er roedd rhai rhanddeiliaid yn awyddus i weld cwtâu genre a chwtâu penodol i wledydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Ond, roedd y rhan fwyaf o rhanddeiliaid yn ymddangos yn fodlon gyda defnyddio'r Canllawiau a'r elfennau sylfaenol sy'n sail i'r tri maen prawf. Roedd ymatebion, yn hytrach, yn canolbwyntio'n bennaf ar weithredu a dehongli'r Canllawiau presennol.
- 4.5 Roedd llawer o rhanddeiliaid yn teimlo'n gryf, er bod y cysyniad sy'n sail i'r dull presennol yn dal i fod yn ddymunol, nid yw'r ffordd bresennol o weithredu, monitro a gorfodi'r Canllawiau yn ymarferol yn effeithiol bob amser o ran cyflawni amcan y polisi i gefnogi ac atgyfnerthu cynyrchiadau y tu hwnt i'r M25. O ganlyniad, roedd awydd cyffredinol i weld y drefn bresennol yn cael ei gweithredu'n fwy trwyadl er mwyn mynd ati'n well i sicrhau'r canlyniad hwn.

- 4.6 Y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol oedd yr un y cafwyd y nifer fwyaf o ymatebion iddo yn ein Cais am Dystiolaeth. Roedd llawer o'r farn bod tynhau'r maen prawf yma yn allweddol i wella'r
- 4.7 drefn. Yn groes i hyn, awgrymodd darlledwyr bod y maen prawf yn cyfrannu'n effeithiol at yr amcan i gryfhau cynhyrchu rhanbarthol, ac yn cynnig hyblygrwydd pwysig. Cawsom lai o ymatebion ar y ddau faen prawf arall. Y maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu a llwyddodd i gael y consensws mwyaf ymhlith y rhanddeiliaid, ac roedd y rhan fwyaf o'r farn bod mynnu bod isafswm o 70% o'r gyllideb cynhyrchu yn cael ei wario y tu allan i Lundain yn briodol. Yn y cyfamser, roedd amrywiaeth barn am y maen prawf ar gyfer talentau cynhyrchu yn ôl lleoliad, genre, a grŵp rhanddeiliaid, gyda safbwyntiau'n amrywio ynghylch y dalent sydd ar gael y gwledydd a'r rhanbarthau.
- 4.8 Roedd pryderon ynghylch y tri maen prawf, a'r Canllawiau yn fwy cyffredinol, yn dod o dan y meysydd allweddol canlynol ar y cyfan:
- Sut mae'r meini prawf yn cael eu cyflawni;
 - y Canllawiau yn cael eu defnyddio'n anghywir;
 - cynyrchiadau lle mae'r Canllawiau'n cael eu rhoi ar waith yn gywir ond nad ydynt, i bob golwg, yn cyflawni bwriad y polisi;
 - arferion sy'n unol â'r Canllawiau a bwriad y polisi sy'n cael eu hystyried yn annheg; a
 - pwyntiau ychwanegol yn codi mewn perthynas â'r meini prawf, gan gynnwys meysydd sy'n gofyn am eglurhad pellach.
 - rôl Llundain a'i heffaith ar gynhyrchu cynaliadwy yn y gwledydd a'r rhanbarthau; a
 - phryderon ynghylch prosesau gan gynnwys: casglu data ac adrodd yn ôl gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, cyhoeddiadau Ofcom, a phroses monitro a chwynion Ofcom.
- 4.9 Byddwn yn edrych yn fwy manwl ar bob un o'r themâu allweddol hyn isod.

Sut mae'r meini prawf yn cael eu cyflawni

- 4.10 Mae natur hyblyg y meini prawf presennol, sy'n diffinio a yw cynhyrchiad yn gallu cael ei gynnwys yn y cwtâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol, wedi arwain at bryderon ynghylch sut mae rhai cynhyrchwyr a darlledwyr wedi dehongli'r meini prawf ac wedi'u rhoi ar waith.
- 4.11 Rhoddodd rhanddeiliaid enghreifftiau o deitlau roeddent o'r farn nad oeddent o bosib wedi bodloni'r meini prawf yn briodol, ac na ddylent felly gael eu cynnwys yn y cwtâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol. Cafwyd enghreifftiau ganddynt hefyd o deitlau roeddent o'r farn eu bod yn bodloni'r meini prawf i'r llythyren, ond nad oeddent fel be baent yn cefnogi nac yn cryfhau'r economïau creadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Yn y ddau

faes, roedd gan randdeiliaid bryderon mai'r canlyniad ar y diwedd fydd trefn nad yw bob amser yn cyflawni amcan y polisi yn effeithiol.

- 4.12 Roedd gan rai rhanddeiliaid bryderon hefyd am deitlau sydd, yn ein barn ni, yn dilyn y meini prawf a bwriad sylfaenol y polisi. Rydym wedi nodi enghreifftiau isod, ynghyd â'n rhesymau i egluro pam nad ydym yn meddwl bod angen datrys y rhain. Yn olaf, rydym yn ystyried rhagor o'r pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid am y meini prawf, llawer ohonynt yn canolbwyntio ar yr angen am eglurhad pellach o'r Canllawiau presennol.

Y Canllawiau yn cael eu defnyddio'n anghywir

- 4.13 Cawsom dystiolaeth anecdotaidd o sut mae'r meini prawf gwahanol yn cael eu defnyddio'n anghywir weithiau. Er nad ydym wedi dilysu'r achosion unigol hyn, rydym yn cymryd honiadau o'r fath o ddifrif, a byddai'r arferion hyn yn amlwg yn mynd yn groes i amcan y drefn ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol. Rydym yn cydnabod hefyd fod llawer o randdeiliaid yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd diwallu'r meini prawf mewn ffordd briodol a gweithio'n galed i wneud hynny. Mae hyn wedi bod yn amlwg hefyd o'n trafodaethau â nhw.
- 4.14 Roedd y dystiolaeth anecdotaidd a gawsom yn cynnwys:
- a) **Canolfan sylweddol:** roedd pryderon gan rai y gallai cwmnïau honni bod ganddynt swyddfa yn y gwledydd a'r rhanbarthau gyda chyfeiriad wedi'i restru ond nad oes staff wedi'u lleoli yno ac nad oes dim cynhyrchu yn digwydd o'r swyddfa honno, mewn gwirionedd. Gelwir y rhain yn swyddfeydd "plac pres" ac nid ydynt yn bodloni'r diffiniad o ganolfan sylweddol. Roedd rhai wedi awgrymu bod yr arfer hwn yn gallu digwydd pan fydd cynhyrchwyr sy'n gweithio yn Llundain yn ymgeisio am gomisiynau rhanbarthol heb ganolfan sylweddol yn y gwledydd neu'r rhanbarthau, ac wedyn yn sefydlu swyddfa "plac pres" ar ôl cael y comisiwn ac yn honni eu bod wedi bodloni'r maen prawf ond yn cynhyrchu o'u canolfan yn Llundain.
 - b) **Y gyllideb cynhyrchu:** dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod achosion pan fydd cwmnïau neu unigolion sydd wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau (e.e. lleoliadau ôl-gynhyrchu ac uwch gynhyrchwyr) wedi cael cynnig taliad i gael eu henw ar gynhyrchiad, pan nad oedd ganddynt ran o gwbl yn y cynhyrchiad a bod y gwaith wedi cael ei wneud yn Llundain mewn gwirionedd. Mae'n ymddangos bod taliadau o'r fath yn cael eu cynnig i helpu'r cynhyrchiad i fynd dros y trothwy cyllideb o 70% ac yn gymwys felly i fod yn rhanbarthol. Gall arferion o'r fath helpu hefyd i fodloni'r maen prawf ar gyfer talentau oddi ar y sgrin.
 - c) **Talent oddi ar y sgrin:** cafodd achosion eu cyflwyno i ni hefyd lle roedd staff llawrydd sydd wedi'u lleoli yn Llundain yn honni iddynt gael cais gan gwmnïau cynhyrchu i restru eu cyfeiriad fel cyfeiriad ffrind neu aelod o'r teulu sy'n byw y tu allan i'r M25, er mwyn iddynt gyfrif at y trothwy 50% ar gyfer talent yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Tynnodd rai sylw hefyd at enghreifftiau o gwmnïau criw sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r M25 yn cael eu defnyddio i gyflogi talent oddi ar y sgrin fel bod staff sy'n cael eu cyflogi drwy'r cwmni hwnnw yn cyfrif fel staff rhanbarthol, ni waeth beth yw eu man gwaith arferol

neu eu cyfeiriad cartref. Mae modd defnyddio'r arfer hwn hefyd i helpu cynhyrchiad i fodloni'r maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu.

- 4.15 Roedd rhai a ymatebodd i'r Cais am Dystiolaeth wedi awgrymu ffyrdd lle mae modd atal rhai o'r arferion a amlinellir uchod yn y dyfodol. Awgrymodd ymatebwyr o'r Alban, Pact a'r Indie Club ein bod yn newid "man gwaith arferol" yn y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol i "domisil at ddibenion treth" er mwyn sicrhau bod staff wedi'u lleoli yn y swyddfa honedig. Awgrymodd Tinopolis y dylai Ofcom fod yn gyfrifol am fynd i weld a dilysu canolfannau sylweddol cwmnïau cynhyrchu a chyhoeddi rhestr o gyflenwyr cymeradwy i ddarlledwyr gomisiynu ganddynt. Mewn trafodaethau, roedd rhai rhanddeiliaid yn awgrymu y dylai staff llawrydd orfod cyflwyno prawf o gyfeiriad eu cartref i ddangos eu bod yn bodloni'r maen prawf ar gyfer talentau oddi ar y sgrin.
- 4.16 Rydym o'r farn bod angen newidiadau cymesur i'r drefn i sicrhau bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'u cyflenwyr hwythau yn fwy trylwyr wrth ddefnyddio'r Canllawiau fel bod y meini prawf yn cael eu defnyddio'n gywir ac yn gyson. Rydym yn nodi cynigion manwl yn Adran 5.

Cynyrchiadau lle mae'r Canllawiau'n cael eu rhoi ar waith yn gywir ond nad ydynt, i bob golwg, yn cyflawni bwriad y polisi

Arferion nad ydynt yn cyflawni bwriad y polisi

- 4.17 O'n dadansoddiad o'r gofrestr o deitlau, ac wrth wrando ar brofiadau rhanddeiliaid, mae'n amlwg ei bod yn bosib defnyddio'r hyblygrwydd mae'r Canllawiau'n ei gynnig ar hyn o bryd i fodloni'r meini prawf mewn ffyrdd nad ydynt yn dilyn, nac yn cyflawni, bwriad y polisi sy'n sail i'r cwtâu. Er enghraifft:
- a) **Canolfan sylweddol:** Defnyddio swyddfeydd sy'n cael eu hagor yn y gwledydd a'r rhanbarthau dim ond dros gyfnod y cynhyrchiad, ac sydd i bob pwrpas yn swyddfeydd lleoliad. Er ei bod yn bosib bod y swyddfeydd hyn yn cael eu defnyddio'n llwyr yn ystod y cynhyrchiad, mae amheuaeth a yw agor swyddfeydd fel hyn yn wirioneddol bodloni tair elfen y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol, yn enwedig i "geisio cael comisiynau" oherwydd byddai hyn yn helpu i nodi swyddfa cynhyrchu lleoliad oddi wrth y ganolfan sylweddol go iawn. Mae hyn yn fater o bryder penodol pan fydd cynhyrchiad ond yn bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol ac un maen prawf arall (10% o oriau rhanbarthol a 12% o wariant yn 2017). Ar ôl i'r cynhyrchiad ddod i ben, ni fyddai'r manteision parhaus i'r economi cynhyrchu lleol sy'n deillio o ganolfan sylweddol yn dwyn ffrwyth. Byddai hyn wedyn yn cyfyngu ar gyfraniad y cynhyrchiad i amcan y polisi.
 - b) **Talent oddi ar y sgrin:** Mae rhanddeiliaid yn dweud bod y maen prawf hwn yn cael ei fodloni drwy hysbysebu swyddi cynhyrchu yn Llundain sy'n gorfod cael eu llenwi gan dalent lawrydd sydd wedi'u lleoli y tu allan i Lundain. Mae cyflawni'r maen prawf drwy gyflogi gweithwyr llawrydd rhanbarthol i weithio yn Llundain i helpu cynhyrchiad i fod yn gymwys i fod yn gynhyrchiad sydd wedi'i wneud y tu allan i Lundain yn mynd yn groes i fwriad dyletswyddau cynyrchiadau rhanbarthol. Mae'n golygu hefyd nad oes

cyfleoedd cyflogaeth y gellid eu cynnig i dalentau yn eu hardal leol (gyda'r holl fanteision a ddaw gyda hynny i'r unigolyn a'r ecoleg gynhyrchu leol).

- 4.18 Roedd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys y BBC a Channel 4, yn awgrymu y gallai sicrhau mwy o eglurder yn y Canllawiau ynghylch sut dylai pob un o'r meini prawf gael eu cyflawni helpu i fynd i'r afael ag arferion nad ydynt yn dilyn bwriad y polisi, yn ein barn ni. Dyma'r cwestiynau penodol a gododd lle gallem gynnig mwy o eglurder: a oes angen bodloni tair elfen y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol; a ddylai gorbenion cael eu cynnwys yn y maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu; a sut dylai staff sy'n cael eu cyflogi drwy logi stiwdio gael eu trin mewn perthynas â'r maen prawf ar gyfer talentau. Roedd rhai rhanddeiliaid yn awgrymu gwneud mwy o newidiadau sylweddol i'r meini prawf eu hunain. Awgrymodd un o'r rhanddeiliaid a Phwyllgor Cynghori Cymru, Ofcom y dylid diwygio'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol i fynnu bod swyddfeydd ar agor am gyfnod penodol cyn iddynt allu bod yn gymwys. Yn y gweithdai i rhanddeiliaid, awgrymwyd y dylai'r swyddfa fod yn agored adeg y comisiynu. Cafwyd cynnig gan Channel 4 a'r BBC hefyd i ddechrau gweithgor i rannu arferion gorau a sicrhau mwy o gysondeb o ran sut mae'r meini prawf yn cael eu bodloni.
- 4.19 Mewn rhai o'r achosion hyn, rydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i roi esboniad ychwanegol am y meini prawf i helpu rhanddeiliaid i ddefnyddio'r Canllawiau mewn ffordd sy'n dilyn bwriad y polisi yn gyson (mae rhagor o fanylion yn Adran 5). Fodd bynnag, mewn achosion eraill, gall canllawiau ychwanegol gyfyngu'n ddi-fudd ar hyblygrwydd gwerthfawr y Canllawiau sydd wedi'i ddrafftio'n fwriadol i ddellio â natur unigryw pob cynhyrchiad⁶⁵.

Mathau o gynnwys nad ydynt yn cyflawni bwriad y polisi

- 4.20 Yn ogystal â'r materion sydd wedi'u datgelu ynghylch y gwahanol agweddau ar y broses gynhyrchu nad ydynt o anghenraid yn cyfrannu at fwriad y polisi, rydym hefyd wedi dod o hyd i fath o gynnwys nad yw, yn ein barn ni, yn gwneud llawer i ddatblygu amcan polisi cynrychiadau rhanbarthol.
- 4.21 Wrth asesu'r amrywiaeth o raglenni a wneir o dan y drefn cynhyrchu rhanbarthol yn y blynyddoedd diweddar, fe welsom mai *Nightscreen* gan ITV oedd y teitl a oedd yn creu'r oriau mwyaf yn gyson gan unrhyw ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus (dros 550 awr yn 2017), a mwy na dwbl oriau'r teitl mwyaf nesaf yn ôl maint yn 2017. Mae *Nightscreen* yn adnodd cost isel, sy'n hunan-hyrwyddo dros gyfnod hir⁶⁶ ac sydd ddim yn dechnegol iawn ar gyfer ITV. Mae'n cynnwys cyfres o dudalennau wedi'u hanimeiddio sy'n hyrwyddo rhaglenni nodwedd, digwyddiadau arbennig, a rhaglenni sydd i ddod ar ITV. Mae'n cael ei ddarlledu yn ystod y nos am rhwng un neu ddwy awr, bron pob diwrnod o'r wythnos. Ar gyfer pob rhaglen sy'n cael ei dangos ar *Nightscreen*, mae'r gwylwyr yn cael gweld llun llonydd o'r sioe neu logo'r rhaglen, ynghyd â thestun hyrwyddo (gweler Ffigur 8). Gan fod

⁶⁵ I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch yn ôl i baragraff 2.16.

⁶⁶ Mae achosion o hunan-hyrwyddo'n cael eu diffinio yn [Rhan Dau \(Cod Trawshyrwyddo\) y Cod Darlledu](#) fel "hyrwyddo sianel ar y sianel honno a/neu raglenni sy'n cael eu darlledu ar y sianel honno".

Nightscreen yn bodloni diffiniad cyffredinol o raglen fel sydd wedi'i nodi yn y Ddeddf⁶⁷, gall ITV ei gynnwys ar hyn o bryd yn ei gwota cynyrchiadau rhanbarthol.

Ffigur 8: Cipluniau o'r sgrin Nightscreen ar ITV



Ffynhonnell: ITV, 16 Hydref 2018

- 4.22 Amserlen ITV sy'n pennu cynnwys *Nightscreen* ac mae'r deunydd gweledol yn debygol o gael ei gyflenwi gan naill ai'r darlledwr neu gyflenwr y rhaglen sy'n cael ei hyrwyddo. Ychydig iawn o ystod greadigol mae hyn yn ei gynnig o ran cynnwys y cynhyrchiad. Rydym yn ystyried bod allbwn o'r fath yn annhebygol o greu llawer o swyddi neu gyfleoedd datblygu ar gyfer talentau cynhyrchu, gan fod yr holl rolau sy'n gysylltiedig fel arfer â'r gwaith cyn-gynhyrchu, gwaith ffilmio a'r camau golygu dan arweiniad cyfarwyddwr ar gynhyrchiad teledu arferol yn absennol. O ganlyniad, efallai hefyd mai ychydig o gyfraniad fydd i'r economi greadigol leol.
- 4.23 Rydym o'r farn felly nad yw cyfrif cynnwys hunan-hyrwyddo o'r fath yn y cwota ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn cynnig llawer o werth o ran cyfrannu at amcan y polisi o helpu i gryfhau'r sector cynhyrchu ar gyfer teledu y tu allan i Lundain.⁶⁸

⁶⁷ Mae Adran 405 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn diffinio "rhaglen deledu" fel "unrhyw raglen (gyda sain neu heb sain) sy'n cael ei chynhyrchu'n gyfan gwbl neu'n rhannol i'w dangos ar y teledu; ac mae'n cynnwys delweddau llonydd neu ddelweddau sy'n symud neu destun darllenadwy neu gyfuniad o'r pethau hyn".

⁶⁸ Rydym hefyd yn nodi bod gan ITV ddyletswydd o dan ei drwydded i ddarparu ystod addas o raglenni gwahanol sydd wedi'u gwneud y tu allan i'r M25, ac y gallai'r nifer fawr o oriau o gynnwys *Nightscreen* fod yn berthnasol i'r ddyletswydd honno hefyd.

4.24 Mae ein cynigion i fynd i'r afael â hyn yn Adran 5.

Arferion sy'n cyd-fynd â'r Canllawiau a bwriad y polisi ond sy'n cael eu hystyried yn annheg

- 4.25 Mae'n bwysig nodi ein bod wedi cael rhai enghreifftiau o gynyrchiadau y mae rhai rhanddeiliaid yn teimlo na ddylent gael eu cynnwys yn y cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol, ond sydd, serch hynny, yn bodloni'r meini prawf ac yn cyfrannu at fwriad y polisi yn ein barn ni. Dyma rai enghreifftiau: cwmnïau cynhyrchu sydd â swyddfeydd yn union y tu allan i'r M25 neu lle mae'r ffilmio ar gynhyrchiad yn digwydd yn union y tu allan i'r M25; a digwyddiadau chwaraeon sydd wedi cael eu cynnal y tu allan i'r rhanbarth neu'r wlad y mae'r cynhyrchiad wedi cael ei neilltuo iddi at ddibenion cwota.
- 4.26 Mae ffin yr M25 yn cael ei gosod gan Senedd y DU yn y Ddeddf, ac nid yw'n rhywbeth mae'r adolygiad hwn yn gallu ei newid. Mae'n werth nodi lle bynnag y bydd y ffin ar gyfer 'Llundain', bydd bob amser enghreifftiau o swyddfeydd neu ffilmio sy'n digwydd y tu hwnt i'r ffin hon. O dan y dyletswyddau presennol, mae gan gwmnïau sydd wedi'u lleoli yn union y tu allan i'r M25 yr un hawl â chwmnïau sydd ymhellach i ffwrdd o Lundain i gyfrannu at y cwotâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol. Credwn ei fod yn bwysicach sicrhau bod y cwmnïau cynhyrchu hyn yn bodloni'r meini prawf yn briodol, ac nad yw'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dibynnu'n llwyr ar gyflawni eu dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol o union o'r tu hwnt i'r M25. Mae'n ofynnol iddynt o dan y Ddeddf a'u trwyddedau i ddefnyddio ystod briodol o ganolfannau cynhyrchu ar draws y DU. Mae hyn yn cael ei fonitro fel rhan o'n proses adrodd yn ôl flynyddol yn y maes hwn.
- 4.27 Roedd yr enghraifft o ddigwyddiadau chwaraeon sydd wedi digwydd y tu allan i'r wlad neu'r rhanbarth y mae'r cynhyrchiad wedi cael ei neilltuo iddo wedi esgor ar safbwyntiau cryf iawn ymysg rhai rhanddeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys yr enghraifft lle roedd digwyddiadau chwaraeon yn Llundain yn cyfrif fel cynyrchiadau rhanbarthol gyda rhai rhanddeiliaid yn holi sut gallai digwyddiadau o'r fath fod yn gymwys o gwbl. Fodd bynnag, yn ein barn ni, os bydd y meini prawf yn cael eu gweithredu'n gywir, gall cynyrchiadau o'r fath fod yn enghreifftiau o'r dyletswyddau yn gweithio'n dda. I gael economïau creadigol wirioneddol fywiog ac amrywiol y tu allan i Lundain, mae'n rhaid i gwmnïau cynhyrchu yn y gwledydd a rhanbarthau gael cyfleoedd i wneud yr ystod ehangaf bosib o raglenni. Mae hyn yn cynnwys gallu gwneud cais am gomisiynau digwyddiadau chwaraeon yn Llundain neu sioeau eraill sydd â ffocws y tu hwnt i ardal leol y cwmni cynhyrchu. Mae'r comisiynau hyn yn gallu cynnig cyfleoedd i ddatblygu ystod o dalent a sgiliau, na fyddai ar gael fel arall, ac er nad ydynt o reidrwydd yn digwydd yn y wlad honno neu'r rhanbarth hwnnw, maent yn dal i gynnig buddsoddiad ychwanegol i'r economïau creadigol y tu allan i Lundain.

Pwyntiau ychwanegol a godwyd mewn perthynas â'r meini prawf

- 4.28 Roedd y safbwyntiau a gasglwyd mewn ymateb i'r Cais am Dystiolaeth a'n trafodaethau gyda rhanddeiliaid hefyd wedi amlygu nifer o bwyntiau eraill am y meini prawf, gan gynnwys meysydd lle mae angen eglurhad pellach o bosib, neu ffyrdd y gellid eu gwella. Rydym wedi crynhoi'r rhain isod.

Cydgynyrchiadau a chyllid trydydd parti

- 4.29 Holodd nifer o randdeiliaid a ddylid cynnwys arian gan drydydd partïon yn rhan o'r gyllideb cynhyrchu wrth asesu a yw'r trothwy 70% wedi'i fodloni ar gyfer maen prawf y gyllideb cynhyrchu, neu ai dim ond cyfraniad y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus at y cynhyrchiad penodol hwnnw sy'n cyfrif. Ar hyn o bryd, nid yw'r Canllawiau'n mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae cyfraniadau gan drydydd partïon tuag at gost cynyrchiadau, er enghraifft drwy drefniadau cydgynhyrchu, cyllid diffyg gan y cwmnïau cynhyrchu a chredydau treth yn chwarae rhan fwyfwy pwysig wrth gyllido cynnwys gwreiddiol gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Dros y degawd diwethaf, mae cyllid trydydd parti ar gyfer cynnwys gwreiddiol yn y DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar draws y BBC, Channel 4 a Channel 5, gyda'i gilydd, wedi mwy na dyblu o £147m yn 2008 i £338m yn 2017.⁶⁹
- 4.30 Ac ystyried y newidiadau yn y farchnad a bod cydgynyrchiadau a chyllid trydydd parti yn dod yn fwyfwy cyffredin wrth gyllido cynyrchiadau, rydym yn cynnig diweddaru'r Canllawiau i nodi'n glir sut dylid delio â chyllid o'r fath. Rydym yn manylu ar hyn yn Adran 5.

Cynyrchiadau rhyngwladol

- 4.31 Roedd rhai rhanddeiliaid yn cwestiynu sut mae cynyrchiadau rhyngwladol yn cyd-fynd â'r drefn ac yn nodi ei bod yn gallu bod yn anodd bodloni'r meini prawf ar gyfer gwariant a thalent pan mae angen ffilmio elfennau o'r cynhyrchiad dramor. Roedd rhai cynhyrchwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn teimlo gan eu bod yn gweithredu a chanddynt ganolfan sylweddol y tu allan i'r M25, dylent allu cynnwys y rhaglenni maent yn eu ffilmio dramor fel cynyrchiadau rhanbarthol, ni waeth ai yw hyn yn golygu bod y meini prawf ar gyfer gwariant a thalent yn cael eu bodloni yn y DU y tu allan i'r M25. Awgrymodd Tinopolis y dylem eithrio gwariant tramor o'r cyllidebau cynhyrchu a thalentau, er mwyn sicrhau ei bod yn haws cyrraedd y lefelau gwariant sylfaenol o 70% a 50% o dan amgylchiadau pan fydd yn rhaid ffilmio dramor, a'i gwneud yn bosib felly i gynnwys teitlau o'r fath fel cynyrchiadau rhanbarthol.
- 4.32 Pwrpas y dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol yw cefnogi ac atgyfnerthu cynhyrchu ar gyfer y teledu y tu allan i Lundain yn y DU. Mae hyn yn glir yn fersiwn ddrafft y Ddeddf ac yn Siarter a Chytundeb y BBC. O'r herwydd, gall cynyrchiadau sydd ag ambell elfen ryngwladol gael eu cyfrif fel cynyrchiadau rhanbarthol, ar yr amod eu bod yn dal i fodloni o leiaf ddau o'r tri maen prawf yn y DU y tu allan i'r M25. Fel arall, ni fydd teitlau o'r fath yn gallu bod yn gymwys, ni waeth a oes gan gwmni ganolfan sylweddol yn y gwledydd neu'r rhanbarthau y tu allan i'r M25. Nid ydym yn credu y byddai eithrio costau talent a chynhyrchu dramor yn cyd-fynd â bwriad y polisi wrth gyfrifo a yw'r trothwyon cyllideb perthnasol wedi cael eu bodloni. Gallai hyn arwain at raglenni, a gafodd eu ffilmio dramor yn bennaf, yn cael eu cynnwys yn y cwota ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol, er gwaethaf y

⁶⁹ [Adroddiad Cyfryngau'r Genedl Ofcom, 2018](#). Nid oes gennym ddata y gellir eu cymharu ar gyfer trwydded ITV neu drwydded ITV Breakfast.

ffaith mai cyfraniad bach iawn yw hyn at y sector cynhyrchu yn y DU y tu allan i'r M25.⁷⁰ Er enghraifft, yn unol â'r meini prawf presennol, ni fyddai cwmni cynhyrchu a oedd wedi gwario 20% o'i gyllideb yn yr Alban a 80% dramor yn gymwys; fodd bynnag, pe byddai gwariant tramor yn cael ei eithrio wrth gyfrifo a yw'r 70% o'r gyllideb cynhyrchu wedi'i fodloni, byddai'n gymwys oherwydd bod 100% o'r gyllideb gymwys wedi cael ei gwario yn yr Alban er mai dim ond 20% o gyfanswm y gyllideb a fyddai wedi cael ei wario mewn gwlad neu ranbarth.

Talent ar y sgrin

- 4.33 Roedd Equity ymhlith y nifer fechan o randdeiliaid a fu'n sôn am dalent ar y sgrin. Eu dadl oedd nad oedd y meini prawf presennol yn rhoi digon o gefnogaeth i dalentau ar y sgrin yn y gwledydd a'r rhanbarthau sy'n chwilio am waith. Awgrymwyd dileu'r eithriad ar gyfer talentau ar y sgrin o'r maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu er mwyn mynd i'r afael â hyn. Cynigiodd Ecwiti hefyd y gallem ddiwygio'r meini prawf i osod dyletswydd ar ddarlledwyr a chynhyrchwyr i gynnal o leiaf un sesiwn gastio leol, i ddangos parodrwydd i edrych ar y talentau lleol ar y sgrin yn ardal y cynhyrchiad.
- 4.34 Mae'r Canllawiau'n esbonio y gallai cost sylweddol talent ar y sgrin ar rai cynyrchiadau olygu bod y cwtôtâu yn cael eu hystumio os bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y meini prawf.⁷¹ Rydym yn dal o'r un farn, ac felly nid ydym yn cynnig newid yr elfen hon yn y Canllawiau. Rydym yn ymwybodol hefyd na ddylem wneud unrhyw newidiadau a fyddai'n effeithio er gwaeth ar y cyfleoedd sydd ar gael i dalentau oddi ar y sgrin.
- 4.35 Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli bod talent ar y sgrin yn rhan bwysig o'r diwydiant cynhyrchu, ac rydym yn cydnabod y gall mentrau castio lleol fod o fantais i dalent leol ar y sgrin. Rydym o'r farn bod darlledwyr a chwmnïau cynhyrchu yn y sefyllfa orau i benderfynnu pa gamau sy'n angenrheidiol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu talentau ar y sgrin yn y gwledydd a'r rhanbarthau, a byddem yn eu hannog i ystyried y safbwyntiau sy'n cael eu cyflwyno yma.

Rôl Llundain mewn cynyrchiadau rhanbarthol

- 4.36 Wrth ganiatáu i deitlau gyfrif fel cynyrchiadau rhanbarthol drwy fodloni dau o'r tri maen prawf, mae hyn yn golygu bod y Canllawiau presennol yn caniatáu i Lundain chwarae rôl mewn cynyrchiadau rhanbarthol. O ganlyniad, mae modd i gynyrchiadau rhanbarthol gael eu gwneud o'r gwledydd a'r rhanbarthau, gan gynhyrchwyr sy'n gwneud rhaglenni yn lleol, ac yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gan gynhyrchwyr y tu allan i'r ardal leol, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u lleoli yn Llundain. Mae trothwyon 70% a 50% ar gyfer meini prawf y gyllideb a thalentau oddi ar y sgrin, yn y drefn honno, hefyd yn cynnig hyblygrwydd i gynyrchiadau rhanbarthol ddefnyddio rhywfaint o adnoddau sydd yn Llundain ar lefel na ddylai lesteirio bwriad y polisi.

⁷⁰ Ar wahân i'r adolygiad hwn, rydym yn cydnabod bod angen i Ofcom gynnig diffiniad cliriach o gynhyrchiad rhyngwladol. Byddwn yn trafod hyn ar wahân gyda'r darlledwyr y tu allan i'r adolygiad hwn.

⁷¹ Y Canllawiau, paragraff 9.2.

- 4.37 Pan gyhoeddwyd y Canllawiau yn 2004, roeddem wedi cynnwys ymrwymiad i *"fonitro'r cydbwysedd rhwng cynyrchiadau rhanbarthol sydd wedi'u creu gan gynhyrchwyr rhanbarthol a chynhyrchwyr yn Llundain, ac os daw i'r amlwg bod cynhyrchwyr yn Llundain yn dominyddu cynyrchiadau rhanbarthol, byddwn yn ystyried newidiadau pellach"*.⁷² Rydym wedi asesu'r cydbwysedd hwn fel rhan o'r adolygiad.
- 4.38 Ar sail y data gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, roedd teitlau a gafodd eu cynhyrchu gan gwmnïau cynhyrchu allanol yn 57% o'r oriau cynhyrchu rhanbarthol yn 2017. Mae data O ac O yn dangos bod dros draean o'r holl oriau yn y gwledydd a'r rhanbarthau wedi dod gan gynhyrchwyr annibynnol sydd â phencadlys yn Llundain. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r oriau hyn (79%) wedi'u priodoli i swyddfa y tu allan i'r M25 ac felly'n bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol. Dim ond 8% o gyfanswm teitlau cynyrchiadau rhanbarthol na lwyddodd i fodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol (h.y. cynhyrchwyr yn Llundain heb swyddfa y tu allan i'r M25) yn 2017. Mae hyn yn cymharu â 7% yn 2016 a 4% yn 2015. Fel sydd wedi'i ddisgrifio'n gynharach yn Adran 3, roedd y cynyrchiadau hyn yn 12% o wariant a 9% o oriau cynyrchiadau rhanbarthol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn 2017.
- 4.39 Mae cwmnïau sy'n dewis cael swyddfeydd ychwanegol yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn gallu chwarae rhan yn y gwaith o ddatblygu canolfannau cynhyrchu yn yr ardaloedd hynny, a dylai gyfrannu at yr economi leol a'r diwydiant cynhyrchu mewn ffordd debyg i'r hyn a wna cwmnïau sydd â phencadlys lleol. Rydym yn sylweddoli y bydd effaith y cyfraniad hwn yn dibynnu ar i ba raddau mae'r cwmni dan sylw yn ymwneud â'r ecoleg gynhyrchu leol; er enghraifft, drwy gyflogi pobl leol a buddsoddi yn y swyddfa.
- 4.40 Mewn ymateb i'r Cais am Dystiolaeth ac mewn gweithdai, cafwyd sylwadau gan nifer o randdeiliaid ynghylch y rôl mae Llundain yn dal i'w chwarae mewn cynyrchiadau rhanbarthol. Mae'r ddinas yn cael ei hystyried ei bod yn chwarae rhan bwysig fel cyflenwr talent a chyfleusterau a naill ai'n ganolfan neu bencadlys cwmnïau sy'n cael comisiynau rhanbarthol.
- 4.41 Cafwyd sylwadau gan Northern Ireland Screen ynghylch y llif arian sy'n symud o Ogledd Iwerddon ar rai cynyrchiadau rhanbarthol sydd wedi'u gwneud gan gwmnïau sydd â phencadlys yn rhywle arall. Roedd yn argymhell bod angen datgan yn glir bod yn rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wario 70% o'r holl gyllideb cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau er mwyn bodloni'r maen prawf hwn, ac nid dim ond 70% o gyfraniad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i'r gyllideb.
- 4.42 Roedd rhai rhanddeiliaid, yn enwedig y rheini sydd wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau, yn teimlo bod Llundain yn chwarae rôl ry fawr mewn cynyrchiadau rhanbarthol. Dywedodd STV, TAC ac Indie Club, ymysg eraill, fod pobl yn dal yn dibynnu ar y brifddinas am dalent, yn enwedig ar gyfer swyddi uwch, yn ogystal â thueddiad i ddefnyddio cyflenwyr o Lundain yn hytrach na chwmnïau lleol ar gyfer elfennau fel llogi offer a dylunio setiau. Roedd nifer o randdeiliaid wedi datgan hefyd ei bod hi'n arferol i

⁷² Y Canllawiau, paragraff 9.1.

waith ôl-gynhyrchu ar gynyrchiadau rhanbarthol ddigwydd yn Llundain. Gan nodi mai yn Llundain y mae'r mwyafrif o'r comisiynwyr, roedd yn amlwg bod rhai ymatebwyr yn teimlo bod y comisiynwyr hyn yn dibynnu gormod ar unigolion a/neu gyfleusterau yn Llundain maent yn gwybod amdanynt ac yn ymddiried ynddynt, ac nad ydynt yn fodlon – neu nid oes ganddynt ddigon o wybodaeth leol – i gynnig cyfleoedd i bobl/cwmnïau sy'n gwneud yr un fath y tu allan i ardal yr M25.

- 4.43 Ar ben hynny, nodwyd hefyd mewn rhai achosion ei bod yn anodd cyrraedd y trothwyon gwariant sylfaenol ar gyfer y meini prawf cyllideb a thalent, dim ond oherwydd bod comisiynwyr yn rhoi pwysau ar gynhyrchwyr i ddefnyddio talent sydd yn Llundain. Roedd rhanddeiliaid sydd wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn teimlo'n gyffredinol bod y rheolaeth barhaus gan Lundain, a'r defnydd o adnoddau yn Llundain, yn rhwystro'r gwaith o ddatblygu ecolegau cynhyrchu o'r dechrau i'r diwedd y tu allan i Lundain, yn cyfyngu ar ddatblygu gyrfaedd talent leol, ac yn effeithio ar allu canolfannau cynhyrchu o'r fath i fod yn gynaliadwy.
- 4.44 Yn gysylltiedig â'r ffaith bod Llundain yn cael ei gweld fel y prif le, dywedodd rhanddeiliaid yn y gwledydd a'r rhanbarthau mai hyn a hyn o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael i weithwyr llawrydd y tu allan i Lundain. Dadl rhanddeiliaid, fel yr Indie Club, oedd bod llai o gyfleoedd i ymuno â byd teledu y tu allan i Lundain a bod gan y rheini sy'n gweithio'n rhanbarthol lai o gyfleoedd i ddatblygu CV amrywiol, oherwydd y duedd i ddefnyddio talent ddibynadwy o Lundain, yn enwedig mewn rolau uwch. Maent yn awgrymu bod hyn yn arwain at ddihysbyddu talent o'r ardaloedd rhanbarthol, gan fod pobl yn credu bod angen symud i Lundain er mwyn datblygu gyrfa. Gall hyn hefyd arwain at eithrio'r rheini o gefndiroedd llai cefnog rhag mynd yn eu blaenau os nad ydynt yn gallu fforddio symud i Lundain. O ganlyniad, dywedwyd y gallai llai o gyfleoedd y tu allan i'r M25 arwain at ystod dalent lai amrywiol yn ddaearyddol sy'n gwneud rhaglenni yn y DU, a gallai hyn wedyn gael effaith niweidiol hefyd ar amrywiaeth y lleisiau golygyddol ar y sgrin.
- 4.45 Mae sawl un sydd wedi ymateb wedi galw am i ddarlledwyr wneud rhywbeth ynghylch hyn. Mae rhai o'r awgrymiadau ar gyfer sut y gallai darlledwyr greu cyfleoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn cynnwys mynnu bod prosiectau yn cael eu ffilmio a'u gorffen yn lleol, a buddsoddi mwy mewn talent leol, yn enwedig ar lefelau uwch.
- 4.46 Fodd bynnag, wrth i ni drafod gyda rhanddeiliaid, mae'n amlwg bod amrywiaeth barn yn y maes hwn. Mae rhanddeiliaid, gan gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a rhai cynhyrchwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau, yn credu bod lle i Lundain chwarae rôl o hyd mewn cynyrchiadau rhanbarthol. Mae cynhyrchwyr rhanbarthol yn dal i holi a yw'r sylfaen sgiliau a'r opsiynau ôl-gynhyrchu yn bodoli ar hyn o bryd i gynnig yr hyn a wna Llundain, heb i hynny wanhau ansawdd y rhaglenni. Mae'r darlun yn amrywio'n fawr iawn yn ôl genre, rôl a'r ardal ddaearyddol.
- 4.47 Ar gyfer y rhanddeiliaid hynny sy'n pryderu am faint cyfranogiad Llundain mewn cynyrchiadau rhanbarthol, cafwyd awgrymiadau amrywiol ynghylch sut byddai modd lleihau dylanwad y ddinas. Roedd rhai rhanddeiliaid wedi argymhell ein bod yn gwneud y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol yn orfodol naill ai fel un o'r ddau faen prawf angenrheidiol, neu drwy fynnu bod cynhyrchwyr yn bodloni'r tri maen prawf, i atal

cwmnïau heb bresenoldeb y tu allan i Lundain rhag bod yn gymwys. Roedd eraill yn awgrymu gwneud newidiadau i lefelau'r meini prawf. Roedd y rhain yn cynnwys: cynyddu'r lefel 50% talent oddi ar y sgrin i fynd i'r afael ag unrhyw orddibyniaeth ar dalent o Lundain; a gwneud newidiadau i'r lefel gwariant 70% i annog rhagor o'r broses gynhyrchu, fel y gwaith ôl-gynhyrchu, i ddigwydd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

- 4.48 Roedd Pact yn awgrymu ar gyfer cynyrchiadau nad ydynt yn bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol, mai dim ond 70% o gost y cynhyrchiad ddylai fynd tuag at y cwota gwariant, yn hytrach na'r gost gyfan. Yn y cyfamser, cynigiodd Llywodraeth yr Alban, mewn achosion lle nad yw'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol yn cael ei fodloni, y dylai'r cynyrchiadau fodloni trothwyon meini prawf talent a chyllideb uwch. Cafwyd awgrym hefyd gan yr Indie Club i ddisodli'r meini prawf presennol gyda system sy'n canolbwyntio ar y gwaith cyn-gynhyrchu ac ôl-gynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, i helpu i sicrhau canolfannau cynhyrchu cynaliadwy sy'n annibynnol ar Lundain.
- 4.49 Rydym o'r farn fod Llundain yn gallu chwarae rôl gadarnhaol iawn mewn cynyrchiadau rhanbarthol, er enghraifft drwy ddarparu adnoddau nad ydynt ar gael yn lleol e.e. effeithiau gweledol. Wrth ganiatáu i gwmnïau sydd wedi'u lleoli yn Llundain wneud cynyrchiadau rhanbarthol (yn ogystal â chaniatáu cwmnïau sydd wedi'u lleoli yn y gwledydd a'r rhanbarthau i wneud cynyrchiadau mewn lleoliadau eraill ar draws y DU), dylai hyn hybu cystadleuaeth iach a chynnig allbwn mwy amrywiol i wylwyr, yn ogystal â galluogi cynyrchiadau i gael eu gwneud mewn ardaloedd lle nad oes cymaint o dalent a chyfleusterau lleol ar gael.
- 4.50 Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli pam mae gan rai rhanddeiliaid bryderon am rôl Llundain. Mae'n bwysig bod canolfannau cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn gallu manteisio ar adnoddau yn Llundain lle bo angen, ond byddai'n ddymunol hefyd wrth gwrs eu bod yn gallu sefyll ar eu traed eu hunain hefyd a gweithio'n annibynnol ar Lundain. Rydym o'r farn y dylid canolbwyntio mwy ar sut gallwn sicrhau bod y canolfannau cynhyrchu rhanbarthol yn ecolegau cynhyrchu o'r dechrau i'r diwedd sy'n gwbl weithredol, ac ar rôl talentau lleol a'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel comisiynwyr o ran cyflawni hyn.
- 4.51 Rydym yn cydnabod bod amrywiol fentrau diwydiant ar waith yn y gwledydd a'r rhanbarthau erbyn hyn sy'n ceisio gwneud cynnydd yn y maes hwn. Ond, rydym o'r farn bod lle i ragor o weithredu gan y darlledwyr i ennyn newid tymor hwy yn gyflymach, a byddem yn eu hannog i ystyried hyn wrth gynllunio eu strategaethau ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol ac unrhyw gynlluniau hyfforddiant. Er mwyn helpu i hwyluso eu cynllunio ac i feincnodi cynnydd hyd yma, rydym yn bwriadu comisiynu arolwg yn y maes hwn. Rydym yn manylu mwy ar hyn yn Adran 5.

Neilltuo teitlau

- 4.52 Mae'r Canllawiau'n mynnu bod pob cynhyrchiad rhanbarthol yn cael ei neilltuo i naill ai Gymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, i un o'r tri isranbarth yn Lloegr⁷³, neu fel 'sawl-gwlad/rhanbarth', a bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflwyno'r data i Ofcom. Gan fod y rhan fwyaf o gynyrchiadau yn bodloni'r tri maen prawf, mae teitlau'n cael eu neilltuo yn bennaf ar sail lle mae'r rhan fwyaf o'r meini prawf yn cael eu bodloni.⁷⁴ Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i fonitro'r ystod o ganolfannau cynhyrchu mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu defnyddio ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol, ac yn achos y BBC a Channel 4, i asesu cydymffurfriad â'u dyletswyddau cynhyrchu ar gyfer gwledydd hefyd. Yn y Cais am Dystiolaeth, fe wnaethom ofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid am y broses o neilltuo cynyrchiadau.
- 4.53 Er na chawsom lawer iawn o ymateb i'r pwnc hwn, fe wnaeth y rheini a gyflwynodd sylwadau am hyn gydnabod bod gofyn i deitlau gael eu neilltuo i un ardal o'r DU yn unig yn annhebygol o adlewyrchu go iawn sut cafodd y rhaglen ei gwneud. Cafwyd ychydig o awgrymiadau am ddulliau eraill, er bod pobl yn cydnabod y gallai hyn wneud y broses yn fwy cymhleth ac yn rhy feichus.
- 4.54 Roedd nifer fach o ymatebwyr wedi cyflwyno sylwadau hefyd ar y broses o neilltuo cynyrchiadau fel cynyrchiadau 'sawl-gwlad/rhanbarth'.⁷⁵ Awgrymodd STV nad yw'r categori 'sawl-gwlad/rhanbarth' yn dryloyw iawn, ac y dylid neilltuo'r teitlau hyn yn ôl lle mae'r rhan fwyaf o'r maen prawf gwariant yn cael ei fodloni. Dywedodd y BBC fod y categori 'sawl-gwlad/rhanbarth' yn golygu bod rhai teitlau ar gael sy'n cyfrannu at ei gwtâu cyffredinol ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol ond nad ydynt wedyn yn cael eu cynnwys yn unrhyw un o'i gwtâu penodol ar gyfer y gwledydd, yn enwedig ei gwota ar gyfer rhanbarthau Lloegr a ddaeth i rym yn 2018. Awgrymodd ar gyfer cynyrchiadau o sawl un o ranbarthau Lloegr y dylai'r rhain gael eu neilltuo i isranbarth penodol yn Lloegr, ar sail lle cafodd y rhan fwyaf o'r gwariant ar gynyrchiadau ei wneud. Fel hyn, byddai'r BBC yn gallu cyfrif y teitlau hyn tuag at y cwota perthnasol.
- 4.55 Gan ddefnyddio'r un rhesymeg, mae'n bosib hefyd nad yw rhai o deitlau gwledydd Channel 4 yn cael eu cynnwys ar hyn o bryd yn ei gwota y tu allan i Loegr oherwydd nad yw'r categori sawl-gwlad/rhanbarth sy'n bodoli'n barod yn gwahaniaethu rhwng cynyrchiadau sydd ag elfen Lloegr a'r rheini heb yr elfen honno.
- 4.56 Mae'r ffordd mae'r data yn cael ei gyflwyno i ni weithiau yn dangos bod y broses neilltuo'n gallu peri dryswch a chael ei dehongli mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, dim ond o dan amgylchiadau lle nad yw cynhyrchiad wedi bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan

⁷³ Mae'r isranbarthau'n cynnwys rhanbarthau'r llywodraeth, sef Swydd Efrog a Humber, Gogledd-orllewin a Gogledd-ddwyrain Lloegr; Gorllewin Canolbarth Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr a Dwyrain Lloegr, De-orllewin a De-ddwyrain Lloegr.

⁷⁴ Darllenwch baragraffau 7 a 8 yn y Canllawiau presennol i gael rhagor o fanylion am y broses neilltuo.

⁷⁵ Mae hyn yn digwydd pan fydd cynhyrchydd o Lundain (heb ganolfan sylweddol yn y gwledydd a rhanbarthau), yn gwneud rhaglen lle nad yw'r meini prawf ar gyfer cyllideb a thalent oddi ar y sgrin yn cael eu bodloni mewn un wlad neu isranbarth.

sylweddol a heb fodloni'r meini prawf ar gyfer cyllideb neu dalent oddi ar y sgrin mewn un wlad neu isranbarth y gellir defnyddio'r categori neilltuo 'sawl-gwlad/rhanbarth'. Ond, rydym wedi nodi achosion lle mae teitlau'n cael eu neilltuo fel rhai 'sawl-gwlad/rhanbarth' a oedd wedi bodloni'r maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol ac a ddylai, felly, gael eu neilltuo yn ôl lleoliad y ganolfan sylweddol. Nid yw'r Canllawiau'n dweud ychwaith sut dylid neilltuo teitlau o dan amgylchiadau lle mae'r tri maen prawf yn cael eu bodloni'n llwyr mewn gwahanol wledydd neu isranbarthau, neu mae dau o'r tri maen prawf wedi cael eu bodloni'n llwyr mewn gwahanol wledydd neu isranbarthau. Felly nid oes mwyafrif yn sail ar gyfer y neilltuo.

- 4.57 Rydym o'r farn bod angen egluro mwy ar hyn. Rydym yn meddwl bod achos dros ddiwygio'r broses o neilltuo teitlau 'sawl-gwlad/rhanbarth' i sicrhau bod darlledwyr fel y BBC a Channel 4 yn gallu cynnwys pob teitl perthnasol yn eu cwotâu gwledydd. Rydym yn esbonio ein cynigion yn Adran 5.

Prosesau cydymffurfio a gorfodi

Casglu data ac adrodd yn ôl gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

- 4.58 Mewn ymateb i'r Cais am Dystiolaeth ac yn ystod y trafodaethau yn y gweithdy, dywedodd rhai rhanddeiliaid fod dryswch weithiau ynghylch pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod cynrychiadau sy'n cael eu cynnwys yn y cwotâu ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol yn cael eu gwneud yn unol â'r Canllawiau.
- 4.59 Fel sy'n cael ei egluro yn y Cais am Dystiolaeth, y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded, ac am ddarparu data cywir i Ofcom er mwyn dangos eu bod yn eu cydymffurfio. Rydym yn sylweddoli mewn nifer o achosion fod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dibynnu ar wybodaeth sy'n cael ei darparu gan drydydd partion er mwyn sicrhau bod cynrychiadau'n bodloni diffiniad o gynhyrchiad rhanbarthol. Ond, wrth drafod â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, mae wedi dod yn amlwg nad ydynt wedi gofyn fel rheol am dystiolaeth ategol am sut mae'r meini prawf sy'n diffinio cynhyrchiad rhanbarthol wedi cael eu bodloni. Yn hytrach, maent wedi dibynnu ar drefniadau contract gyda chynhyrchwyr fel procsi ar gyfer dystiolaeth bod cynrychiadau'n cael eu gwneud yn unol â'r meini prawf. Mae hyn, yn ei dro, fel petai wedi arwain at sefyllfa lle nad yw nifer o gwmnïau cynhyrchu yn cadw gwybodaeth sy'n dangos sut mae'r cynhyrchiad wedi bodloni'r meini prawf.
- 4.60 Os nad yw'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gwybod sut mae'r cynrychiadau wedi bodloni'r meini prawf, mae'n anodd gweld sut mae modd iddynt wybod a yw'r rhaglenni yn bodloni diffiniad o gynhyrchiad rhanbarthol go iawn, ac yn cyfrannu felly at fwriad y polisi, cyn i'r rhain gael eu cyflwyno i Ofcom i gael eu cynnwys yn y cwotâu. Rydym yn nodi bod Channel 4 wedi rhoi gwybod i ni ei fod yn comisiynu corff allanol i gynnal archwiliadau ar deitlau pan na fydd yn siŵr a yw'r meini prawf wedi cael eu bodloni'n briodol. Nid yw'n glir a yw darlledwyr eraill yn gwneud rhywbeth tebyg.

- 4.61 Efallai bod diffyg goruchwyliaeth gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyfrannu at greu sefyllfa lle nad yw'r cwmnïau cynhyrchu wedi bod yn gyson o ran bodloni'r meini prawf, ac mae hyn efallai'n egluro rhai o'r enghreifftiau a nodwyd yn gynharach lle nad yw'r meini prawf wedi cael eu bodloni'n briodol. Felly, rydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol i ni ddweud eto mai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n gyfrifol am sicrhau bod cynrychiadau sy'n cael eu cynnwys yn y cwotâu yn bodloni diffiniad o gynhyrchiad rhanbarthol.
- 4.62 Mae ein profiad o ddadansoddi data gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ystod yr adolygiad hwn, ynghyd â'r anhawster i gael gafael ar wybodaeth ychwanegol am deitlau penodol sydd ar y Gofrestr (nid yw hyn wedi bod ar gael bob amser gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus na chyflenwyr y rhaglenni), ynghyd â thystiolaeth anecdotaidd am y ffordd mae meini prawf yn cael eu rhoi ar waith weithiau, wedi ein darbwyllio bod yn rhaid i Ofcom ofyn am swm cymesur o ddata ychwanegol gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel rhan o'u proses adrodd yn ôl flynyddol. Rydym yn manylu mwy ar hyn yn Adran 5.
- 4.63 Rydym yn nodi bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi mynd ati ar y cyd yn ddiweddar i gyhoeddi eu cyngor eu hunain ar arferion gorau a fydd, yn eu barn nhw, yn helpu cynhyrchwyr i gyflawni cynrychiadau yn unol â Chanllawiau Ofcom. Rydym yn deall eu bod wedi gwneud hynny mewn ymateb i ymholiadau gan gyflenwyr ynghylch y data newydd rydym ni wedi gofyn iddynt eu casglu.

Cyhoeddiadau Ofcom

- 4.64 Mae Ofcom yn cyhoeddi pecyn cydymffurfio ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus bob blwyddyn sy'n nodi, ymysg pethau eraill, a yw'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dweud eu bod wedi bodloni eu cwotâu ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol. Ers 2010, rydym hefyd wedi cyhoeddi'r Gofrestr sy'n rhestru'r holl raglenni mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi dweud eu bod yn rhan o'u cwotâu ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol.⁷⁶ Mae'r Gofrestr yn cynnwys gwybodaeth am ba un o'r tri maen prawf y llwyddodd y cynrychiadau i'w bodloni, cyflenwr y rhaglen, ac ardal ddaearyddol mae wedi cael ei neilltuo iddi.
- 4.65 Mae adborth gan randdeiliaid yn dangos bod y Gofrestr yn cael ei hystyried yn adnodd defnyddiol ar y cyfan, sy'n cynnig mwy o dryloywder ynghylch sut mae'r cwotâu'n cael eu cyflawni. Fodd bynnag, y safbwynt yn gyffredinol oedd bod modd gwella hyn drwy gynnwys gwybodaeth fanylach er enghraifft, sut mae rolau gweithredol a thalent uwch allweddol yn cael eu llenwi, nifer yr oriau/penodau sy'n cael eu ei ffilmio ym mhob gwlad a rhanbarth, a mwy o wybodaeth ariannol. Awgrymodd Tern TV y dylid cyhoeddi'r data yn nes at yr amser mae'r rhaglenni yn cael eu darlledu, ac roedd Pwyllgor Cynghori Ofcom Gogledd Iwerddon yn cefnogi diweddarau'r ffigurau'n fwy rheolaidd. Argymhellodd Pact y dylid cynnig dadansoddiad mwy manwl o'r data a ddarperir.

⁷⁶[Cofrestr Ofcom o deitlau rhaglenni wedi'u gwneud y tu allan i Lundain, 2017.](#)

- 4.66 Yn benodol, cynigodd y BBC y dylai darlledwyr orfod casglu mwy o ddata manwl gan gwmnïau cynhyrchu er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio a chyflwyno rhagor o wybodaeth i Ofcom. Roedd o'r farn hefyd y dylai Ofcom ddarparu adroddiadau mwy manwl, gan labelu'r meini prawf yn gliriach a chaniatáu i bobl gwestiynu'r data yn rhwyddach. Ychwanegodd Channel 4 ei fod yn awyddus i barhau â'r drafodaeth gydag Ofcom a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill ynghylch sut gellid gwella'r wybodaeth a ddarperir, i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng bod yn dryloyw a sicrhau hyder yn y system, gan ystyried data masnachol a chyfrinachol – heb greu gofynion afresymol. Roedd ITV o'r farn y dylai gwelliannau o ran tryloywder fod yn seiliedig ar wybodaeth sydd eisoes wedi'i darparu ac na ddylid cynyddu'r gofynion adrodd yn ôl.
- 4.67 Rydym yn cydnabod nad yw'r data rydym yn eu cyhoeddi ar hyn o bryd yn rhoi cyfle i ddarllenwyr weld yn fanwl sut mae rhaglen yn gymwys i fod yn gynhyrchiad rhanbarthol. Y rheswm am hyn yw bod y data y gofynnwyd amdanynt gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus tan fis Rhagfyr 2017 ond yn dangos os yw cynrychiadau wedi bodloni maen prawf, ac nid *sut* mae hyn wedi cael ei gyflawni. Cafodd y dull adrodd yn ôl hyd yma ei lunio i leihau'r baich gweinyddol sydd ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r cwmnïau cynhyrchu sy'n gweithio ar gomisiynau cynrychiadau rhanbarthol. Ond, wrth ystyried y darlun uchod, rydym yn credu ei bod yn bwysig gwneud rhai newidiadau ynghylch sut y caiff hyn a'r data newydd byddwn yn gofyn amdanynt eu cyflwyno yn gyhoeddus. Mae manylion ein cynigion llawn yn y maes hwn i'w gweld yn Adran 5.

Prosesau cwyno a monitro

- 4.68 Cafwyd sylwadau gan nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Channel 4, Pact a Phwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Materion Allanol Senedd yr Alban⁷⁷ am y ffaith nad oes gan Ofcom broses clir ar gyfer cyflwyno ac olrhain cwynion am gynrychiadau rhanbarthol. Wrth ystyried yr amrywiol dystiolaeth anecdotaidd gan randdeiliaid am y meini prawf sydd ddim yn cael eu bodloni'n briodol mewn ymateb i'r Cais am Dystiolaeth, mae'n bosib bod y rheswm dros y nifer gyfyngedig o ymholiadau a ddaeth i law am deitlau wedi'u cynnwys ar y Gofrestr yn hanesyddol yn deillio, yn rhannol, o'r ffaith nad yw'n glir sut mae mynegi pryderon o'r fath. Pan rydym wedi cael ymholiadau, rydym wedi delio â'r rhain fesul achos. Rydym yn cydnabod bod diffyg proses glir i adrodd am ein hasesiad o ymholiadau o'r fath wedi achosi i rai rhanddeiliaid deimlo'n rhwystredig, a bod hyn wedi cyfrannu at y ffaith nad oes cymaint o ymddiriedaeth yn y drefn drwyddi draw.
- 4.69 Mae rhai rhanddeiliaid wedi dweud eu bod yn dymuno gweld y Canllawiau'n nodi proses gwyno clir. Awgrymodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Materion Allanol Senedd yr Alban a Llywodraeth yr Alban y dylai Ofcom chwarae rhan fwy rhagweithiol wrth fonitro a yw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn

⁷⁷ Newidiodd enw'r Pwyllgor o Bwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Chysylltiadau Allanol i Bwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Materion Allanol ar 6 Medi 2018. O'r herwydd, mae ei ymateb ar ein gwefan wedi'i gyhoeddi o dan ei enw blaenorol.

cydymffurfio drwy gynnal archwiliadau rheolaidd yn y fan a'r lle ar y teitlau sy'n cael eu cyflwyno.

- 4.70 Rydym yn bwriadu newid y ffordd rydym yn monitro cydymffurfiaeth a delio â chwynion ac ymholiadau gan randdeiliaid. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn Adran 5.

Rhaglenni rhanbarthol

- 4.71 Yn y Cais am Dystiolaeth, fe wnaethom ddweud y byddai'r adolygiad hwn yn gwyro mwy tuag at agweddau cynrychiadau rhanbarthol y Canllawiau, yn hytrach na'r elfennau rhaglenni rhanbarthol, gan mai dyma lle mae'r mwyafrif o newidiadau yn digwydd yn y sector a dyna oedd y rhan fwyaf o sylwadau rhanddeiliaid yn canolbwyntio arno. Fe wnaethom ofyn i randdeiliaid am eu safbwyntiau ynghylch rhaglenni rhanbarthol i weld a oedd achos dros edrych yn fanylach ar yr elfen hon.
- 4.72 Yn gyffredinol, ychydig iawn o adborth a gawsom ar y pwnc a dim ond nifer fach o randdeiliaid oedd â barn am y maes hwn. Roedd Directors UK yn teimlo y gellid gwneud mwy i sicrhau bod talentau cynhyrchu lleol, yn enwedig awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr, yn gwneud rhaglenni rhanbarthol. Awgrymodd y gellid ychwanegu pedwerydd maen prawf at y meini prawf ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol (sy'n cael eu defnyddio hefyd i benderfynu a gafodd y rhaglenni rhanbarthol eu gwneud yn yr ardal berthnasol) i ddangos a yw'r rolau hyn wedi cael eu llenwi'n lleol. Rydym yn amlinellu ein barn ni am y maen prawf ar gyfer talentau oddi ar y sgrin yn Adran 5.
- 4.73 Mae ein diffiniad o raglen ranbarthol yn dweud y dylai rhaglenni rhanbarthol *“ddelio â phynciau sydd o ddiddordeb penodol i'r rhanbarth ac sydd o lai o ddiddordeb mewn llefydd eraill”*.⁷⁸ Roedd STV yn cwestiynu a yw mynnu bod y rhaglenni “o lai o ddiddordeb” yn dal yn briodol, gan ei bod yn anodd profi hyn, ac mewn oes lle mae pobl yn cael eu hystyried yn ‘ddinasyddion byd-eang’, ni ddylem fod â phynciau sydd ‘o lai o ddiddordeb’ i rai nag eraill. Er ein bod ni'n cytuno bod cynulleidfaoedd yn awyddus i gael ystod lawer mwy o newyddion a gwybodaeth yn y farchnad sydd ohoni, a'i bod yn bosib y byddent yn dal i fod â diddordeb mewn gwybod mwy am bynciau o ddiddordeb penodol i ardal y tu allan i'w hardal eu hunain, rydym o'r farn y byddai pynciau o'r fath yn dal yn 'llai' o ddiddordeb i'r gwylwyr hyn na'r rheini sy'n byw yn yr ardal honno mewn gwirionedd. O'r herwydd, rydym o'r farn bod hon yn dal yn un o nodweddion pwysig rhaglen ranbarthol.
- 4.74 Roedd un unigolyn a ymatebodd yn holi a oedd prosesau monitro a gorfodi Ofcom yn ddigonol ac ystyried eu bod yn credu bod newyddion rhanbarthol ITV yn canolbwyntio gormod ar faterion cenedlaethol, yn hytrach na phynciau sy'n benodol i'w hardal leol. Er nad ydym yn monitro cynnwys penodol pob rhaglen unigol ac mai'r darlledwyr perthnasol sy'n gyfrifol am roi sylw i'r Canllawiau a'r diffiniad o raglen ranbarthol, rydym yn monitro

⁷⁸ Y Canllawiau, paragraff 14.1

barn cynulleidfaoedd am y maes hwn fel rhan o'n hymchwil flynyddol ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.⁷⁹

- 4.75 Yn olaf, dywedodd rhai rhanddeiliaid eu bod o'r farn nad oes angen newid yr elfen hon yn y Canllawiau. Mae ITV o'r farn bod y meini prawf yn ddigonol ac nad oes angen newidiadau. Dywedodd y BBC ei fod yn credu nad oedd angen adolygu mwy ar y rhan hon o'r Canllawiau ar hyn o bryd, a dywedodd Pwyllgor Cyngori Cymru, Ofcom nad oedd yn ymwybodol o unrhyw faterion yn y maes sydd angen sylw.
- 4.76 Gan ystyried yr uchod, a'r diffyg awydd am newid sylweddol yn y rhan hon o'r Canllawiau, rydym wedi penderfynu peidio â chynnig unrhyw newidiadau penodol i'r diffiniadau o raglenni rhanbarthol.
- 4.77 Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, ers i'r meini prawf ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol gael eu defnyddio i benderfynu a yw'r rhaglenni rhanbarthol wedi cael eu gwneud yn yr ardal berthnasol, y byddai unrhyw newidiadau rydym yn eu cynnig i'r meini prawf yn cael effaith ar raglenni rhanbarthol. Ar ben hynny, rydym yn credu bod angen i ni wneud mân newidiadau i'r testun yn yr adran hon o'r Canllawiau i adlewyrchu'r drefn reoleiddio newydd ar gyfer y BBC. Mae esboniad pellach am y meysydd sydd i'w newid yn Adran 5.

⁷⁹ Mae hyn yn cael ei gyflwyno yn arolwg blynyddol Ofcom ar dracio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, sy'n gofyn i gynulleidfaoedd am agweddau, bodlonrwydd â'r ddarpariaeth a phwysigrwydd nodweddion sy'n gysylltiedig â darpariaeth darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. Mae'r tablau data diweddaraf yn cael eu cyhoeddi [ar y wefan](#).

5. Cynigion yr Adolygiad

Cyflwyniad

- 5.1 Mae'r adran hon yn nodi ein cynigion ar gyfer newidiadau i'r Canllawiau a'r drefn yn fwy cyffredinol, ac yn egluro pam rydym ni o'r farn bod y rhain yn briodol. Wrth lunio'r cynigion hyn, rydym wedi ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid a'n dadansoddiad ein hunain o'r system bresennol. Rydym hefyd wedi ystyried, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael hyd yma, effaith bosib y cynigion ar y rhanddeiliaid perthnasol.
- 5.2 Gan gofio adborth y rhan fwyaf o randdeiliaid nad oes angen i ni ailddylunio'r system ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn llwyr, mae'r newidiadau rydym ni'n eu cynnig yn canolbwyntio ar sut y gallwn sicrhau bod y drefn yn fwy trylwyr ac atebol er mwyn gofalu ei bod yn cyflawni bwriad y polisi yn fwy effeithiol.
- 5.3 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar ein cynigion ar gyfer ymgynghoriad yn unig. Rydym yn cyflwyno rhagor o wybodaeth a dadansoddiad ynghylch opsiynau newid y gwnaethom eu hystyried cyn eu rhoi i'r naill ochr, yn Atodiad 6.
- 5.4 Mae'r newidiadau rydym ni'n eu cynnig yn rhannu'n ddwy adran – y Canllawiau eu hunain yn gyntaf, a'r drefn reoleiddio sy'n gysylltiedig â'r Canllawiau yn ail.

Newidiadau a gynigir i'r Canllawiau

- 5.5 Mae'r enghreifftiau yn Adran 4, lle mae'r meini prawf wedi'u rhoi ar waith yn anghywir neu mewn ffordd sy'n dechnegol gywir ond ddim yn cyflawni bwriad y polisi, yn dangos nad yw'r Canllawiau bob amser yn gweithio fel y dylent. Felly, rydym ni o'r farn bod angen newid y Canllawiau rhywfaint er mwyn iddynt fod yn fwy effeithiol. Mae'r holl newidiadau hyn yn canolbwyntio ar sicrhau bod y Canllawiau yn cyflawni amcan gwreiddiol y polisi yn well, yn hytrach na chyflwyno amcanion newydd. Mae angen i ni hefyd egluro rhai o'r materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi gan randdeiliaid am y Canllawiau, ochr yn ochr â gwneud rhai mân newidiadau i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â threfniadau rheoleiddio newydd Ofcom ar gyfer y BBC.
- 5.6 Y bwriad yw y dylai'r newidiadau hyn ddangos yn glir i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchwyr sut mae bodloni pob maen prawf yn briodol, er mwyn creu cynhyrchiad sy'n gymwys i gael ei gynnwys yn y cwtâu ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol.
- 5.7 Mae Atodiad 7 yn fersiwn ddrafft o'r Canllawiau, sy'n dangos sut byddai newidiadau i'r ddogfen yn cael eu hadlewyrchu petai'r cynigion drafft yn cael eu cyflwyno.

Nodyn i'n hatgoffa o fwriad y polisi

- 5.8 Yn gyntaf, rydym yn cynnig dweud yn glir ar ddechrau'r ddogfen Canllawiau beth yw bwriad polisi y dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol. Nod y dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol yw cefnogi a chryfhau'r sector cynhyrchu y tu allan i Lundain. Fodd bynnag, dydy'r esboniad hwn ddim yn cael lle amlwg yn y Canllawiau presennol.

- 5.9 Wrth egluro ar ddechrau'r ddogfen y dylid edrych ar y Canllawiau o safbwynt amcan y polisi, dylai hynny helpu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r cwmnïau cynhyrchu i ddehongli'r meini prawf pan fyddant yn cael trafferth penderfynu a yw'r ffordd maent yn bwriadu mynd ati i fodloni'r meini prawf yn briodol ai peidio.
- 5.10 Gan fod y newid hwn a gynigir yn ceisio gwneud amcan y dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol yn fwy penodol, a helpu rhanddeiliaid i roi'r Canllawiau ar waith, nid ydym o'r farn y bydd hyn yn cael unrhyw effaith niweidiol neu anfanteisiol ar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus na'r cwmnïau cynhyrchu.

C1) Ydych chi'n cytuno â'r newid rydym ni'n ei gynnig i gyfleu bwriad y dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol ar ddechrau'r Canllawiau? (Darllenwch y geiriad yn Atodiad 7).

Newidiadau i'r meini prawf

- 5.11 Bwriad y newidiadau rydym ni'n cynnig eu gwneud i'r meini prawf yw cynnig mwy o eglurder ynghylch sut dylent gael eu dehongli, a beth yw ein disgwyliadau ar gyfer pob un. Rydym ni o'r farn bod y rhain yn angenrheidiol ac yn deg er mwyn sicrhau bod amcan cyffredinol y polisi yn cael ei gyflawni mewn ffordd fwy cyson, ni waeth a yw hyn yn gwneud y meini prawf yn llai hyblyg.
- 5.12 Er mwyn cael cydbwysedd rhwng yr angen i wneud pethau'n fwy eglur, hybu arferion da ac osgoi effaith negyddol ar hyblygrwydd, rydym hefyd yn cynnig cyflwyno atodiad i'r Canllawiau yn cynnwys nodiadau esboniadol ar gyfer pob maen prawf. Bydd y nodiadau hyn yn rhoi rhagor o fanylion am nodau pob maen prawf, ac yn rhoi enghreifftiau i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a rhanddeiliaid i'w helpu i'w dehongli wrth eu rhoi ar waith. Dylai'r nodiadau roi sylw i elfennau sy'n achosi dryswch a phryder, gan sicrhau bod y meini prawf yn dal yn ddigon hyblyg i gael eu dehongli fel sy'n gweddu i amgylchiadau unigol pob cynhyrchiad. Yn gyffredinol, rydym wedi ceisio egluro pam rydym ni'n credu bod hynny'n angenrheidiol, gan sicrhau bod y meini prawf yn dal yn gallu cael eu rhoi ar waith yn effeithiol mewn gwahanol amgylchiadau. Rydym hefyd yn nodi fod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi mynd ati ar y cyd yn ddiweddar i gyhoeddi eu cyngor eu hunain ar arferion gorau a fydd, yn eu barn nhw, yn helpu cynhyrchwyr i gyflawni cynyrchiadau yn unol â Chanllawiau Ofcom.

Canolfan sylweddol

Geiriad presennol y maen prawf

"Mae'n rhaid i'r cwmni cynhyrchu gael canolfan gynhyrchu a busnes sylweddol yn y DU y tu allan i'r M25. Bydd canolfan yn cael ei hystyried yn un sylweddol os mai dyma yw man gwaith arferol y swyddogion gweithredol sy'n rheoli'r busnes rhanbarthol, staff uwch sy'n ymwneud â'r cynhyrchiad dan sylw, a staff uwch sy'n ymwneud â'r gwaith o chwilio am raglenni i'w comisiynu."

- 5.13 O'r holl feini prawf, yr un sy'n ymwneud â'r ganolfan sylweddol sydd wedi denu'r mwyaf o alwadau am newid, am amryw o resymau. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y gallai diffiniadau manylach o rai termau, fel "man gwaith arferol" a "staff personél uwch" helpu i ddiffinio canolfan sylweddol yn gliriach, a helpu i sicrhau nad yw'r maen prawf yn cael ei roi ar waith yn anghywir neu i newid amcan y maen prawf e.e. rhwystro cwmnïau cynhyrchu o Lundain yn llwyr rhag bodloni'r maen prawf hwn, neu rhag bodloni'r diffiniad o gynhyrchiad rhanbarthol.
- 5.14 Mae ymatebion i'n Cais am Dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod y diffiniad o ganolfan sylweddol yn cael ei danseilio gan swyddfeydd "plac pres" a "swyddfeydd dros dro" sy'n honni eu bod yn ganolfannau sylweddol ac yn gymwys i gael eu cynnwys yn y cwota gan ddefnyddio'r maen prawf hwn, heb wneud cyfraniad cadarnhaol parhaus at y ganolfan gynhyrchu leol na'r economi greadigol ehangach a fyddai'n deillio o ganolfan sylweddol go iawn. Rydym hefyd wedi nodi rhai teitlau ar wahân sy'n awgrymu bod hynny'n digwydd.
- 5.15 Mae rhai rhanddeiliaid hefyd wedi gofyn am eglurhad pellach o wahanol agweddau ar y maen prawf ar gyfer canolfan sylweddol. Mae cwestiynau wedi codi ynghylch beth yw canolfan sylweddol (er enghraifft, a oes angen i'r ganolfan fod yn endid cyfreithiol penodol, neu sut dylid trin cyfrwng at ddibenion arbennig (SPV)⁸⁰), yn ogystal â sut dylid cyflawni tair elfen y maen prawf (er enghraifft, a oes angen i dri pherson ar wahân gyflawni pob elfen o'r maen prawf).
- 5.16 Wrth gynnig newidiadau i'r maen prawf, rydym wedi pwyso a mesur y materion uchod. Rydym yn cydnabod bod dros draean o'r oriau yn y gwledydd a'r rhanbarthau wedi dod gan gynhyrchwyr annibynnol sydd â'u pencadlys yn Llundain. Fodd bynnag, mae'r gyfran o oriau a gwariant gan gwmnïau heb unrhyw bresenoldeb y tu allan i'r M25 yn fach. Yn wir, cafodd 79% o'r oriau a gafodd eu gwneud gan gwmnïau allanol gyda phencadlys yn Llundain eu priodoli i swyddfa y tu allan i'r M25. Rydym yn cydnabod bod hyn, yn ei dro, yn gallu arwain at set arall o bryderon.
- 5.17 Rydym yn dal o'r farn y dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus allu defnyddio'r holl gynhyrchwyr yn y DU wrth gomisiynu cynrychiadau rhanbarthol. Nid ydym yn credu bod addasu'r maen prawf canolfan sylweddol er mwyn eithrio cynhyrchwyr yn Llundain, neu gwmnïau sydd â'u pencadlys yn Llundain, yn briodol nac yn gymesur. Fodd bynnag, mae'n dal yn hollbwysig bod cynhyrchwyr sy'n cynnwys swyddfa y tu allan i'r M25 tuag at y maen prawf canolfan sylweddol yn cyflawni holl elfennau'r maen prawf. Yn ein barn ni, mae'n ymddangos ei bod yn haws o lawer i gwmnïau a'u pencadlys yn y gwledydd a'r rhanbarthau ddangos mewn ffordd argyhoeddedig eu bod wedi cyflawni'r maen prawf canolfan sylweddol na chwmnïau y mae'r swyddfa'n is-swyddfa iddynt. Ni ddylai hynny ddigwydd.
- 5.18 Felly, rydym yn cynnig tri newid i'r maen prawf. Mae un yn newid sylweddol, gyda'r bwriad o gael gwared ar y defnydd o swyddfeydd dros dro, ynghyd â dau newid esboniadol er

⁸⁰ Cwmni wedi'i sefydlu ar gyfer prosiect penodol yw SPV, e.e. i gynhyrchu ffilm/rhaglen. Mae SPV yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynrychiadau mawr fel arfer, a dramâu yn arbennig. Mae'r 'cyfrwng' yn cadw'r gwaith cynhyrchu ar wahân i weithgareddau eraill y cwmni cynhyrchu, ac mae hynny'n gallu lleihau'r risgiau cyfreithiol.

mwyn helpu i sicrhau bod canolfan sylweddol wir yn ganolfan sylweddol. Yn gyntaf, rydym yn cynnig mynnu:

a) y dylai canolfan sylweddol fod yn weithredol cyn i'r comisiynu ddigwydd.

- 5.19 O ystyried bod y maen prawf eisoes yn mynnu y dylai canolfan sylweddol fod yn chwilio am waith comisiwn er mwyn bod yn gymwys, ein safbwynt ni yw bod y geiriad presennol eisoes yn awgrymu y dylai'r swyddfa fod yn weithredol cyn cael y comisiwn dan sylw. Felly, mae'r newid hwn yn datgan y safbwynt hwn yn gliriach.
- 5.20 Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gallai'r newid hwn newid cydbwysedd y cwmnïau sy'n cael eu comisiynu i wneud cynyrchiadau rhanbarthol, gan y gallai hyn gael effaith negyddol wrth rwystro cwmnïau sefydledig rhag mynd ati i sefydlu swyddfeydd dros dro neu rai newydd parhaol yn y gwledydd a'r rhanbarthau. O ran cwmnïau newydd a dibrofiad, byddem yn derbyn y gallai'r ganolfan sylweddol gynnar lle cafodd y comisiwn cychwynnol ei gyflwyno fod mor syml â swyddfa yn y cartref neu fwrdd y gegin. Ond ni fyddai hyn yn wir pan fyddai cwmnïau sefydledig yn awyddus i ehangu yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Os bydd hynny'n arwain at ganolfannau sylweddol sefydledig yn cael mwy o gomisiynau ar gyfer cynyrchiadau yn y gwledydd a'r rhanbarthau, rydym yn cydnabod y gallai hyn, yn ei dro, arwain at drefn â llai o ganolfannau sylweddol newydd ond sy'n cryfhau busnesau sy'n bodoli'n barod. Neu, gallai'r newid hwn gynyddu nifer y cynhyrchwyr sy'n cyflawni comisiynau rhanbarthol drwy fodloni'r meini prawf eraill ar gyfer y gyllideb cynhyrchu a thalentau oddi ar y sgrin yn lle hynny (cafodd 12% o'r gwariant ac 8% o'r oriau eu cyflawni felly yn 2017).
- 5.21 Byddai'r newid a gynigir yn cyfyngu rôl bosib darlledwyr wrth ddylanwadu ar y swyddfeydd newydd y mae cwmnïau sefydledig yn eu hagor yn y gwledydd a'r rhanbarthau pan fydd rhaglenni'n cael eu comisiynu. Gallai hefyd effeithio ar allu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gomisiynu cwmnïau cynhyrchu penodol mewn rhai ardaloedd os nad oes ganddynt ganolfan sylweddol yno yn barod, ac os nad yw'r cwmni'n gallu cyflawni'r ddau faen prawf arall yn yr ardal leol. Gallai hyn, yn ei dro, newid y ffordd mae darlledwyr yn penderfynu cyflawni eu cwotâu mewn rhai achosion.
- 5.22 Ni ddylai'r gofyniad hwn rwystro cwmnïau cynhyrchu na chyfyngau at ddibenion arbennig, sy'n defnyddio swyddfeydd newydd neu rai dros dro, rhag bod yn gymwys ar gyfer y cwotâu cynhyrchu rhanbarthol. Ond, byddai angen iddynt fodloni'r ddau faen prawf arall ar gyfer y comisiwn gwreiddiol. Os bydd cwmni'n dewis cadw'r swyddfa ar agor, byddai'n cael ei chynnwys o ran y maen prawf canolfan sylweddol ar gyfer y comisiwn nesaf, ar yr amod ei bod yn bodloni elfennau eraill y diffiniad.
- 5.23 Dylai mynnu bod canolfan sylweddol yn weithredol cyn i'r comisiynu ddigwydd helpu i rwystro swyddfeydd dros dro, a byddai hyn yn sicrhau felly y bydd yn rhaid i gynhyrchwyr, a fyddai wedi defnyddio'r arfer hwn fel arall, fodloni'r ddau faen prawf arall yn llwyr ar gyfer comisiynau yn y dyfodol. Dylai hefyd ennyn mwy o ffydd yn y diffiniad o'r maen prawf, ac annog darlledwyr i fabwysiadu safbwynt strategol mwy tymor hir o'r ffordd maent yn comisiynu yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Fodd bynnag, mae'n anodd dweud beth fyddai lefel unrhyw effaith negyddol bosib gan ei bod yn amhosib gwybod faint o

gynrychiadau rhanbarthol yn y dyfodol fydd wedi bodloni'r maen prawf hwn drwy sefydlu swyddfa adeg comisiynu, na maint neu werth y comisiynau hyn. Felly, rydym yn croesawu sylwadau rhanddeiliaid ar y pwynt hwn yn arbennig mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

- 5.24 I sicrhau ei bod yn gwbl amlwg pryd y daeth canolfan sylweddol yn weithredol, rydym yn cynnig ei gwneud yn orfodol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyflwyno data adrodd yn ôl ychwanegol (sy'n bodloni'r maen prawf canolfan sylweddol), yn nodi'r flwyddyn y cafodd y ganolfan sylweddol ei sefydlu.
- 5.25 Rydym hefyd yn cynnig newid geiriad y maen prawf er mwyn dangos yn glir:
- a) ei bod yn rhaid i'r cynhyrchiad dan sylw gael ei wneud yn y ganolfan sylweddol; ac
 - b) ei bod yn rhaid i holl elfennau'r maen prawf gael eu bodloni;
- 5.26 Rydym ni o'r farn y dylai ychwanegu'r eglurder ychwanegol hwn helpu rhanddeiliaid i ddeall sut mae bodloni'r maen prawf, sicrhau bod y maen prawf yn cael ei roi ar waith yn fwy cywir, a helpu i wneud yn siŵr bod y maen prawf yn cael ei gyflawni yn unol â'r bwriad. Mae unrhyw effeithiau anafanteisiol ar rhanddeiliaid, mewn perthynas â'r cynigion ym mhwynt 5.25, yn debygol o ddigwydd yn sgil defnyddio'r Canllawiau yn anghywir.
- 5.27 Yn y pen draw, dylai'r newidiadau hyn a gynigir helpu i sicrhau bod y maen prawf canolfan sylweddol bob amser yn arwain at gynhyrchiad sydd wir wedi cael ei wneud yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol parhaus at yr economi greadigol a'r ecoleg gynhyrchu yn lleol.
- 5.28 Rydym hefyd yn cynnig darparu rhywfaint o nodiadau esboniadol i roi sylw i'r cwestiynau penodol sy'n cael eu codi gan rhanddeiliaid. Mae'r nodiadau a gynigir ar gael yn Atodiad 7, ac yn ymdrin â'r canlynol:
- a) Faint o unigolion y mae angen eu cyflogi: nid ydym yn cynnig nodi nifer benodol o weithwyr er mwyn bodloni'r maen prawf canolfan sylweddol, oherwydd rydym ni o'r farn bod hyn yn debygol o amrywio yn ôl amgylchiadau penodol, fel maint y cwmni cynhyrchu a'r mathau o gynrychiadau sy'n cael eu gwneud.
 - b) A oes angen i'r ganolfan sylweddol fod yn gwmni cyfreithiol ei hun: nid ydym yn cynnig gwneud hynny'n ofynnol, gan ein bod o'r farn bod y strwythur corfforaethol y mae'r cwmni cynhyrchu yn ei fabwysiadu yn amherthnasol i'r ffordd mae'r maen prawf canolfan sylweddol yn cael ei roi ar waith
 - c) Pa swyddi sy'n gallu cael eu hystyried yn swyddi gweithredol ac yn uwch swyddi personél: nid ydym yn cynnig rhestru teitlau swyddi penodol a fyddai'n cael eu hystyried yn swyddi gweithredol neu'n uwch swyddi personél, gan ein bod o'r farn bod hyn yn debygol o amrywio yn ôl cyflogwr, yn ôl genre a dros amser. Fodd bynnag, rydym wedi cynnig rhywfaint o arweiniad ynghylch y math o rôl a fyddai'n debygol o gael ei hystyried yn swydd weithredol neu'n uwch swydd personél, ar sail cyfrifoldebau penodol y swydd.

- d) A ellir ystyried cyfryngau at ddibenion arbennig yn ganolfan sylweddol: rydym ni o'r farn mai'r hyn sy'n allweddol gyda chynhyrchiad sydd wedi'i wneud gan SPV yw gweld a yw'r SPV yn bodloni holl elfennau'r maen prawf canolfan sylweddol.
- e) Beth mae bod yn weithredol cyn i'r comisiynu ddigwydd yn ei olygu: rydym ni'n dweud ei bod yn debygol y bydd y cwmni wedi gwneud rhaglenni o'r ganolfan honno o'r blaen, ond rydym yn cydnabod na fydd hynny bob amser yn wir gyda chwmnïau newydd. Nid ydym yn cynnig pennu cyfnod sefydlu sylfaenol.
- 5.29 Y tu hwnt i'r cynigion hyn, nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau eraill na chynnig eglurhad ychwanegol i roi sylw i rai o'r pryderon mwy penodol mae rhanddeiliaid wedi'u mynegi ynghylch y maen prawf canolfan sylweddol, gan ein bod o'r farn y gallai hyn gyfyngu hyblygrwydd y maen prawf ac y gallai olygu bod y Canllawiau'n dyddio'n gyflym. Fodd bynnag, byddem yn falch o gael safbwyntiau gan rhanddeiliaid, wedi'u hategu gan dystiolaeth pan fydd yn bosib, ynghylch a ydynt yn credu bod angen eglurhad pellach.

C2) Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydym ni'n eu cynnig i'r maen prawf canolfan sylweddol (darllenwch y geiriad yn Atodiad 7)? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno dystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.

C3) Ydych chi'n cytuno â'r nodiadau esboniadol a awgrymwyd o ran y maen prawf canolfan sylweddol (darllenwch y geiriad yn Atodiad 7)? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno dystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.

Y gyllideb cynhyrchu

Geiriad presennol y maen prawf

"Mae'n rhaid gwario o leiaf 70% o'r gyllideb cynhyrchu (gan eithrio costau talentau ar y sgrin, deunydd o'r archif, hawliau chwaraeon, arian a roddir fel gwobrau mewn cystadlaethau a chostau hawlfraint) yn y DU y tu allan i'r M25."

- 5.30 Mae geiriad presennol y maen prawf hwn yn nodi costau sydd wedi'u heithrio o'r gyllideb cynhyrchu at ddibenion y trothwy gwariant sylfaenol o 70%. Fodd bynnag, ar sail ein trafodaethau â rhanddeiliaid, rydym yn derbyn bod costau eraill yn rhan o gynhyrchiad sy'n cael eu trin mewn ffordd wahanol gan wahanol gynhyrchwyr, ac mae rhai wedi gofyn am eglurhad. Mae'r rhain yn cynnwys eitemau fel teithio, gorbenion a ffioedd cynhyrchu. Pan fydd cyllid trydydd parti yn rhan o gynhyrchiad, mae rhywfaint o ddryswch hefyd ynghylch a ddylid rhoi'r maen prawf hwn ar waith ar gyfer y gyllideb cynhyrchu gyfan, neu dim ond y gyfran a ddarperir gan y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.
- 5.31 Rydym yn cynnig gwneud dau newid penodol i'r maen prawf hwn mewn ymateb i geisiadau rhanddeiliaid, er mwyn dangos yn glir beth ddylai gael ei gynnwys yn y gyllideb cynhyrchu. Mae hyn yn cynnwys newid geiriad y maen prawf er mwyn dangos yn glir:
- a) y dylai'r 70% gael ei osod yn erbyn y gyllideb cynhyrchu gyfan, gan gynnwys unrhyw gyllid gan drydydd partion; ac

- b) y dylai unrhyw ffi cynhyrchu gael ei heithrio o'r gyllideb cynhyrchu wrth ystyried a yw'r trothwy o 70% wedi cael ei fodloni.
- 5.32 O ran newid a), rydym yn disgwyl i ddarlledwyr a chwmnïau cynhyrchu roi'r maen prawf ar waith ar gyfer y gyllideb cynhyrchu gyfan (yn amodol ar yr eithriadau a nodwyd yn unig). Nid ydym o'r farn ei bod yn ymarferol gwahanu cyfraniad y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus wrth weld sut mae'r arian hwnnw wedi cael ei wario, ac rydym hefyd yn dymuno gwarchod rhag arferion cyfrifyddu creadigol. Hefyd, os byddai'r gyllideb cynhyrchu'n cael ei rhannu mewn ffordd artiffisial yn ôl cyfraniadau'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a chyfraniadau trydydd parti a bod y maen prawf ond yn cael ei roi ar waith ar gyfer gwariant damcaniaethol y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, gallai hyn arwain at wario cryn dipyn yn llai y tu allan i'r M25 ac ni fyddai'r cynhyrchiad yn cael cymaint o effaith gadarnhaol ar yr ecoleg gynhyrchu leol.
- 5.33 Rydym o'r farn y bydd defnyddio'r gyllideb gyfan i gyflawni'r maen prawf yn fuddiol i'r economïau creadigol ac i'r gwylwyr.⁸¹ Ar sail ein trafodaethau â rhanddeiliaid, mae'n edrych yn debyg bod y rhan fwyaf yn gwneud hyn yn barod, felly nid ydym yn disgwyl i'r cynnig hwn arwain at newid enfawr na chael effaith fawr. Ond bydd yn ddefnyddiol gwneud hyn yn amlwg er mwyn sicrhau cysondeb yn y dyfodol, yn enwedig gan fod y cyllid ar gyfer cynnwys o sawl ffynhonnell yn debygol o gynyddu.
- 5.34 O ran newid b) rydym ni o'r farn mai ffi cynhyrchu yw elfen elw cynhyrchiad, ac y dylai'r incwm hwn gael ei drin yn wahanol i wariant cynhyrchu rhaglenni. Ar sail yr hyn rydym ni wedi'i glywed, rydym yn sylweddoli bod cynhyrchwyr yn defnyddio'r ffi cynhyrchu mewn ffyrdd gwahanol. Felly, rydym ni o'r farn bod newid b) yn angenrheidiol er mwyn cael mwy o gysondeb o ran y ffordd mae'r maen prawf hwn yn cael ei roi ar waith, a dangos yn glir y dylai'r gyllideb cynhyrchu ganolbwyntio ar yr arian sy'n mynd allan o'r cwmni cynhyrchu er mwyn gwneud y rhaglen, yn hytrach nag arian yn dod i mewn. Os bydd y cynhyrchiad yn gwario mwy na'r gyllideb mewn rhai amgylchiadau a bod y cwmni cynhyrchu'n penderfynu defnyddio rhywfaint o'i ffi cynhyrchu i dalu am y costau hyn, byddai'n dderbyniol i wariant o'r fath gael ei ddynodi'n rhan ychwanegol o'r gyllideb cynhyrchu a chael ei gynnwys wrth gyfrifo'r 70%.
- 5.35 Mae'n anodd i ni wybod beth fydd effaith y cynnig hwn, gan nad ydym yn gwybod sut mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn trin y ffi cynhyrchu wrth gyfrifo a yw 70% o'r gyllideb cynhyrchu wedi cael ei gwario y tu allan i'r M25 erbyn hyn. Wrth geisio cael mwy o gysondeb, rydym yn ymwybodol y gallai'r cynnig arwain at ganlyniadau anfwriadol, ac nad ydym yn gwybod eto beth fydd y canlyniadau hynny. Felly, er ein bod yn bwriadu gwneud yr addasiad, byddem yn croesawu tystiolaeth gan randdeiliaid o effaith bosib y cynnig hwn.
- 5.36 Yn gyffredinol, nid ydym yn cynnig rhoi arweiniad penodol ynghylch a ddylai rhai costau gael eu cynnwys yn y gyllideb cynhyrchu at ddibenion cyfrifo'r trothwy 70% ai peidio, neu a

⁸¹ Er mai dim ond gwariant gan y darlledwr perthnasol fydd yn cael ei gynnwys ar gyfer y cwota, rydym yn cydnabod y bydd cyfanswm yr oriau yn cael eu cynnwys. Rydym ni o'r farn y bydd y gwylwyr yn elwa o'r arian ychwanegol (trydydd parti) hwn a fydd yn cael ei wario ar gynyrchiadau o well ansawdd. Felly, er nad ydym o'r farn ei bod yn briodol ystyried gwariant trydydd parti o ran dyletswyddau gwariant y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, rydym yn cydnabod y budd i wylwyr drwy gynnwys yr holl oriau ar gyfer cwotâu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

fyddai pob cost yn cael ei ystyried yn wariant rhanbarthol. Mae hyn yn gallu dibynnu'n fawr ar bob math o ffactorau sy'n benodol i gynrychiadau penodol, ac mae'n bosib iawn y byddai rheoliadau manwl ar gyfer yr elfen hon yn wrthgynhyrchol. Fodd bynnag, rydym wedi ychwanegu rhywfaint o nodiadau esboniadol ar gyfer hyn i roi sylw i ymholiadau rhanddeiliaid ynghylch sut dylid neilltuo costau teithio, a sut dylid neilltuo costau gorbenion a gwariant tramor (gweler Atodiad 7).

- 5.37 O ran costau teithio, rydym yn cydnabod y gall cyfran sylweddol o'r gyllideb gael ei gwario ar gludo talentau/offer, a bod hyn yn rhan hanfodol o'r broses gynhyrchu. Felly, dylid cynnwys gwariant teithio wrth ystyried a yw'r maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu wedi cael ei fodloni. Rydym ni'n cynnig na fyddai'n briodol i wariant ar gludo talentau/offer rhwng Llundain a'r rhanbarthau (neu y tu allan i'r DU) gael ei gategoreiddio'n gostau rhanbarthol, gan ei bod yn annhebygol y byddai'r costau hyn yn cyfrannu at yr economi greadigol yn y rhanbarth. Fodd bynnag, rydym yn cynnig y byddai'n briodol i'r gwariant ar deithio yn lleol gael ei gategoreiddio'n gostau rhanbarthol, gan ein bod ni o'r farn y byddai'r costau hyn, fel arfer, yn cyfrannu at yr economi greadigol yn lleol.
- 5.38 Rydym yn cynnig y dylai costau gorbenion sy'n gysylltiedig â chadw canolfan sylweddol yn weithredol yn y gwledydd a'r rhanbarthau gael eu categorio'n wariant rhanbarthol. Pan fydd cynhyrchiad yn cael ei wneud gan gwmni o Lundain heb unrhyw ganolfan sylweddol, dylai costau gorbenion cael eu categorio'n wariant yn Llundain. Pan fydd canolfan sylweddol yn bodoli ond bod gan gwmni cynhyrchu amryw o swyddfeydd ar draws y DU, fel arfer byddem yn disgwyl i gostau gorbenion gael eu neilltuo yn ôl lleoliad. Ym mhob achos, rydym ni o'r farn bod y cynigion hyn yn adlewyrchu'r egwyddor sylfaenol o sicrhau bod y cwmni cynhyrchu'n gwneud cyfraniad ariannol sylweddol at yr economi greadigol yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU.
- 5.39 O ran gwariant tramor, rydym yn cynnig y dylai'r gwariant y tu allan i'r DU gael ei neilltuo fel rhan o'r gyllideb cynhyrchu ond na ddylai gael ei gategoreiddio'n wariant rhanbarthol, gan nad yw'n cyfrannu at yr economi greadigol mewn rhanbarth. Fodd bynnag, rydym yn nodi y byddai'n briodol cynnwys costau sy'n gysylltiedig â thalu talentau sydd wedi'u lleoli yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU wrth weithio dramor ar y cynhyrchiad dan sylw.
- 5.40 Y tu hwnt i'r cynigion hyn, nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau eraill na chynnig eglurhad ychwanegol i roi sylw i rai o'r pryderon mwy penodol mae rhanddeiliaid wedi'u mynegi ynghylch y maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu, gan ein bod o'r farn y gallai hyn gyfyngu hyblygrwydd y maen prawf ac y gallai olygu bod y Canllawiau'n dyddio'n gyflym. Fodd bynnag, byddem yn falch o gael safbwyntiau gan rhanddeiliaid, wedi'u hategu gan dystiolaeth pan fydd yn bosib, ynghylch a ydynt yn credu bod angen eglurhad pellach.

C4) Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydym ni'n eu cynnig i'r maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu (darllenwch y geiriad yn Atodiad 7)? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.

C5) Ydych chi'n cytuno â'r nodiadau esboniadol a awgrymwyd o ran y maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu (darllenwch y geiriad yn Atodiad 7)? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.

Talent oddi ar y sgrin

Geiriad presennol y maen prawf

"Mae'n rhaid mai yn y DU, y tu allan i'r M25, y mae man gwaith arferol o leiaf 50% o'r talentau cynhyrchu (h.y. nid talentau ar y sgrin) o ran costau. Bydd gweithwyr llawrydd sydd heb fan gwaith arferol y tu allan i'r M25 yn cael eu cynnwys at y diben hwn os ydyn nhw'n byw y tu allan i'r M25."

- 5.41 Ni chafwyd cymaint o sylwadau o sylwedd gan randdeiliaid ynghylch y maen prawf talentau oddi ar y sgrin o'i gymharu â'r meini prawf eraill, ond cwestiynwyd rhai elfennau. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau am y diffiniadau o "dalent cynhyrchu" a "man gwaith arferol", ac o ran staff sy'n cael eu cyflogi drwy stiwdio, a ddylid ystyried y stiwdio fel eu man gwaith arferol neu a ddylent gael eu trin yn unigol fel gweithwyr llawrydd at ddibenion bodloni'r trothwy 50%.
- 5.42 Mae ein dadansoddiad yn Adran 4 hefyd yn dangos bod y maen prawf presennol yn gallu gadael i gynrychiadau gael eu hystyried fel cynrychiadau wedi'u gwneud y tu allan i Lundain drwy gyflogi talent llawrydd sy'n byw yn y gwledydd a'r rhanbarthau i deithio i Lundain i weithio ar gynrychiadau. At ei gilydd, roedd rhanddeiliaid yn teimlo'n gyffredinol bod angen gwneud mwy i gefnogi'r gwaith o ddatblygu talentau yn y gwledydd a'r rhanbarthau.
- 5.43 Rydym wedi ystyried amryw o opsiynau wrth asesu'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion a'r ymholiadau hyn, gan gynnwys gwneud newidiadau sylweddol i'r maen prawf. Fodd bynnag, nid ydym yn cynnig gwneud hyn, gan ein bod o'r farn y gallai hyn arwain at effaith negyddol wrth gyfyngu'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael i dalentau yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Yn hytrach na hynny, rydym wedi cyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn y nodiadau esboniadol a gynigir, sy'n ceisio rhoi sylw i gwestiynau rhanddeiliaid – er enghraifft, a yw talent cynhyrchu yn golygu pawb sydd ar y gyflogres; a ddylai talentau sy'n cael eu cyflogi drwy stiwdio y tu allan i'r M25 gael eu hystyried; ac a ddylai'r cwmni cynhyrchu gadarnhau ym mhle mae talent llawrydd yn byw (gweler Atodiad 7).
- 5.44 O ran y diffiniad o dalent cynhyrchu, mae ein nodiadau esboniadol yn egluro mai dim ond costau talent – y cydnabyddir yn gyffredinol ei fod yn rhan o'r broses greadigol o wneud y rhaglen – y byddem yn disgwyl i gwmnïau cynhyrchu eu neilltuo fel gwariant rhanbarthol. Fodd bynnag rydym yn cydnabod bod hynny, mewn rhai achosion, yn gofyn am rywfaint o grebwyll. Rydym ni o'r farn bod hyn yn debygol o gyd-fynd â bwriad y polisi i greu swyddi creadigol go iawn y tu allan i Lundain.

- 5.45 O ran talentau sy'n cael eu cyflogi drwy stiwdio neu gwmni gwasanaethau y tu allan i Lundain, rydym wedi sylwi bod y maen prawf yn nodi ei bod yn rhaid i dalentau llawrydd fyw y tu allan i'r M25.
- 5.46 Y tu hwnt i'r cynigion hyn, nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau eraill na chynnig eglurhad ychwanegol i roi sylw i rai o'r pryderon mwy penodol mae rhanddeiliaid wedi'u mynegi ynghylch y maen prawf ar gyfer talentau oddi ar y sgrin, gan ein bod o'r farn y gallai hyn gyfyngu hyblygrwydd y maen prawf ac y gallai olygu bod y Canllawiau'n dyddio'n gyflym. Fodd bynnag, byddem yn falch o gael safbwyntiau gan rhanddeiliaid, wedi'u hategu gan dystiolaeth pan fydd yn bosib, ynghylch a ydynt yn credu bod angen eglurhad pellach.

C6) Ydych chi'n cytuno y dylai'r maen prawf talentau oddi ar y sgrin aros yr un fath? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.

C7) Ydych chi'n cytuno â'r nodiadau esboniadol a awgrymwyd ynghylch y maen prawf talentau oddi ar y sgrin (darllenwch y geiriad yn Atodiad 7)? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.

Newidiadau i eithrio cynnwys sy'n hunan-hyrwyddo o'r cwotâu ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol

- 5.47 Rydym ni o'r farn bod ystyried cynnwys hunan-hyrwyddo wrth gyflawni'r cwotâu ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol yn mynd yn groes i'r bwriad wrth ymyrryd, ac rydym yn cynnig eithrio cynnwys o'r fath wrth ystyried y cwota yn y dyfodol. Byddai hyn yn golygu nad yw Nightscreen gan ITV yn gallu cael ei ystyried ar gyfer ei gwota cynhyrchu rhanbarthol mwyach, er ei fod wedi cael ei ystyried felly ers cryn amser.
- 5.48 Ers 2010, mae ITV wedi bod yn rhagori ar ei gwota cynhyrchu rhanbarthol yn gyffredinol, ac felly byddai'n dal wedi cydymffurfio â'i gwotâu wrth eithrio cynnwys sy'n hunan-hyrwyddo. Fodd bynnag, yn 2017 roedd *Nightscreen* yn cynrychioli 35% o oriau cynrychiadau rhanbarthol ITV yn gyffredinol, a byddai ei eithrio o'r rhestr cynrychiadau rhanbarthol wedi golygu bod ITV 2.3 pwynt canran yn brin o'i gwota oriau ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol (67 awr). Ni allwn eithrio'r posibilrwydd y gallai ITV fod yn fwy a mwy dibynnol ar *Nightscreen* er mwyn bodloni ei gwota oriau. Gan gofio mai ffocws yr adolygiad hwn yw sicrhau bod teitlau sy'n gymwys i fod yn gynrychiadau rhanbarthol yn cyfrannu at fwriad y polisi, rydym yn credu ei bod yn briodol eithrio *Nightscreen* ac unrhyw deitlau eraill sy'n hunan-hyrwyddo rhag cael eu hystyried o ran y cwotâu ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol yn y dyfodol.
- 5.49 Mae Atodiad 7 yn dangos sut rydym yn bwriadu adlewyrchu'r newid hwn yn y Canllawiau. Er y gallai'r newid hwn effeithio ar allu ITV i fodloni ei gwotâu ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol (ei gwota oriau yn arbennig) yn syth, ar sail data 2017, mae nifer yr oriau newydd y byddai'n rhaid iddo eu comisiynu yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn gymharol fach. Os bydd ITV yn penderfynu lleihau nifer yr oriau o *Nightscreen* mae'n eu comisiynu,

neu roi'r gorau i gomisiynu'r teitl o gwbl, mae'n bosib y bydd hyn hefyd yn effeithio ar y cwmni amlgyfrwng sy'n gwneud *Nightscreen*. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gynnwys arall sy'n hunan-hyrwyddo ar sianel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill sy'n cael ei ystyried yn deitl cymwys, ac felly ni ddylai'r newid hwn gael effaith uniongyrchol arnyn nhw. Fodd bynnag, byddai hyn yn cyfyngu eu gallu i ystyried cynnwys o'r fath yn y cwota ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol yn y dyfodol pe byddent am fabwysiadu dull gweithredu tebyg. Serch hynny, rydym ni o'r farn bod angen newid o'r fath er mwyn sicrhau bod yr holl gynrychiadau sy'n cael eu hystyried yn y cwota wir yn cyfrannu at fwriad y polisi.

C8) Ydych chi'n cytuno â'r newid rydym ni'n ei gynnig i eithrio cynnwys sy'n hunan-hyrwyddo? Os nad ydych chi, esboniwrch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.

Newidiadau i'r categorïau neilltuo

- 5.50 Ar sail ein hasesiad o'r broses neilltuo bresennol, rydym ni o'r farn bod angen addasu rhai pethau er mwyn egluro'n well sut dylai teitlau gael eu neilltuo pan fydd y meini prawf yn cael eu bodloni ar draws sawl lleoliad.
- 5.51 Yn gyntaf, rydym yn credu bod angen egluro pryd dylid defnyddio'r categori 'sawl-gwlad/rhanbarth'. Dyma sydd wedi'i nodi yn y Canllawiau:
- "Pan fydd rhaglen gan gynhyrchydd o fewn yr M25 yn gymwys i fod yn gynhyrchiad rhanbarthol mewn perthynas â meini prawf b) ac c) uchod, ond nad yw'n bodloni'n llwyr y meini prawf hynny mewn unrhyw un wlad neu isranbarth, dylai'r rhaglen gael ei neilltuo'n gynhyrchiad 'sawl-gwlad/rhanbarth'. Pan fydd cynhyrchiad cymwys yn dod gan gynhyrchydd sydd â chanolfan sylweddol y tu allan i'r M25, ond nad yw'n bodloni meini prawf b) nac/neu c yn llwyr mewn unrhyw un wlad neu isranbarth, dylai'r cynhyrchiad gael ei neilltuo yn ôl y ganolfan sylweddol."*
- 5.52 Mae hyn yn golygu mai dim ond pan nad yw cynhyrchiad wedi bodloni'r maen prawf canolfan sylweddol y dylid defnyddio'r categori sawl-gwlad/rhanbarth. Fel y mae Adran 4 yn egluro, mewn rhai achosion mae cynrychiadau sydd wedi bodloni'r maen prawf canolfan sylweddol yn dal wedi cael eu neilltuo fel cynrychiadau sawl-gwlad/rhanbarth, sy'n dangos nad yw'r elfen hon o'r Canllawiau yn cael ei rhoi ar waith yn gywir bob amser. Dylid neilltuo teitlau i isranbarth neu wlad benodol pan fydd yn bosib. Dim ond pan nad yw hyn yn bosib y dylid defnyddio 'sawl-gwlad/rhanbarth'.
- 5.53 Er bod yr uchod yn berthnasol pan nad yw meini prawf b) nac/neu c) wedi cael eu bodloni'n llwyr mewn un wlad neu isranbarth, dydy'r Canllawiau ddim yn dweud sut dylid neilltuo teitlau pan fydd y tri maen prawf wedi'u bodloni'n llwyr mewn gwahanol wledydd neu isranbarthau, a phan mai dim ond dau faen prawf sydd wedi'u bodloni a bod y rheini wedi'u bodloni'n llwyr mewn gwahanol wledydd a/neu isranbarthau. Er enghraifft: cynhyrchiad sy'n bodloni'r maen prawf canolfan sylweddol yn yr Alban, y maen prawf ar gyfer gwariant y cynhyrchiad yng Ngogledd Lloegr, a'r maen prawf talentau oddi ar y sgrin yng Nghanolbarth a Dwyrain Lloegr; neu gynhyrchiad sy'n bodloni'r maen prawf gwariant

- yn Ne Lloegr a'r maen prawf talentau oddi ar y sgrin yng Nghymru (ond ddim yn bodloni'r maen prawf canolfan sylweddol).
- 5.54 Yn yr amgylchiadau hyn, dydy'r agwedd bodloni'r mwyafrif⁸² ddim yn berthnasol. Rydym ni o'r farn bod teitlau o'r fath hefyd yn enghreifftiau o gynyrchiadau 'sawl-gwlad/rhanbarth'. Felly, dylid dilyn yr un egwyddorion â'r uchod. Dylai'r teitl gael ei neilltuo yn ôl lleoliad y ganolfan sylweddol os bydd y maen prawf hwnnw'n cael ei fodloni, neu fel 'sawl-gwlad/isranbarth' os na fydd yn cael ei fodloni. Rydym yn cynnig diweddarau'r geiriad yn y Canllawiau er mwyn gwneud hyn yn glir (gweler Atodiad 7).
- 5.55 Er mwyn sicrhau bod y Canllawiau'n adlewyrchu'r dyletswyddau diweddaraf a osodwyd ar y BBC⁸³ a Channel 4⁸⁴, rydym hefyd yn cynnig cyflwyno dau gategori neilltuo newydd ochr yn ochr â 'sawl-gwlad/rhanbarth':
- a) **Sawl-rhanbarth yn Lloegr:** ar gyfer teitlau sydd heb fodloni'r maen prawf canolfan sylweddol ac sydd naill ai i) wedi bodloni'n llwyr bob un o'r meini prawf ar gyfer y gyllideb a thalentau oddi ar y sgrin, mewn dau isranbarth gwahanol yn Lloegr; neu ii) wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer y gyllideb a thalentau oddi ar y sgrin ar y cyd mewn gwahanol isranbarthau yn Lloegr, ond heb fodloni'n llwyr y trothwyon 70% a 50% perthnasol mewn unrhyw un isranbarth yn Lloegr.
 - b) **Sawl-gwlad y tu allan i Loegr:** ar gyfer teitlau sydd heb fodloni'r maen prawf canolfan sylweddol ac sydd naill ai i) wedi bodloni'n llwyr bob un o'r meini prawf ar gyfer y gyllideb a thalentau oddi ar y sgrin, mewn dwy wlad wahanol y tu allan i Loegr; neu ii) wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer y gyllideb a thalentau oddi ar y sgrin ar y cyd mewn gwledydd gwahanol y tu allan i Loegr, ond heb fodloni'n llwyr y trothwyon 70% a 50% perthnasol mewn unrhyw un wlad y tu allan i Loegr.
 - c) **Sawl-gwlad/rhanbarth:** mae angen cadw'r categori hwn ar gyfer teitlau sydd heb fodloni'r maen prawf canolfan sylweddol ac sydd naill ai i) wedi bodloni'n llwyr bob un o'r meini prawf ar gyfer y gyllideb a thalentau oddi ar y sgrin, ond pan fydd un maen prawf wedi'i fodloni mewn isranbarth yn Lloegr ac un wedi'i fodloni naill ai yng Nghymru, yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon; neu ii) wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer y gyllideb a thalentau oddi ar y sgrin ar y cyd rhwng Lloegr ac unrhyw wlad neu wledydd eraill yn y DU, ond ddim yn bodloni'n llwyr y trothwyon 70% a 50% perthnasol mewn unrhyw un wlad/isranbarth.
- 5.56 Rydym hefyd wedi ychwanegu enghreifftiau ymarferol at y Canllawiau, yn nodi sut dylid defnyddio'r gwahanol gategorïau neilltuo (gweler Atodiad 7).
- 5.57 Byddai cyflwyno'r categori newydd ar gyfer sawl-rhanbarth yn Lloegr yn gadael i'r BBC fynd ati'n briodol i gynnwys rhywfaint o'i deitlau yn ei gwota newydd ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn Lloegr. Mae'n bosib y bydd y categori newydd ar gyfer sawl-gwlad y tu allan

⁸² Darllenwch baragraff 4.52 i gael rhagor o wybodaeth.

⁸³ Yn 2017, cyflwynodd Ofcom gwtâu oriau a gwariant ar gyfer Lloegr (y tu allan i ardal yr M25); [Trwydded Weithredu'r BBC](#), paragraff 2.54.

⁸⁴ Yn wreiddiol, fe wnaethom osod y cwota cynhyrchu y tu allan i Loegr ar 3% yn ôl nifer a gwariant. Fe wnaethom gynyddu'r lefel i 9% yn y ddogfen ['Renewal of the Channel 4 licence, 2014'](#) a fydd yn dod i rym yn 2020.

i Loegr yn fuddiol i Channel 4 hefyd ar brydiau, pan fydd ganddo deitlau sy'n gallu cael eu cynnwys yn ei gwota cyffredinol ar gyfer cynyrchiadau y tu allan i Loegr sydd, hyd yma, wedi cael eu hystyried yn gynyrchiadau sawl-gwlad/rhanbarth.

- 5.58 Byddai'r categorïau newydd hyn yn gwneud y broses o adrodd yn ôl yn yr ardal hon yn fwy tryloyw, a bydd yn well adlewyrchiad o'r ardal lle mae'r rhaglen yn cael ei gwneud. Gallai newidiadau o'r fath wneud y broses neilltuo ychydig yn fwy cymhleth i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus drwy fynnu eu bod yn ystyried categorïau ychwanegol. Fodd bynnag, ar raddfa fach y byddai hynny, gan mai dim ond ar deitlau sy'n cael eu neilltuo i'r categori 'sawl-gwlad/rhanbarth' ar hyn o bryd (0.9% o oriau yn 2017) y byddai hynny'n effeithio, a byddai unrhyw faich ychwanegol wrth gyflwyno gwybodaeth yn cael ei wrthbwyso gan fuddion y newid a gynigir.

C9) Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydym ni'n cynnig eu gwneud i'r categorïau neilltuo (darllenwch y geiriad yn Atodiad 7)? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.

Newidiadau i ddiweddarau'r Canllawiau

Newidiadau i adlewyrchu'r drefn reoleiddio newydd ar gyfer y BBC

- 5.59 O dan y Cytundeb a'r Siarter Frenhinol bresennol, dechreuodd Ofcom ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio'r BBC ar 1 Ebrill 2017. Felly, mae angen i ni wneud rhywfaint o newidiadau i'r Canllawiau er mwyn adlewyrchu hyn.
- 5.60 Ac eithrio cyflwyno categorïau neilltuo newydd fel yr amlinellir uchod, bydd y newidiadau hyn, gan fwyaf, wedi'u cyfyngu i newidiadau bach i'r testun yn y Canllawiau. Mae hyn yn cynnwys diweddarau cyfeiriadau i'r hyn sy'n ofynnol yng Nghytundeb y BBC, a beth yw rôl Ofcom wrth osod dyletswyddau o'r fath. Mae Atodiad 7 yn dangos sut bydd y newidiadau'n cael eu hadlewyrchu yn y Canllawiau.
- 5.61 Gan mai dim ond adlewyrchu'r drefn reoleiddio newydd ar gyfer y BBC yw pwrpas y newidiadau hyn, does dim angen i ni ymgynghori ar y rhain.

Newidiadau eraill

- 5.62 Ar hyn o bryd, mae'r Canllawiau'n amlinellu ac yn egluro rhywfaint o'r rhesymeg sydd wrth wraidd ein dull rheoleiddio ar gyfer yr elfen hon, fel pam rydym yn mynnu bod o leiaf ddau faen prawf o'r tri yn cael eu bodloni, a pham mae talentau ar y sgrin yn cael eu heithrio wrth gyfrifo'r gyllideb cynhyrchu.
- 5.63 Er mwyn gwneud y ddogfen Canllawiau'n fwy eglur, rydym wedi penderfynu cael gwared â'r holl wybodaeth ymylol nad yw'n help uniongyrchol i'r defnyddiwr gyflawni'r dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol. Felly, ni fydd unrhyw fersiynau o'r Canllawiau yn y dyfodol yn cynnwys unrhyw gyfeiriadau at resymeg y polisi (mae Atodiad 7 yn dangos pa wybodaeth rydym wedi'i dileu). Mae'r rhesymeg a oedd wedi'i chynnwys o'r blaen yn y

Canllawiau wedi'i nodi ym mharagraffau 2.17-2.18 uchod, ac mae'r rhesymeg sydd wrth wraidd y newidiadau a gynigir wedi'i nodi yn y bennod hon.

Newidiadau i brosesau cydymffurfio a gorfodi

- 5.64 Yn ein barn ni, mae'n bosib bod diffyg goruchwyllo ac atebolrwydd hyd yma dros sicrhau bod cynyrchiadau wedi bodloni'r diffiniad o gynhyrchiad rhanbarthol yn briodol wedi cyfrannu at achosion o arferion gwael wrth roi'r Canllawiau ar waith. Yn ei dro, mae'n bosib bod yr achosion hyn wedi cyfyngu i ba raddau mae'r drefn ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol wedi cyflawni bwriad y polisi. Mae hyn wedi effeithio ar ffydd rhai rhanddeiliaid yn y system hefyd. I fynd i'r afael â'r materion hyn, rydym yn ystyried newid y ffordd mae'n rhaid cydymffurfio. Bydd yn rhaid i hyn gynnwys pawb sy'n rhan o'r cynhyrchiad a'r broses gydymffurfio reoleiddiol.
- 5.65 Felly, rydym hefyd yn cynnig nifer o newidiadau i brosesau Ofcom i sicrhau bod y ffordd mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni eu cwotâu rhanbarthol yn cyd-fynd â bwriad y polisi, ac rydym hefyd yn bwriadu gwella ein cyhoeddiadau blynyddol yn y maes hwn.

Casglu data

- 5.66 Rydym yn sylweddoli mewn nifer o achosion fod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dibynnu ar wybodaeth sy'n cael ei darparu gan drydydd partïon er mwyn sicrhau bod cynyrchiadau'n cyd-fynd â'r Canllawiau. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd yn y drwydded i gyflawni'r cwotâu, ac i ystyried y Canllawiau wrth wneud hynny, yn dal yn ddyletswydd ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn unig. Mae profiad blaenorol o ofyn am wybodaeth ychwanegol am deitlau wedi dangos nad yw arferion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wrth gadw cofnodion wedi bod yn ddigon da bob amser.
- 5.67 Wrth neilltuo cynyrchiadau i'w cwotâu, mae angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fod yn fodlon bod y teitlau dan sylw wedi bodloni'r meini prawf perthnasol er mwyn cael eu hystyried yn gynhyrchiad rhanbarthol. Dydy dibynnu ar sicrwydd neu ddatganiad gan y cyflenwr ddim yn ddigon da yn ein barn ni, ac rydym yn annog y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gryf i ystyried pa wybodaeth maen nhw'n teimlo ddylai fod ar gael iddynt er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio.
- 5.68 Ar y cyfan, rydym ni o'r farn mai lle'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw penderfynu – drwy drafod â'u cyflenwyr – ar fanylion y ffordd maent am wneud hynny, ac rydym yn nodi eu cyhoeddiad ar y cyd diweddar iawn sy'n cynghori cynhyrchwyr ar sut i ddehongli Canllawiau presennol Ofcom.

Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yn Adran 4, mae llawer o randdeiliaid o'r farn y gallai Ofcom wneud mwy i wella gweithgareddau adrodd yn ôl, ac mae ein dadansoddiad yn ategu'r farn hon. Felly, yn ein barn ni mae'n hollbwysig bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd yn cyflwyno data blynyddol i Ofcom i'n helpu ni i oruchwyllo'r broses gydymffurfio, ac er mwyn i ni ddeall yn well sut mae darlledwyr yn sicrhau bod teitlau

maent yn eu cynnwys yn eu cwotâu yn bodloni'r diffiniad o gynyrchiadau rhanbarthol wrth roi meini prawf y Canllawiau ar waith yn gywir.

Darledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gyflwyno gwybodaeth i Ofcom

- 5.69 Rydym wedi rhoi gwybod yn barod i'r darledwyr gwasanaeth cyhoeddus ei bod yn rhaid iddynt ddechrau casglu rhagor o wybodaeth gan eu cyflenwyr ynghylch sut mae cynyrchiadau rhanbarthol wedi bodloni'r meini prawf. Mae'r data newydd yn cynnwys cyfeiriad post y ganolfan sylweddol, ble mae'r meini prawf ar gyfer gwariant a thalentau yn cael eu bodloni, a'r ganran o'r cyllidebau perthnasol a gafodd ei chyflawni yno. Bydd rhywfaint o'r data hyn yn cael eu casglu a'u cyflwyno i Ofcom ar gyfer teitlau cynyrchiadau rhanbarthol a fydd yn cael eu darlledu o fis Gorffennaf 2018 ymlaen. Bydd y set data gyfan y gofynnwyd amdani hyd yma yn cael ei chasglu a'i chyflwyno i Ofcom ar gyfer yr holl deitlau cynyrchiadau rhanbarthol a fydd yn cael eu darlledu o fis Ionawr 2019 ymlaen.
- 5.70 O ran cynyrchiadau sy'n bodloni'r diffiniad o ganolfan sylweddol, rydym hefyd yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyflwyno data ychwanegol yn nodi'r flwyddyn y cafodd y ganolfan ei sefydlu wrth adrodd yn ôl yn flynyddol i Ofcom. Mae hyn yn cael ei ddisgrifio ym mhwynt 5.24 uchod.
- 5.71 Mae'r ffordd rydym yn bwriadu rheoli a chyhoeddi'r data hyn wedi cael ei hamlinellu yn yr adran cyhoeddiadau isod.
- 5.72 Rydym yn sylweddoli bod newidiadau o'r fath yn debygol o arwain at oblygiadau i ddarlledwyr a chwmnïau cynhyrchu o ran adnoddau. Rydym ni o'r farn y bydd lefel y data blynyddol ychwanegol y byddwn yn gofyn amdanynt yn sicrhau'r cydbwysedd angenrheidiol rhwng rhoi gwell syniad i ni o'r ffordd mae'r darledwyr yn cyflawni'r cwotâu, a chyfyngu'r baich ychwanegol arnynt o ran costau. Rydym ni o'r farn bod y cais hwn, ar y cyd â'r mesurau eraill sy'n cael eu hegluro isod, yn gymesur ac yn briodol. Hefyd dylai trefn adrodd fwy trylwyr ar gyfer darledwyr gwasanaeth cyhoeddus, sy'n arwain at fwy o dryloywder, annog darledwyr i fod yn fwy chwilfrydig am eu cynyrchiadau rhanbarthol. Dylai'r craffu ychwanegol hwn helpu i sicrhau bod y meini prawf yn cael eu rhoi ar waith yn fwy cyson, a fydd yn golygu bod bwriad y polisi'n cael ei gyflawni'n well.

Cyhoeddiadau

- 5.73 Rydym wedi sylwi ar y dyhead ymysg rhai rhanddeiliaid i weld Ofcom yn cyhoeddi mwy o ddata ar gynyrchiadau rhanbarthol, er mwyn sicrhau mwy o dryloywder o ran y ffordd mae'r cwotâu yn cael eu cyflawni. Rydym ni o'r farn bod yr adolygiad hwn yn gyfle delfrydol i ailedrych ar y ffordd rydym yn cyhoeddi data ynghylch y maes hwn, ac i wella'r hyn rydym yn ei gyhoeddi o fewn y Gofrestr.
- 5.74 Hyd yma, mae data ar gwotâu a'r Gofrestr wedi cael eu cyhoeddi ar wahân. Yn y dyfodol, rydym yn bwriadu cyhoeddi mwy o ddata a data mwy amrywiol, a darparu'r holl ddata perthnasol mewn un cyhoeddiad digidol rhyngweithiol y gall defnyddwyr ei ddefnyddio gydag amryw o hidlyddion. Er mwyn i randdeiliaid gael gwell syniad o beth fydd hyn yn ei olygu, rydym wedi cyhoeddi fersiwn ehangach o Gofrestr 2017, ar sail y data rydym yn eu

casglu ar hyn o bryd (gweler Atodiad 8). Mae'n bosib y bydd fersiynau yn y dyfodol o'r Gofrestr ryngweithiol hon yn cynnwys rhywfaint o'r data ychwanegol y byddwn yn eu casglu gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer teitlau sy'n cael eu darlledu o fis Gorffennaf 2018 a mis Ionawr 2019 ymlaen. Bydd hyn yn gwneud y Gofrestr yn fwy cynhwysfawr.

- 5.75 Dylai hyn olygu bod amrywiaeth eang o randdeiliaid yn gallu gweld y data mwyaf perthnasol er mwyn ystyried y meysydd sydd o ddiddordeb iddyn nhw'n bersonol. Bydd y cyhoeddiad hwn yn arwain at fwy o dryloywder, a dylai hynny alluogi rhanddeiliaid i ddeall yn well sut mae cynrychiadau'n bodloni'r meini prawf ac yn cyflawni'r cwotâu. Dylai hyn, yn ei dro, helpu i sicrhau mwy o hyder a ffydd yn y system.

Monitro

- 5.76 Rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno prosesau monitro rhagweithiol, er mwyn gweld sut mae'r Canllawiau diwygiedig a'r nodiadau esboniadol yn cael eu dehongli. Bydd hyn yn digwydd drwy archwiliadau rhesymol ad-hoc yn y fan a'r lle ar deitlau sy'n cael eu cyflwyno fel cynrychiadau rhanbarthol, lle byddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol am gynrychiadau er mwyn gweld beth sy'n eu gwneud nhw'n gynrychiadau rhanbarthol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud o dan ein pwerau cyffredinol i gasglu gwybodaeth yn unol â thrwyddedau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus unigol.
- 5.77 Yn ein barn ni, dylai prosesau monitro o'r fath gael effaith gadarnhaol sylweddol hefyd drwy annog pawb yng nghadwyn cynrychiadau rhanbarthol i fod yn fwy atebol am gyflawni cynhyrchiad yn unol â bwriad y Canllawiau. Dylai helpu i sicrhau bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros gynrychiadau maen nhw wedi'u gwneud neu gynrychiadau yn eu henw, ac annog cynhyrchwyr i roi'r Canllawiau ar waith yn fwy trylwyr hefyd. Dylai hybu gwell arferion wrth gadw cofnodion hefyd, a golygu ei bod yn haws ymchwilio yn sgil prosesau monitro neu gwynion nag y bu hyd yma. Eto, rydym yn cydnabod y bydd y broses hon yn arwain at oblygiadau i'r darlledwyr, y cynhyrchwyr ac i Ofcom o ran adnoddau. Fodd bynnag, rydym ni o'r farn bod prosesau monitro ar hap yn gam priodol a chymesur i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi llawer o'r materion a nodwyd yn Adran 4, o ran sut mae'r meini prawf yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol.

Proses gwyno

- 5.78 Rydym yn derbyn pryderon rhanddeiliaid am ddiffyg proses gwyno dryloyw i dynnu sylw at gynrychiadau sydd wedi'u neilltuo i'r cwotâu ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol ac sydd heb, ym marn rhanddeiliaid, gael eu cyflawni yn unol â'r Canllawiau. I ymateb i hynny, rydym yn bwriadu gwneud y broses gwyno'n glir yn y Canllawiau, drwy ychwanegu esboniad o'r broses gwyno bresennol ar gyfer torri amodau'r drwydded – gan gynnwys sut byddwn yn adrodd yn ôl ar ganlyniadau – a drwy gynnig llwybr clir i randdeiliaid fynegi pryderon cydymffurfio i ni ynghylch teitlau cynrychiadau rhanbarthol. Dylai hyn helpu i adfer ffydd pobl y bydd materion cydymffurfio a godir yn cael eu hasesu'n briodol.
- 5.79 Gellir cymryd camau gorfodi os:

- a) bydd y trwyddedai'n methu cyflawni cwota ei drwydded ar gyfer gwariant neu oriau gan nad yw'r teitl perthnasol yn cael ei gynnwys yn y cwotâu mwyach, neu
- b) os yw'r trwyddedai wedi rhoi gwybodaeth anghywir i Ofcom fel rhan o'i ymateb i gais ffurfiol am wybodaeth.

Mewn achosion o'r fath, byddem yn ystyried rhoi sancsiynau i'r trwyddedai. Gall sancsiynau amrywio o Benderfyniad Torri Amodau ym Mwletin Broadcast Ofcom, i gyflwyno cosb ariannol. Y gosb ariannol fwyaf y gallwn ni ei rhoi i'r BBC yw £250,000. I ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, gallwn roi cosb o hyd at 5% o'r 'refeniw cymwys'.

- 5.80 Rydym ni o'r farn y dylai'r pecyn hwn o gynigion i wella cydymffurfiaeth sicrhau, gyda'i gilydd, trefn fwy effeithiol drwy roi cymhelliant i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros gydymffurfio, neu wynebu sancsiynau posib a chmau gorfodi. Bydd yn gwneud hynny drwy ddarparu Canllawiau cliriach, cyflwyno rhagor o wybodaeth, cyhoeddiadau data mwy eang a chynhwysfawr, prosesau monitro rhagweithiol a phroses gwyno glir.

C10) Er nad oes rhaid i ni ymgynghori ar ein prosesau mewnol, byddem yn croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ar unrhyw ganlyniadau niweidiol nad ydym wedi'u nodi a allai ddigwydd yn sgil y newidiadau rydym yn bwriadu eu cyflwyno mewn perthynas â'n prosesau cydymffurfio a gorfodi, sef:

- a) y ddarlledwyr yn casglu data ac yn adrodd yn ôl;
- b) cyhoeddiadau data mwy cynhwysfawr;
- c) prosesau monitro rhagweithiol gan Ofcom; a
- d) cyfleu'r broses gwyno'n glir.

Monitro'r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus

- 5.81 Fel yr eglurwyd yn flaenorol, roedd y Papur Gwyn ar Gyfathrebu yn 2000⁸⁵ yn dweud bod creu canolfannau cynhyrchu cadarn yn un o nodau'r dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol. Mae ein dadansoddiad yn Adran 3 yn dangos bod y sector cynhyrchu y tu allan i Lundain yn perfformio'n dda ar y cyfan, ei fod wedi cynyddu ei gyfran o wariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dros y degawd diwethaf, a bod mwy a mwy o gwmnïau cynhyrchu lleol yn gwneud rhaglenni i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y gwledydd. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebion gan rhanddeiliaid i'r cais am dystiolaeth yn galw ar y ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i wneud mwy i ddatblygu gyrfaedd talentau yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ac i leihau eu defnydd o gyfleusterau a thalentau yn Llundain wrth wneud cynrychiadau rhanbarthol, er mwyn i ganolfannau cynhyrchu y tu allan i Lundain allu bod yn fwy cynaliadwy. Maent wedi galw ar Ofcom i gyflwyno rheoliadau

⁸⁵ A New Future for Communications 2000, paragraffau 4.46 a 5.7.1-5.7.2.

ychwanegol i roi sylw i hyn. Mae'r materion a gyflwynwyd yn ein dadansoddiad cynharach o'r elfen hon hefyd yn awgrymu bod mwy o gynnydd i'w wneud.

- 5.82 Rydym ni o'r farn y gellir gwneud mwy i gefnogi datblygiad ecolegau cynhyrchu annibynnol o'r dechrau i'r diwedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Rydym o'r farn y dylai'r holl newidiadau rydym yn cynnig eu gwneud i'r Canllawiau a'r drefn reoleiddio a amlinellir uchod, gefnogi a gwella ymhellach y ffordd y mae'r elfen hon o'r amcan yn cael ei chyflawni. Dylid ategu hynny gyda'r ystod o gynlluniau yn y diwydiant sy'n datblygu yn y gwledydd a'r rhanbarthau, gan gynnwys datblygiadau mawr Pencadlys Channel 4 yn Leeds a dwy ganolfan greadigol yn Glasgow a Bryste, a sianel newydd y BBC yn yr Alban, yn ogystal â'r cynllun newydd drwy Creative Skillset i greu talentau rhanbarthol (gan ddechrau yn Leeds), buddsoddiad ariannol gan Lywodraeth yr Alban yn yr Alban, a chyfleuster ôl-gynhyrchu mawr newydd sydd wedi agor ym Manceinion.
- 5.83 Gyda'r datblygiadau uchod mewn golwg, rydym o'r farn y byddai'n gynamserol cynnwys rhagor o fesurau rheoleiddio ar hyn o bryd, y tu hwnt i'r rheini rydym wedi'u cynnig. Fodd bynnag, mae'r datblygiadau hyn yn gyfle amserol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus adolygu eu strategaethau ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol, er mwyn gweld beth yw'r ffordd orau iddynt fanteisio ar y cyfleoedd newydd hyn i leihau eu dibyniaeth ar gyfleusterau a thalentau yn Llundain, a defnyddio mwy ar adnoddau rhanbarthol er mwyn cefnogi canolfannau cynhyrchu rhanbarthol yn well. Dylai hyn, yn ei dro, helpu i sicrhau ystod ehangach o leisiau golygyddol a ddylai adlewyrchu a gwasanaethu cynulleidfaoedd y DU yn well.
- 5.84 Rydym yn bwriadu comisiynu arolwg o gynhyrchwyr gwahanol gynyrchiadau rhanbarthol a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus er mwyn cael dealltwriaeth fanylach o'r gymysgedd o adnoddau a thalentau yn Llundain ac yn y gwledydd a'r rhanbarthau sy'n cael eu defnyddio wrth wneud a chomisiynu cynyrchiadau rhanbarthol, a meincnodi'r cynnydd hyd yma. Bydd y data hyn yn sylfaen dystiolaeth ffeithiol am y rhaniad adnoddau rhwng Llundain a'r gwledydd a rhanbarthau, y bydd modd ei defnyddio i asesu datblygiadau dros amser. Dylai fod yn adnodd defnyddiol i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ei ddefnyddio hefyd i lunio eu strategaethau a chynlluniau hyfforddi ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol yn y dyfodol.
- 5.85 Byddwn yn parhau i adolygu sut mae pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrannu at ddatblygiad pellach y canolfannau cynhyrchu rhanbarthol, gan ddefnyddio'r arolwg, a'r data ychwanegol y byddwn yn cychwyn eu casglu gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (fel y nodir uchod).
- 5.86 Os, ar ôl i'r datblygiadau yn y farchnad sy'n cael eu nodi uchod gael eu rhoi ar waith a chael amser i wreiddio, ein bod o'r farn nad oes digon o gynnydd yn cael ei wneud yn y maes hwn, efallai y byddwn yn ailystyried a yw oes angen rheoleiddio pellach er mwyn cyflawni'r nodau sydd gennym. Gallai hyn gynnwys addasu'r meini prawf presennol yn sylweddol neu ychwanegu meini prawf ychwanegol yn y maes hwn.

Crynodeb o'r cynigion

Ffigur 9: Newidiadau arfaethedig i'r dull rheoleiddio ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol

Gofynion trwydded	Canllawiau	Cydymlfurio	Gorfodi	Meincnodi
Cwotâu cynrychiadau rhanbarthol ynghylch isafswm % oriau a gwariant	Rhaid i gynrychiadau rhanbarthol gwrdd ag o leiaf ddau o'r tri maen prawf	Adrodd yn ôl – Rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyflwyno data i Ofcom er mwyn adrodd yn ôl yn flynyddol ynghylch a ydynt wedi cyflawni eu cwotâu ai peidio, a'r cynrychiadau maent wedi'u cynnwys yn eu cwotâu	Delio â chwynion fesul achos. Os na fydd un o ddyletswyddau trwydded yn cael ei chyflawni, byddwn yn cymryd camau gorfodi priodol	Cynnal arolwg yn y diwydiant o gynrychiadau rhanbarthol er mwyn meincnodi'r defnydd cymharol o adnoddau yn y gwledydd a'r rhanbarth o'u cymharu ag adnoddau yn Llundain
Gofyniad ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol (gyda'i gilydd) i ddarparu ystod addas o raglenni a defnyddio ystod addas o ganolfannau cynhyrchu	Rhaid i gynrychiadau rhanbarthol gael eu neilltuo i wlad, un o'r tri isranbarth yn Lloegr, neu fel sawl rhanbarth	Adrodd yn ôl – Y ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflwyno data flynyddol ychwanegol	Proses newydd i gyfleu i randdeiliaid beth yw canlyniadau cwynion	
Cwotâu rhaglenni rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau Channel 3 a'r BBC	Dylai rhaglenni rhanbarthol ddilyn y diffiniadau perthnasol	Cyhoeddiadau – Pecyn data flynyddol y ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus: yn cynnwys manylion am gyflawni cwota'r ddarlledwr ar gyfer cynrychiadau rhanbarthol. Cofrestr flynyddol o deitlau rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain: rhestru manylion y cynrychiadau sydd wedi'u cynnwys yn y cwota		
Ystyried unrhyw ganllawiau sy'n cael eu cyhoeddi gan Ofcom	Geirriad ychwanegol newydd sy'n pwysleisio amcan polisi'r dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol	Cyhoeddiadau – Cynyddu amrywiaeth a lefel y data y mae Ofcom yn ei gyhoeddi. Creu un cyhoeddiad digidol rhyngweithiol sy'n cynnwys yr holl ddata perthnasol		
Dyletswydd i adrodd yn ôl er mwyn cyflwyno gwybodaeth fanwl ar gais o dan ein pwerau casglu gwybodaeth	Rhaid i'r ganolfan sylweddol fod yn weithredol cyn i'r comisiynu ddigwydd	Monitro – Cyflwyno proses i fonitro'r ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar hap		
	Ffi cynhyrchu wedi'i heithrio o'r maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu			
	Newidiadau esboniadol ychwanegol i'r maen prawf			
	Rhaglenni sy'n hunan-hyrwyddo wedi'u heithrio o'r cwotâu			
	Atodiad newydd sy'n cynnwys nodiadau esboniadol			
	Cyfeiriadau newydd at y broses gwyno			
	Dau categori newydd ar gyfer dyrannu data: sawl rhanbarth yn Lloegr a sawl gwlad y tu allan i Lloegr			
	Newidiadau esboniadol i'r categorïau dyrannu			

2

Excellence collaboration agility EMPOWERMENT

Ffynhonnell: Ofcom. Mae'r testun piws yn dangos y dull rheoleiddio presennol. Mae'r testun gwyrdd yn amlinellu ein cynigion at ddiben ymgynghori.

Trefniadau pontio

- 5.87 Rydym yn cydnabod bod cyfnod hir cyn cwblhau rhaglenni yn aml iawn a bod y penderfyniadau comisiynu yn cael eu gwneud ymhell cyn y bydd rhaglen yn cael ei darlledu yn y pen draw. O'r herwydd, efallai y bydd yn rhaid cael cyfnod pontio cyn y byddai rhai o'r newidiadau a gynigir uchod yn dod i rym.
- 5.88 Yn dibynnu ar sut mae'r ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'u cyflenwyr wedi bod yn dehongli'r Canllawiau hyd yma, bydd effaith y newidiadau rydym yn eu cynnig yn amrywio. Mae'n bosib y bydd y cyngor i gynhyrchwyr a gyhoeddwyd gan y ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ddiweddar yn effeithio ar hyn. Efallai na fydd rhai newidiadau yn cael effaith sylweddol ar sut maent yn bodloni eu dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol ac felly na fydd angen llawer amser i'w rhoi ar waith. Mewn achosion eraill, efallai y bydd angen mwy o amser arnynt i addasu eu prosesau comisiynu ac arferion gwaith.
- 5.89 Ac eithrio'r newidiadau i'r data y dylai ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu casglu ac adrodd yn eu cylch, (a fydd yn dechrau yn rhannol ar gyfer teitlau sy'n cael eu darlledu ar 1 Gorffennaf 2018, ac wedyn yn llawn ar gyfer teitlau sy'n cael eu darlledu o 1 Ionawr 2019 ymlaen), rydym yn cynnig ar hyn o bryd y dylai gweddill y newidiadau (gan gynnwys cyflwyno data ychwanegol ynghylch blwyddyn sefydlu'r ganolfan) ddod i rym o ran teitlau sy'n cael eu darlledu o fis Ionawr 2020 ymlaen. Rydym yn credu y dylai hyn gydbwyso'r angen i roi digon o amser i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus weithredu'r newidiadau

perthnasol, a'i bod yn bwysig bod y newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith gynted ag sy'n ymarferol bosib i wella effeithiolrwydd y drefn.

C11) Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i'r Canllawiau newydd a'r mwyafrif o newidiadau ddod i rym o fis Ionawr 2020 ymlaen?

A1. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Adolygiad o'r Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ein cynigion i newid y Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol, a hefyd yn egluro'r newidiadau rydym yn bwriadu eu gwneud i'n prosesau cydymffurfio a gorfodi. Nid oes yn rhaid i ni ymgynghori ynghylch ein prosesau mewnol ond byddem ni'n dal yn croesawu sylwadau gan randdeiliaid am hyn. Bydd yr wybodaeth a gaiff ei chasglu yn cael ei defnyddio i gyhoeddi datganiad sy'n nodi canlyniadau terfynol yr adolygiad yn ystod gwanwyn 2019.

1. Ydych chi'n cytuno â'r newid rydym ni'n ei gynnig i gyfleu bwriad y dyletswyddau cynhyrchu rhanbarthol ar ddechrau'r Canllawiau? (Darllenwch y geiriad yn Atodiad 7).
2. Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydym ni'n eu cynnig i'r maen prawf canolfan sylweddol (darllenwch y geiriad yn Atodiad 7)? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.
3. Ydych chi'n cytuno â'r nodiadau esboniadol a awgrymwyd o ran y maen prawf canolfan sylweddol (darllenwch y geiriad yn Atodiad 7)? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.
4. Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydym ni'n eu cynnig i'r maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu (darllenwch y geiriad yn Atodiad 7)? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.
5. Ydych chi'n cytuno â'r nodiadau esboniadol a awgrymwyd o ran y maen prawf ar gyfer y gyllideb cynhyrchu (darllenwch y geiriad yn Atodiad 7)? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.
6. Ydych chi'n cytuno y dylai'r maen prawf talentau oddi ar y sgrin aros yr un fath? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.
7. Ydych chi'n cytuno â'r nodiadau esboniadol a awgrymwyd ynghylch y maen prawf talentau oddi ar y sgrin (darllenwch y geiriad yn Atodiad 7)? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.
8. Ydych chi'n cytuno â'r newid rydym ni'n ei gynnig i eithrio cynnwys sy'n hunan-hyrwyddo? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.
9. Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydym ni'n cynnig eu gwneud i'r categorïau neilltuo (darllenwch y geiriad yn Atodiad 7)? Os nad ydych chi, esboniwch pam os gwelwch yn dda, gan gyflwyno tystiolaeth briodol i ategu hynny pan fydd yn bosib.

10. Er nad oes rhaid i ni ymgynghori ar ein prosesau mewnol, byddem yn croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ar unrhyw ganlyniadau niweidiol nad ydym wedi'u nodi a allai ddigwydd yn sgil y newidiadau rydym yn bwriadu eu cyflwyno mewn perthynas â'n prosesau cydymffurfio a gorfodi, sef:

- a) y darlledwyr yn casglu data ac yn adrodd yn ôl;
- b) cyhoeddiadau data mwy cynhwysfawr;
- c) prosesau monitro rhagweithiol gan Ofcom; a
- d) cyfleu'r broses gwyno'n glir.

11. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i'r Canllawiau newydd a'r mwyafrif o newidiadau ddod i rym o fis Ionawr 2020 ymlaen?

Rhowch resymau a thystiolaeth i gefnogi eich ymateb(ion).